

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Madog Dwygraig

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT, FBA

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodyr Ymchwil

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Barry James Lewis, MA, MPHIL, PHD

Eurig Salisbury, BA, MPHIL

Golygydd Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Yr Athro Peredur Lynch, BA, PHD

GWAITH MADOG DWYGRAIG

golygwyd gan

HUW MEIRION EDWARDS



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2006

© Prifysgol Cymru ©, 2006.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 87 4

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Testun Llyfr Coch Hergest (J 111) yw prif ffynhonnell yr holl gerddi. Gan fod yr holl gopïau diweddarach yn tarddu o'r llawysgrif hon, ni ddangosir darlleniadau amrywiol ohonynt. Os diwygir darlleniad yn y Llyfr Coch, dangosir y darlleniad gwreiddiol ar waelod y testun.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlvi); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *uddun* (sef 'iddynt'), *gwedy*, *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Diolchiadau

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol wrth baratoi'r gyfrol hon: Golygydd y gyfres, Dr Ann Parry Owen, a'r Golygydd Ymgynghorol, yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd; aelodau'r Bwrdd Golygyddol; Golygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Cynnwys

DULL Y GOLYGU.....	v
DIOLCHIADAU	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	ix
Termau a Geiriau	xviii
RHAGYMDRODD	1
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
1. Marwnad Gruffudd ap Madog ab Iorwerth o Lechwedd Ystrad.....	9
2. Marwnad Gruffudd ap Madog ab Iorwerth o Lechwedd Ystrad.....	15
3. Moliant Morgan ap Dafydd ap Llywelyn o Rydodyn.....	18
4. Moliant Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan.....	25
5. Englynion i Grist.....	29
6. Awdl i Grist	31
7. Awdl gyffes.....	34
8. Cyffes prydydd	37
9. Afallen beren: dychan i Faald ferch Ddafydd.....	41
10. Dychan i'r llo	48
11. Dychan i'r gwëydd.....	54
12. Dychan i glerwr	57
13. Dychan i fab y gof.....	59
14. Ystoria Ddeicyn	63
15. Dychan i'r wrach.....	67
16. Dychan i Rucyn	70
17. Dychan i Dudur.....	72
NODIADAU.....	75
MYNEGAI	139
Enwau personau	152
Enwau lleoedd	154
LLAWYSGRIFAU.....	155

MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF	157
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU	159

Byrfoddau

Llyfryddol

Act	‘Actau’r Apostolion’ yn y Testament Newydd
AH	<i>Astudiaethau ar yr Hengerdd</i> , gol. R. Bromwich ac R. Brinley Jones (Caerdydd, 1978)
AP	<i>Yr Areithiau Pros</i> , gol. D. Gwenallt Jones (Caerdydd, 1934)
B	<i>Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd</i> , 1921–93
P.C. Bartrum: WG1	<i>Welsh Genealogies AD 300–1400</i> (Cardiff, 1974)
BB	<i>Brut y Brenhinedd</i> , ed. J.J. Parry (Cambridge, Massachusetts, 1937)
BL Add	Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
Bl BGCC	<i>Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar</i> , gol. Marged Haycock (Llandybïe, 1994)
Bl B XIV	<i>Blodeugerdd Barddas o’r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg</i> , gol. Dafydd Johnston (Llandybïe, 1989)
Bren Saes	<i>Brenhinedd y Saesson</i> , ed. Thomas Jones (Cardiff, 1971)
BRh	<i>Breudwyt Ronabwy</i> , gol. Melville Richards (Caerdydd, 1948)
BT	<i>Brut y Tywysogyon Peniarth Ms. 20</i> , gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1941)
ByCy	<i>Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940</i> (Llundain, 1953)
CA	<i>Canu Aneirin</i> , gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)
CAMBM	<i>Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum</i>

Card	Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
Jane Cartwright: ForF	<i>Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod. Agweddau ar Wryfydod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol</i> (Caerdydd, 1999)
T.M. Chotzen: Rech	T.M. Chotzen, <i>Recherches sur la poésie de Dafydd ab Gwilym</i> (Amsterdam, 1927)
CLC ²	<i>Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru</i> , gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
CLIH	<i>Canu Llywarch Hen</i> , gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
CMCS	<i>Cambridge Medieval Celtic Studies</i> , 1981–1993; <i>Cambrian Medieval Celtic Studies</i> , 1993–
CMOC	<i>Canu Maswedd yr Oesoedd Canol</i> , gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1991)
CO ³	<i>Culhwch ac Olwen</i> , gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans (Caerdydd, 1997)
Cy	<i>Y Cymmrodor, The Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion</i> , 1877–1951
Cylchg HC	<i>Cylchgrawn Hanes Cymru</i> , 1960–
CyT	<i>Cyfoeth y Testun. Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol</i> , gol. Iestyn Daniel et al. (Caerdydd, 2003)
Cylchg LIGC	<i>Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru</i> , 1939–
D	<i>Dictionarium Duplex</i> . ed. John Davies (Londinium, 1632)
R.R. Davies: CCC	R.R. Davies, <i>Conquest, Coexistence, and Change: Wales 1063–1415</i> (Oxford and Cardiff, 1987)
DE	<i>Gwaith Dafydd ab Edmwnd</i> , gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
DGG ²	<i>Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr</i> , gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
DGIA	H.M. Edwards, <i>Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues</i> (Oxford, 1996)

- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)
- EL Henry Lewis, *Yr Elfen Ladin yn yr Iaith Gymraeg* (Caerdydd, 1943)
- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966)
- EWSP *Early Welsh Saga Poetry*, ed. Jenny Rowland (Cambridge, 1990)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GBDd *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian M. Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GC *Gwaith Casnodyn*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1999)
- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GCBM ii *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)
- GDC *Gwaith Dafydd y Coed a beirdd eraill o Lyfr Coch Hergest*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2002)
- GDEp *Gwaith Dafydd Epynt*, gol. Owen Thomas (Aberystwyth, 2002)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)

- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- Gen ‘Llyfr Genesis’ yn yr Hen Destament
- GEO *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997)
- GGDT *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Aberystwyth, 1995)
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GGMD i *Gwaith Gruffudd ap Maredudd, i, Canu i Deulu Penmynydd*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2003)
- GGMD ii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd, ii, Canu Crefyddol*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2005)
- GGMD iii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd, iii, Canu Amrywiol*, gol. Ann Parry Owen (i ymddangos)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans *et al.* (Aberystwyth, 1997)
- GIBH *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GIRh *Gwaith Ieuan ap Rhydderch*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2003)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)

- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. Kathleen Anne Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPB *Gwaith Prydydd Breuan, Rhys ap Dafydd ab Einion, Hywel Ystorm, a cherddi dychan dienw o Lyfr Coch Hergest*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2000)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–2002)
- GPC² *Geiriadur Prifysgol Cymru* (ail arg., Caerdydd, 2003–)
- R.A. Griffiths: PW i R.A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- GRhGE *Gwaith Rhys Goch Eryri*, gol. Dylan Foster Evans (i ymddangos)
- GSCyF *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd 'Sypyn Cyfeiliog' a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur*

- Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- GWL ii² *A Guide to Welsh Literature 1282–c. 1550 Volume II*, ed. A.O.H. Jarman and Gwilym Rees Hughes, revised by Dafydd Johnston (Cardiff, 1997)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
- H *Llawysgrif Hendregadredd*, gol. J. Morris-Jones a T.H. Parry-Williams (Caerdydd, 1933)
- HGK *Historia Gruffud vab Kenan*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1977)
- HM ii *History of Merioneth. Volume II The Middle Ages*, ed. J. Beverley Smith and Llinos Beverley Smith (Cardiff, 2001)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- HMSS *Selections from the Hengwrt MSS*, ed. Robert Williams (2 vols., London, 1876, 1892)
- HPF J.Y.W. Lloyd, *The History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog* (6 vols., London, 1881–7)
- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- KAAs² *Kedymdeithas Amlyn ac Amic*, gol. Patricia Williams (Caerdydd, 1982)
- LBS S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- LL *The Text of the Book of Llan Dâv*, ed. J. Gwenogvryn Evans and John Rhÿs (Oxford, 1893)
- J.E. Lloyd: HW³ J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed.; London, 1939)
- LIA *Llyvyr Agkyr Llandewivrevi, A.D. 1346*, ed. J. Morris-Jones and John Rhÿs (Oxford, 1894)

LIB	<i>Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd</i> , gol. S.J. Williams a J.E. Powell (Caerdydd, 1942)
LIC	<i>Llyfr Colan</i> , gol. Dafydd Jenkins (Caerdydd, 1963)
LICy	<i>Llên Cymru</i> , 1950–
LIDC	<i>Llyfr Du Caerfyrddin</i> , gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
LIGC	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
LII	<i>Llyfr Iorwerth</i> , ed. Aled Rhys Wiliam (Cardiff, 1960)
Llst	Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
MA ²	<i>The Myvyrian Archaiology of Wales</i> (second ed.; Denbigh, 1870)
Math	‘Yr Efengyl yn ôl Sant Mathew’ yn y Testament Newydd
MCF	Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (rhoddir y dyddiad y codwyd yr wybodaeth)
ML	<i>The Letters of Lewis, Richard, William and John Morris, 1728–65</i> , ed. J.H. Davies (Aberystwyth, 1907–9)
MM	<i>Meddygon Myddveu</i> , ed. P. Diverres (Paris, 1913)
J. Morris-Jones: CD	John Morris-Jones, <i>Cerdd Dafod</i> (Rhydychen, 1925)
Mos	Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
ODCC ³	<i>The Oxford Dictionary of the Christian Church</i> , ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed. revised, London, 2005)
OED ²	<i>The Oxford English Dictionary</i> (second ed., Oxford 1989)
P	<i>A Welsh and English Dictionary</i> , ed. W. Owen-Pughe (London, 1793–1803)

- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- RB *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. J. Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890)
- M. Richards: ETG Melville Richards, *Enwau Tir a Gwlad*, gol. Bedwyr Lewis Jones (Caernarfon, 1998)
- RM *The Text of the Mabinogion ... from the Red Book of Hergest*, ed. J. Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1887)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910)
- W. Salesbury: KLI William Salesbury, *Kynniver Llith a Ban*, ed. John Fisher (Cardiff, Oxford, 1931)
- SC *Studia Celtica*, 1966–
- T *The Book of Taliesin*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1910)
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- R.L. Thomson: Gereint *Ystorya Gereint uab Erbin*, ed. Robert L. Thomson (Dublin, 1997)
- TLIM G.J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948)
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TW Geiriadur Syr Thomas Wiliems, *Thesaurus Linguae Latinae et Cambrobritannicae* yn Pen 228
- TYP³ *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (third ed., Cardiff, 2006)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)

- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- I. Williams: ELI I. Williams, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, 1945)
- WLI *Barddoniaeth Wiliam Llŷn*, ed. J.C. Morrice (Bangor, 1908)
- WM *The White Book Mabinogion*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Pwllheli, 1907; adargraffiad Caerdydd, 1973)
- WML A.W. Wade-Evans, *Welsh Medieval Law* (Oxford, 1909)
- WVBD O.H. Fynes-Clinton, *The Welsh Vocabulary of the Bangor District* (Oxford, 1913)
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–)
- YCM² *Ystorya de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968)
- YEPWC *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal*, gol. Gruffydd Aled Williams (Caerdydd, 1986)
- YSG *Ystoryaeu Seint Greal*, gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1992)

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	ffig.	ffigurol
adf.	adferf	<i>fl.</i>	<i>floruit</i>
amhff.	amherffaith	Ffr.	Ffrangeg
amhrs.	amheronol	g.	(c.) canrif
anh.	anhysbys	g.	gwrywaidd
ardd.	arddodiad, -iaid	gol.	golygydd, golygwyd
arg.	argraffiad		gan
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	grch.	gorchmynnol
b.	benywaidd	grff.	gorffennol
ba.	berf anghyflawn	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
ban.	bannod	gw.	gweler
be.	berfenw	Gwydd.	Gwyddeleg
bf. (f.)	berf, -au	H.	Hen
bg.	berf gyflawn	h.y.	hynny yw
bg.a.	berf gyflawn ac anghyflawn	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
<i>c.</i>	<i>circa</i>	<i>id.</i>	<i>idem</i>
c. (g.)	canrif	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
C.	Canol	ll.	lluosog; llinell
cf.	cymharer	Llad.	Lladin
cfrt.	gradd gyfartal	llau.	llinellau
cmhr.	gradd gymharol	llsgr.	llawysgrif
col.	colofn, -au	llsgrau.	llawysgrifau
Crn.	Cernyweg, Cernywaidd	Llyd.	Llydaweg
Cym.	Cymraeg	m.	mewnol
cys.	cysylltair, cysylltiad	myn.	mynegol
d.g.	dan y gair	n.	nodyn
dib.	dibynnol	neg.	negydd, -ol
Diw.	diweddar	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
dyf.	dyfodol	pres.	presennol
e.	enw	prs.	person, -ol
eb.	enw benywaidd	pth.	perthynol
e.c.	enw cyffredin	r	<i>recto</i>
ed.	<i>edited by, edition</i>	rh.	rhagenw, -ol
e.e.	er enghraifft	rhgdd.	rhagddodiad
eg.	enw gwrywaidd	S.	Saesneg
e.p.	enw priod	taf.	tafodieithol
elf.	elfen, -nau	td.	tudalen
<i>et al.</i>	<i>et alii</i>	tt.	tudalennau
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	un.	unigol
		v	<i>verso</i>
		vols.	volumes

Rhagymadrodd

Dengys ei enw, ynghyd â thystiolaeth fewnol ei ganu, mai cwmwd Penllyn ym Meirionnydd oedd bro Madog Dwygraig. Ceid trefgordd Dwygraig (Isafon ac Uwchafon) ym mhlwyf Llangywer,¹ ac y mae llecyn yn dwyn yr enw Cefn Dwygraig hyd heddiw uwchlaw Llangywer ar lan Llyn Tegid.² Canodd Madog ddwy farwnad i'w gyfaill o uchelwr, Gruffudd ap Madog o Lechwedd Ystrad yn Llangywer (cerddi 1–2), a brithir ei gerddi â chyfeiriadau at fannau yng nghyffiniau'r ardal honno. Rhydd ddisgrifiad hwyliog o'r daith o'i gartref i lys Morgan ap Dafydd ap Llywelyn yn Ystrad Tywi, y sawl a eilw *fy rhi*—*'Neheubarth*:

Llwybr hardd i brifardd brofi—o Benllyn
Gofyn Rhydodyn, ai rhaid oedi?³

Sonia yn un o'i awdlau dychan am fugeiliaid Meirionnydd,⁴ ac mewn dychangerdd arall fe honna iddo dderbyn llo yn rhodd a anfonwyd iddo *uwch Rhewedog*,⁵ sef Rhiwedog ym mhlwyf Llanfor, lai na thair milltir i'r dwyrain o Dwygraig. Bu cyff ei wawd yn 'Ystoria Ddeicyn' yn dda ei fyd gynt ym mro Asa Sant, a'i dynged bellach yw cardota a lladrata ysgubau *O'r esgobawd yma*,⁶ sef esgobaeth Llanelwy a oedd yn cynnwys Penllyn o fewn ei ffiniau.

Y mae cyfnod blodeuo ei noddwyr⁷ yn gosod Madog yn bendant yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg.⁸ Felly hefyd gyfeiriad ato mewn cywydd dychan o waith Iolo Goch. Meddai Iolo yn ei ddychan i'r Gwyddelyn:

Haws it, leidr cachdraws cochdroeth,
Sychu march Ithel Ddu ddoeth

¹ Gw. WATU 61; HM ii, 720, 725.

² Twm Morys, 'Chwedleu Chwydlyd: Golwg ar Ganu Dychan Llyfr Coch Hergest', *Barddas*, 135–7 (Gorffennaf/Awst/Medi 1988), 33.

³ 3.65–6.

⁴ 9.69. Efallai fod yn y gerdd hon hefyd gyfeiriad at Drawsgoed yn Llanuwchllyn, gw. 9.62n.

⁵ 10.8.

⁶ 14.30.

⁷ Gw. nodyn cefndir cerddi 1, 3 a 4.

⁸ *Fl. c.* 1370 yn ôl ByCy 573, cf. GMW xxviii; 1400 yn ôl y rhestr o feirdd a'u dyddiadau a geir ar ddiwedd geiriadur John Davies, Mallwyd (D); *c.* 1360–80 yn ôl Bl B XIV 8. Rhy gynnar yw'r cyfnod 1290–1340 a gynigir gan olygyddion y *Myvyrian Archaeology*, MA² xi; felly hefyd 1300–1370 yn *Cymru, yn hanesyddol, parthedegol, a bywygraphyddol*, gol. Owen Jones ('Meudwy Môn') (Llundain, 1875), 231.

A bwrw allan, sach gwlan gwlad,
 Ei ebofn, taeg abad,
 Gorchest fawr, nag ymgyrchu
 Ag ef, da goddef y Du,
 Neu â Madog, serchog syw,
 Dwygraig, gŵr dyledogryw ...⁹

Awgryma'r ansoddair *dyledogryw* fod Madog, fel Ithel Ddu o Lŷn efallai,¹⁰ o dras fonheddig, ac y mae'n eglur eu bod hwy ac Iolo Goch yn eneidiau barddol hoff cytŷn. Â Iolo rhagddo:

Nid synnwyr ffôl wrth ddolef,
 Nid clêr lliw'r tryser llawr tref,
 Nid beirdd y blawd, brawd heb rym,
 Profedig feirdd prif ydym.¹¹

Fel y gwelwyd, y mae Madog yn ei alw'i hun yn brifardd o Benllyn yn ei awdl foliant i Forgan ap Dafydd o Rydodyn, a dichon fod hynny'n fwy na gormodiaith gonfensiynol. Yr unig dystiolaeth gyfoes y gwyddys amdani y tu allan i'r farddoniaeth yw cyfeiriadau at fab tebygol iddo, Hywel ap Madog Dwygraig, mewn achosion llys yn Rhuthun a Dogfeiling yn Nyffryn Clwyd yn y blynyddoedd 1394, 1396 a 1397.¹²

Oni bai am Llyfr Coch Hergest ni fyddai dim o'i waith wedi ei gadw inni, gan mai dyna ffynhonnell wreiddiol pob copi o'r ddwy gerdd ar bymtheg a briodolir iddo. Ar destun y Llyfr Coch y seiliwyd y golygiad hwn, gan sylwi yn y nodiadau testunol ar ambell ddiwygiad neu wahaniaeth arwyddocaol mewn copïau diweddarach, megis eiddo John Davies, Mallwyd yn llawysgrif LIGC 4973B. Gan i gorff y Llyfr Coch gael ei lunio rhwng 1382 (blwyddyn derfynol Brut y Saeson) a marw comisiynydd y llawysgrif, Hopgyn ap Tomas o Ynysforan, rywdro ar ôl 1403,¹³ rhaid mai byr oedd cyfnod trosglwyddo cerddi Madog Dwygraig. Ceir pob un ond tair o'r cerddi gyda'i gilydd yn llaw Hywel Fychan, prif gopïydd a phensaer y llyfr, yng ngholofnau 1267–80. Cofnodwyd awdl Madog i Hopgyn ap Tomas ei hun (cerdd 4) yn yr un llaw yng ngholofnau 1310–11 yn un o nifer o awdlau i Hopgyn ac un i'w fab Tomas,¹⁴ awdlau sy'n ffurfio haenen ddiweddar yng ngwneuthuriad y llawysgrif.¹⁵ Erys dwy gerdd ddychan, y naill (cerdd 12) yng ngholofn 1359 wedi ei hychwanegu mewn llaw wahanol mewn gofod a

⁹ GIG 167 (XXXVII. 41–8).

¹⁰ Arno, gw. GGrG 143–55.

¹¹ GIG 167 (XXXVII.51–4).

¹² PRO SC2/220/9, m. 28 a 28d; 221/1, mm. 22, 22d a 23. Yr wyf yn ddiolchgar i Oliver Padel am yr wybodaeth hon.

¹³ Daniel Huws, 'Llyfr Coch Hergest', yn CyT 1–2.

¹⁴ GLIG cerdd 6; GDC cerddi 3, 12, 13 a 14.

¹⁵ Daniel Huws, *art.cit.* 23.

adawyd yn wyn gan Hywel Fychan,¹⁶ a'r llall (cerdd 17) mewn llaw wahanol eto.¹⁷

Diau mai'r cysylltiad â Hopgyn ap Tomas sy'n esbonio pahan y mae cynifer o gerddi Madog Dwygraig wedi eu diogelu yn Llyfr Coch Hergest, gan gynnwys cyfran anarferol o uchel o gerddi dychan (naw o blith dwy ar bymtheg o gerddi). Oherwydd ei hoffter o ddychan a maswedd fe'i hystyrwyd gan rai yn fardd eilradd a'i osod, ynghyd â rhai o ddychanwyr eraill y Llyfr Coch, fel Hywel Ystorm,¹⁸ yn yr un cwch â'r glêr ofer ddirmygedig. Sonia Chotzen, er enghraifft, am y 'terminologie ordurière dans les satires du *clerwr* Madog Dwygraig'.¹⁹ Yn ôl Saunders Lewis, blinai llawer o uchelwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg ar 'hualau'r canu dysgedig a swyddogol':

Os caeodd Einion Offeiriad ddychan allan o fyd barddoniaeth, agorodd Madog Dwygraig y drws iddi led y pen, a throes ef arddull y pen-ceirddiaid yn gyfrwng serthedd o egni a digrifwch a gormodaeth sy'n union yn yr un ysbryd â'r cerfiadau anferth a geir ar golofnau eglwys Vezelay neu ar dalcen Llan Fair yn Dijon.²⁰

Nid oes dwywaith nad yw diddanwch a serthedd yn flaenllaw ym marddoniaeth Madog, ond y gwir amdani yw fod amrywiaeth ei ganu yn cwmpasu prif *genres* ei gyfnod, ac eithrio'r canu serch:²¹ mawl a marwnad defodol; canu crefyddol ffurfiol a chyffesol bersonol; a dychan bras sy'n cynnwys cryn dipyn o ganu storïol ei natur.²²

Yn ei ddwy alargan i Ruffudd ap Madog o Lechwedd Ystrad (cerddi 1–2), dengys Madog ei feistrolaeth lwyr ar nodweddion y farwnad. Coffeir milwriaeth Gruffudd ac yn enwedig ei nawdd digrintach i Fadog ac i'w gydfeirdd, a chyda'r math o ormodiaith sy'n nodweddu'r *genre*—honnir bod llefain ar ei ôl o fro Tawe i Lyn Llumonwy (Loch Lomond) yn yr Hen Ogledd—llwyddir i greu argraff o amddifadrwydd syfrdan. Yn yr ail farwnad fe ddygir i gof gyda chryn nerth rhethregol gladdedigaeth Gruffudd yn Abaty Glyn Egwestl, a'i arfau yn y golwg yn unol ag arfer yr oes. Nawdd i brydyddion yw thema ganolog yr awdl foliant i Forgan ap Dafydd ap

¹⁶ *Ib.* 22: 'Yn niffyg unrhyw dystiolaeth gadarn fod Llaw C wedi gweithio ochr yn ochr â Hywel, haws cymryd ei fod yn rhyw etifedd iddo ac mai i Law C yr ymddiriedwyd y gwaith o gyflawni cynllun Hywel gan Hopcyn ap Tomas wedi i Hywel, am ryw reswm neu'i gilydd, ei adael.'

¹⁷ *Ib.* 7, 12.

¹⁸ Gw. GPB 61–86.

¹⁹ T.M. Chotzen: Rech 280; cf. Meirion Pennar, 'Dryll o Dystiolaeth am y Glêr', B xxviii (1978–80), 410n; *id.*, 'Teuluath a Maswedd', YB xvi (1990), 52–3.

²⁰ Saunders Lewis, *Braslyn o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Llandysul, 1932), 72–3.

²¹ Y mae disgrifiad Iolo Goch ohono fel *serchog syw* yn y cywydd a ddyfynnwyd uchod yn codi'r posibilrwydd fod cerddi serch o'i eiddo wedi diflannu, fel yn achos Ithel Ddu yntau (gw. GGrG 144). Dengys Madog ei feistrolaeth ar iaith a delweddaeth y rhieingerdd yn ei fawl i Leucu wraig Morgan ap Dafydd o Rydodyn, 3.79–90.

²² Am arolwg cryno a chytbwys o ganu Madog Dwygraig, gw. Gruffydd Aled Williams, 'The Literary Tradition to c. 1560', yn HM ii, 552–5.

Llywelyn o Rydodyn (cerdd 3) hefyd. Fel cynifer o feirdd o'i flaen pwysleisia Madog y gyd-ddibyniaeth glòs rhwng bardd a noddwr, ond mwy annisgwyl yw'r cyffyrddiad o agosatrwydd personol wrth iddo ddisgrifio'r daith o Benllyn i Ystrad Tywi, ac yntau'n dilyn ôl y beirdd *Heb fyneigiaid ffyrdd, heb fynegi*, ac yn *Llamsach Deheubarth yn ŵr llimsi*.²³ Dyma'r math o anffurfioldeb storïol a chymharol anhraddodiadol sydd mor gyffredin yn ei ganu dychan. Fel awdlau eraill y Llyfr Coch i'r un gwrthrych, hynodir yr awdl i Hopgyn ap Tomas (cerdd 4) gan werthfawrogiad o'i warineb a'i ddysg ddihafal. Perthyn yr englynion a'r awdl i Grist (cerddi 5–6) i brif ffrwd canu crefyddol y cyfnod. Y mae'r mynegiant yn lân ac uniongyrchol, ac amlygir yng ngherdd 6 ymdeimlad dwys â bychander sylfaenol dyn ar y ddaear hon, a hynny mewn cywair sy'n edrych ymlaen at ganu Siôn Cent. Confensiynol hefyd, i raddau, yw'r ddwy awdl benydiol (cerddi 7–8), ond y mae'r ail yn neilltuol o ddiddorol gan fod Madog, fel Llywelyn Goch ap Meurig Hen, yn cyffesu ei bechodau fel bardd. Egyr y gerdd:

Arweddais faswedd o'm gwedd a'm gwawd,
Orwacter llawer, lliwiant ceudawd ...

a dyma ddeisyfiad y pennill clo:

Cwbl drosi buchedd dros bechawd—prydydd,
Caffwyf gerennydd cyn brwydrddydd Brawd.²⁴

P'un a ddaeth Madog mewn gwirionedd i ystyried ei brydyddiaeth yn bechadurus ai peidio, y mae'n weddol sicr mai cerddi dychan o'r math a ddiogelwyd yn Llyfr Coch Hergest oedd ym mlaen ei feddwl pan luniodd y llinellau hynny. Os yw'n feistr ar yr awdl fawl a'r canu defosiynol, y mae'n feistr corn ar wyrdroi delfrydau dyrchafedig y prif draddodiad at ddiben dychan.²⁵ Yng ngherddi 9–17 try eithafrwydd cadarnhaol y canu mawl yn eithafrwydd negyddol, ond achubir llawer o'r canu rhag y math o undonedd morthwyliog a all nodweddu'r *genre* gan y defnydd o hiwmor a pharodi, ac yn fwyaf arbennig gan elfen storïol gref. Y nodwedd hon yn anad yr un arall sy'n dangos mor barod oedd Madog Dwygraig i beri ymestyn ffiniau'r traddodiad, o bosibl dan ddylanwad y cywydd newydd a ffrwd islenyddol o ganu'r glêr. Yr hyn a geir yn yr awdl faith i Faald ferch Ddafydd (cerdd 9)

²³ 3.63–74.

²⁴ 8.1–2, 39–40 a gw. y nodyn cefndir.

²⁵ Am ymdriniaethau â chanu dychan Madog Dwygraig a rhai o feirdd eraill y 14g., gw. Huw M. Edwards, 'Cnwd Iach y Canu Dychan', *Barddas*, 274 (Medi/Hydref/Tachwedd 2003), 6–11; DGIA pennod 2, 38–66; Dylan Foster Evans, *Goganwr am Gig Ynyd: The Poet as Satirist in Medieval Wales* (Aberystwyth, 1996). Dywed D. Myrddin Lloyd am Fadog Dwygraig, *GWL* ii², 42: 'He revels in horrible descriptions of disease, such as leprosy, bodily filth and deformity, and reaches the depths of cruel insensitivity in his account of an unfortunate "hag". His descriptions, however, are powerful, and occasionally relieved by touches of humour.'

yw cofnod dramatig o'r modd yr aeth y ferch hon ati i ysbeilio afallen y bardd a dwyn ei holl afalau. Ceir yma ddychan gwrthfenywaidd anllad, fel petai Madog yn tynnu'n fwriadol groes i felyster y canu serch. Mwy hynod fyth yw fod y gerdd ar ei hyd yn barodi anghydawns o'r gerdd 'Afallennau Myrddin' o Lyfr Du Caerfyrddin,²⁶ a rydd gyfle i Fadog arddangos ei ddysg farddol fel y gwna drwodd a thro yng nghyfeiriadaeth ei awdlau mawl a marwnad, ac mewn amryw o'i gerddi dychan eraill o ran hynny. Pwnc anghyffredin cerdd 10 yw llo diwerth a roddwyd yn anrheg i'r bardd, a'i ymdrechion seithug yntau i gael gwared ohono. Y mae modd darllen y gerdd hon eto fel parodi, y tro hwn ar *genre* y canu gofyn a diolch. Y mae'r elfen naratif yr un mor amlwg yn y gerdd sy'n dwyn y teitl ffugfawreddog 'Ystoria Ddeicyn' (cerdd 14), cerdd am gardotyn sy'n fath o foeswers ddychanol am beryglon balchder yn y byd hwn.

Yn y modd y pentyrrir y naill ddelwedd weledol grotésg ar ben y llall, y mae'r awdl ddychan i'r gwëydd (cerdd 11)—sydd hefyd, fe ymddengys, yn rhyw lun ar glerwr, *Crwydrwr, goganwr am gig Ynyd*²⁷—yn fwy nodweddiadol o drwch canu dychan y Llyfr Coch. Felly hefyd gerdd 12, awdl orchestol ar yr odl anaddawol *-ill*, a'r englynion gorchestol i'r wrach (cerdd 15) lle yr ailadroddir y gair amhersain hwnnw gynifer â deugain a phump o weithiau. Ymddengys mai bychanu noddwr digroeso a wneir yng ngerdd 16, ac yn gyson â llawer o ddychan yr Oesoedd Canol, beirdd eraill sydd dan y lach yn rhai o gerddi Madog. Dychan i brydydd, yn sicr, yw'r englynion i Dudur (rhif 17), a gall hynny fod yn wir yn ogystal am yr englynion dychan i fab y gof (rhif 13) a bortreedir fel gwahanglaf truenus. Bu i'r creadur hwnnw amharchu Madog â'i gelwydd amdano, sy'n awgrymu y gall y gerdd hon a'r cerddi eraill i feirdd ddwyn perthynas â defod y 'cyff clêr', a olygai fod beirdd yn difrio'i gilydd er difyrrwch i'w cynulleidfa drwy gyfrwng dychan celwydd golau, a hynny'n aml ar fesur yr englyn. Dywed Iolo Goch, fel y gwelwyd, mai anodd fuasai i'r Gwyddelyn *ymgyrchu* â Madog neu ag Ithel Ddu, gan godi cwr y llen ar gyd-destun ymrysongar tebygol peth o ganu dychan y Llyfr Coch.

Y mae mydryddiaeth Madog Dwygraig yr un mor amrywiol â'i destunau.²⁸ Fel y disgwyliid gan un a oedd, yn ôl Iolo Goch, yn brifardd profedig, dengys Madog gryn feistrolaeth ar fesurau'r awdl a'r englyn. Ceir ganddo ddeg o fesurau i gyd: englyn unodl union, englyn proest, englyn proest chwe llinell, gwawdodyn, toddaid, byr a thoddaid, rhupunt, cyhydedd nawban, cyhydedd fer a chyhydedd hir. Y mae'n drawiadol iddo ganu pump o'i gerddi dychan ar fesur cymharol syml yr englyn (rhifau 13–17), ond at ei gilydd y mae mydryddiaeth ei ganu dychan yr un mor soffistigedig â'r hyn a geir yn ei ganu mawl a'i ganu crefyddol. Ceir cynifer â saith mesur

²⁶ Gw. nodyn cefndir a nodiadau testunol cerdd 9.

²⁷ 11.18.

²⁸ Ymdrinnir yn fanylach â'r fydryddiaeth a'r gynghanedd yn nodyn cefndir pob cerdd.

gwahanol yn yr awdl ddychan i'r lleidr afalau, Maald ferch Ddafydd (cerdd 9), un ar gyfer pob caniad. Un o'i hoff fesurau ar wahân i'r englyn yw'r toddaid: ar y mesur hwnnw yn unig y canodd un o'r marwnadau i Ruffudd ap Madog (rhif 2), yr awdl i Hoggyn ap Tomas (cerdd 4), ac un o'r cerddi dychan (cerdd 12). Y mae Madog yn gynganeddwr praff²⁹ a nodweddiadol o'i gyfnod. Fel y disgwyliid, ceir ganddo gyfran uchel o gynghanedd sain ac amryw o gynganeddion pengoll a braidd gyffwrdd. Nodweddd ar ei gynganeddion sain yw eu cyfatebiaeth gytseinol gref, yn enwedig yn llinellau hirion rhai o fesurau'r awdl. Yn debyg i brifeirdd eraill ei gyfnod hefyd, y mae'n feistr ar gynnal cymeriad llythrennol a chynganeddol cywrain.

Y mae un o fesurau poblogaidd y bedwaredd ganrif ar ddeg nas ceir yng nghanu Madog Dwygraig, a'r mesur hwnnw yw'r cywydd. Nid annisgwyl hynny, gan na chofnodwyd ond un cywydd o'r cyfnod yn Llyfr Coch Hergest, a hwnnw'n gywydd merch go ffurfiol o waith Iolo Goch.³⁰ (Os oedd chwaeth Hoggyn ap Tomas yn angheidwadol o ran cynnwys prydyddiaeth—fel yr awgryma'r detholiad pwysig o ganu dychan—nid felly ei chwaeth fydryddol.) Gellir yn hawdd ddychmygu Madog yn troi ei law at y mesur newydd³¹ gan fod ysgafnder cellweirus ei ganu, rhwyddineb ei ymadroddi a'i duedd at naratif yn debyg ar lawer cyfrif i anffurfioldeb bwriadol y cywyddwyr cynnar. Y mae ei gyfeillgarwch ag Iolo Goch ac Ithel Ddu o Lŷn yn awgrymog ynddo'i hun, y naill yn un o brif arloeswyr y cywydd a'r llall yn awdur y gerdd storiol ddigri, 'Cywydd y Celffaint',³² yr unig un o'i gerddi sydd wedi goroesi, gwaetha'r modd. Cofier hefyd fod un o noddwyr Madog, Morgan ap Dafydd o Rydodyn, yn llysfrawd i Ifor Hael,³³ gŵr y bu iddo ran mor allweddol yn natblygiad y mesur newydd. A dichon i Rydodyn yng nghwmwd Caoe fod yn un o gyrchfannau Iolo Goch ar ei daith glera, o gofio mai *Gwell Caew na naw o nef* yn ôl cywydd 'Ymddiddan yr Enaid â'r Corff'.³⁴ Y mae'n go sicr y buasai croeso i gywyddau yn neuadd Rhydodyn. Wedi'r cyfan, y Morgan ap Dafydd hwn yw gwrthrych 'Cywydd y Cwest' gan Ruffudd Llwyd,³⁵ lle yr enwir deuddeg o feirdd cyfoes ac yn eu plith gywyddwyr adnabyddus megis Llywelyn Goch ap Meurig Hen, Sypyn Cyfeiliog, Gruffudd Llwyd ei hun, a rhyw Owain ap Dafydd, *saer cywydd cain*. Yn rhyfedd ddigon, nid oes sôn am un o feirdd amlycaf y cyfnod, sef Iolo Goch, nac ychwaith, o ran hynny,

²⁹ Ceir ambell enghraifft annisgwyl, fodd bynnag, o'r bai 'camosodiad' sy'n twyllo'r glust, gw. 1.33n.

³⁰ R 1407–8; GIG XXIV.

³¹ Ceir awgrym tebyg gan Gruffydd Aled Williams, *art.cit.* 552.

³² GGrG cerdd 9.

³³ Gw. E.R.Ll. Davies ac E. Edwards, 'Teulu Ifor Hael a'r traddodiad nawdd', YB xii (1982), 143–4.

³⁴ GIG 65 (XIV.56); cf. E.R.Ll. Davies ac E. Edwards, *art.cit.* 145.

³⁵ GGLI cerdd 10; gw. nodyn cefndir cerdd 3 isod.

am Fadog Dwygraig. Nid yw enw Madog i'w weld ychwaith—yn wahanol i Iolo Goch ac Ithel Ddu—ymhlith cywyddwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg a fydd yn croesawu Llywelyn ab y Moel i baradwys, yn ôl y farwnad iddo a luniwyd gan Rys Goch Eryri.³⁶ P'un a yw Madog yn gywyddwr coll ai peidio, y mae'r awdlau a'r englynion o'i eiddo a ddiogelwyd yn Llyfr Coch Hergest yn dystiolaeth drawiadol o amrywiaeth barddoniaeth Gymraeg yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg.

³⁶ GRhGE 10.43–62; gw. GGrG 143–4.

1

Marwnad Gruffudd ap Madog ab Iorwerth o Lechwedd Ystrad

- Gwlad y'n trig trawsddig llwrw treisddwyn—Gruffudd,
 Dogn arlludd, dygn orllwyn,
 4 Gŵr o ddeddf gŵraidd addwyn,
 Gwŷr o dir Cynyr a'i cwyn.
- Cwynwn, fyd i gyd, am gydwedd—Mordaf,
 Cun dewredd araf, deuryw fawredd;
 Cynefin fy min â medd—ar ancwyn
 8 Cyn dwyn bwrdd amwyn beirdd ddiomedd.
 Cadr Ruffudd drawsfudd drosedd,—diofnog,
 Cadarn fab Madog rifiog reuffedd;
 12 Ced ddileddf gynneddf ac annedd—ddidranc,
 Cynnif unfodd Ffranc cyn no'i faenfedd.
 Yn nheirlyys y gwŷs, gwaig ddygnedd,—nad byw
 Llun teŷrnaidd lyw llin teŷrnedd;
 16 Balch y beirdd, bobl heirdd, harddedd—huysgwr,
 Brŷn hynaddwalch, gŵr brenhineiddwedd.
 Yn Nhrefgoed y'n rhoed anrhydedd—digeirdd,
 Ym a'i firain feirdd am oferedd;
 20 Yn gynt no'r lluchwynt dir Llechwedd—Ystrad
 Dofai ugeinwlad, difai ganwledd.
 Taleithlys emys diomedd—teulu,
 Tylwythlu a fu o fywn berthedd;
 24 Taladwy arlwy eurwledd—gan eryr
 I bellenigwyr, Bwyll un agwedd.
 Telid gwawd tafawd, etifedd—deddfawl,
 Can ei gorff oesfawl cyn gorffwysfedd;
 28 Talaf i'm eurnaf marwnawd, gwynwedd—trais,
 Am bwyth a gefais byth o'i gyfedd.
 Ni bu law dreisiaw, lew drosedd—ymlaen,
 Ni ragorai chwaen o'r rhyw garedd;
 32 Ni bu dlawd ym mrawd drwy gymrodedd—wir,
 Nac enwir dihir hyd dydd dyhedd.
 Nid anghyfunai dangnefedd—ffrwythlawn,
 Ni rusiai gamawn, hirddawn harddedd;
 36 Ni bu wan anian, annedd—a tholo,
 Hyd tra fu yno, hytraf fonedd.

O'i gyngor, tros fôr traws fawredd—cyrchid,
 Y cawn yn rhydid can anrhydedd;
 O'i gynrain mirain aml mawredd—yn llaw,
 40 Ogystal anaw o'i gystlynedd.
 O'i lyn cawn, Ferfyn fawrfalch, cledd—Gwyndyd,
 O'i ddrillad bûm clyd hyd hydr ddiwedd;
 O'i law bu anaw buanedd—llif nant,
 44 O'i blant, un i gant, yn ei gyntedd.
 Cymen ail Morien, elw mawredd—ateb,
 Nid âi ddoethineb, ni ddoeth Wynedd;
 Cymanfawr eurwawr, arwedd—i'r dangnef,
 48 Eurlwy werin nef, ar laweredd.
 Cymer Di, Duw Tri trugaredd,—atad
 Lyw Lechwedd Ystrad i'th wlad a'th wledd.

Main a gudd deurudd, trom fu'n dirwy,
 52 Munerfab Madog, rieddog rwy;
 Mywn arfau gorau oedd ail Garwy,
 Mywn aerfa bu dda i ddwyn saffwy;
 Manerfawr eurlawr aml ei arlwy,
 56 Mynorfedd diwedd, cwyn bro Dawy;
 Mywn erfid ei lid oedd daladwy,
 Mae'n oerfar i gâr mawr alar mwy.
 Llefir er Deifdir amgylch Dyfrdwy,
 60 Llafuredig fydd llef ar adwy;
 Llwy'r y'n gwnaeth Dofydd hirddefnydd hwy,
 Lladd i gennym ail llyw Ddegannwy;
 Llëyn ddwyn o'n cwyn am du Conwy,
 64 Llaur Môn ac Arfon, gorf aur gyfrwy;
 Llin haelion doethion gwlad Ddindaethwy
 Llefant hyd Brydyn Llyn Llumonwy;
 Llëyn a'i cwynyn' dros dwfr Cawnwy,
 68 Lluoedd a'i gogylch hyd am gylch Gwy.
 Rhy anniben wyf, ail Rhonabwy,
 Rhyw freuddwydydd moel, coel celadwy;
 Rhywelais Ruffudd, ryffyrf ardwy,
 72 Rhi llwyr i'm meddwi is llawr Mawddwy;
 Rhywelais cyn cwyn, yrddwyn orddwy,
 Rhyw haelion hoywon Hywel Gronwy,
 Dewr gadarn Ruffudd ar dir Gadwy,
 76 Dogn o freuddwyd yw, llyw llaw fodrwy.
 Nef a'i rho Culwydd, ebrwydd obrwy,
 Naw alar ym yw na welir mwy.

80 Mwy rhan difa'r gran â dwfr grudd—drosto
 Gan dristyd a'i cystudd
 No dwfr dros draeth, ni faeth fudd,
 Nawd am oreuffawd Ruffudd.

84 Gruffudd cyn maengudd o fywn main gyr—llan,
 Dan rwym llen crefyddwyr,
 Oedd enw mawr a gwawr y gwŷr
 Ac wyneb dros wlad Gynyr.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 209^v B—Card 4.140, 615 C—J 111, 1267 D—LIGC 4973B, 299^v E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 14^v F—Llst 147, 153 (*o'r cefn*) G—Pen 118, 206

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau'r llawysgrif

5 gy6ed. 6 ardeury6. 16 hynawalch. 50 lochwed. *Yn dilyn y ll. ceir* AmeN a *phriodoliad i Mada6c dwygreic cyn y ll. nesaf.* 54 m6yn. 58 m6. 73 yrd dwyn erdwy. 74 goron6y. 75 gadw. 77 Naf. 79 ady6for. 81 dy6for. *Yn dilyn ll.* 86 ailadroddir llinellau 1–4 gyda'r amrywiad Gwlat yn tric tra6sdwyn.

Teitl

llyma gerd mada6c d6y greic.

Marwnad Gruffudd ap Madog ab Iorwerth o Lechwedd Ystrad

Gwlad lle yr erys dicter garw inni oblegid dwyn Gruffudd drwy drais,

Dogn o rwystr, cipiad dygn,

Gŵr o natur wrol, addfwyn,

4 Y mae gŵr o dir Cynyr yn galaru amdano.

Galarwn, y byd i gyd, am gymar Mordaf,

Pennaeth tirion ei wychder a'i fawredd yn ddeublyg;

Cynefin oedd fy min â medd mewn gwledd

8 Cyn dwyn bwrdd cynhaliol diwarafun i feirdd.

Gruffudd nerthol, eofn yr oedd ei ragoriaeth yn fendith rymus,

Mab cadarn Madog, helaeth ei olud;

Anrheg[wr] triw ei anian ac anfarwol ei drigfan,

12 Brwydr, yn yr un modd, [â'r] Ffrancwr cyn ei fedd o garreg.

Mewn tri llys y mae'n hysbys (cyfyngder sydyn) nad byw

Yw ffurf arweinydd brenhinaidd o dras brenhinoedd;

Balch oedd y beirdd, bobl hardd, harddwch cydnerth,

16 Llid gwalch yn naddu [gelyn], gŵr brenhinol yr olwg.

Yn Nhrefgoed rhoddwyd inni anrhydedd rhai gwych,

I mi a'i feirdd mirain am oferedd;

Yn gynt na'r hyrddwynt ar dir Llechwedd Ystrad

20 Darostyngai ugain o froydd, can gwledd ddi-fai.

Llys talaith [lle y mae] meirch diwarafun teulu,

Gosgordd a fu mewn ysblander;

Perffaith oedd arlwy gwledd wych gan eryr

24 I ymwelwyr o bell, rhai tebyg i Bwyll.

Haeddwyd cerdd dafod, etifedd cyfreithlon,

Gan ei gorff tragwyddol ei fawl cyn gorffwysfedd;

Talaf i'm harglwydd gwych farwnad, gwynfan trais,

28 Am rodd a gefais byth o'i wledd.

Ni ddygodd drais â'i law, glew ei ragoriaeth ar flaen y gad,

Ni ragorai un tro o ran y cyfryw gamwedd;

Ni fu'n dlawd ei ddedfryd drwy gymod gwir,

32 Nac yn anfad-ddyn dybryd hyd ddydd cyni.

Ni ddrylliai dangnefedd llesol,

Nid ofnai frwydr, harddwch maith ei ddawn;

Ni bu'n wan ei anian, [yn ei] drigfan nac yn nhwrw [?brwydr],

36 Tra bu ef yno, fonedd dewraf.

Drwy ei gyfarwyddyd ef, dros fôr ceisid ysblander cadarn,

Y cawn mewn rhyddid gant o anrhydeddau;

I'w filwyr mirain helaeth oedd ysblander yn eu llaw,

- 40 [A] chystal cyfoeth i'w garenydd.
Cawn o'i ddiod, Ferfyn fawr a balch, cledd Gwynedd,
Oherwydd ei ddillad bûm yn glyd hyd [ei] ddiwedd glew;
O'i law bu cyfoeth mor gyflym â nant lifeiriol,
- 44 I'w blant, un i gant, yn ei gyntedd.
Un doeth tebyg i Forien, a'i ateb [yn dwyn] budd mawredd,
Ni ellid disgwyl i[r fath] ddoethineb ddod i Wynedd ac ni ddaeth
[erioed];
Arwr gwych, mawr ei lu, arwain ef i'r dangnefedd,
- 48 Liaws nefol gwych ei arglwydd, mewn digonedd.
Cymer Di, Dduw Tri trugaredd, atat
Arglwydd Llechwedd Ystrad i'th wlad a'th wledd.
- Y mae gro yn cuddio wyneb (trwm fu'n colled)
- 52 Mab pendefigaidd Madog, arglwydd urddasol;
Mewn rhyfelwisg yr un tebyg i Arwy oedd y gorau,
Mewn brwydr bu'n un da i ddwyn gwaywffon;
[Un a chanddo] faenor fawr â llawr euraid, [un] aml ei wledd,
- 56 Bedd olaf o farmor, y mae bro Tawe'n galaru;
Mewn brwydr yr oedd ei ffyrnigrwydd yn werthfawr,
Y mae galar mawr yn destun gofid digalon i'w gyfaill mwyach.
Llefir o achos Lloegr o amgylch Dyfrdwy,
- 60 Blin fydd llef mewn bwlch;
Yn llwyr y creodd Duw inni ddefnydd [myfyrdod] maith, hwy [ei
barhad],
Dwyn oddi wrthym un tebyg i arglwydd Degannwy;
Dwyn Llŷn oherwydd ein galar oddeutu glan Conwy,
- 64 Daear Môn ac Arfon, cynheiliad euraid ei gyfrwy;
Y mae hil boneddigion doeth gwlad Dindaethwy
Yn llefain hyd yr Alban [a] Llyn Llumonwy;
Y mae pobl Llŷn yn galaru amdano dros ddŵr Cawnwy,
- 68 Y mae lluoedd yn ei amgylchynu hyd oror Gwy.
Hwyrfrydig iawn ydwyf, tebyg i Ronabwy,
Rhyw freuddwydiwr llwm, argoel ddirgel;
Gwelais Ruffudd, nawdd diysgog,
- 72 Arglwydd yn fy meddwi'n llwyr islaw ardal Mawddwy;
Gwelais cyn cwyn (gormes dygiad grymus)
Hil boneddigion gwych Hywel Gronwy,
Ruffudd ddewr a chadarn ar dir Gadwy,
- 76 Cyfran o freuddwyd ydyw, arglwydd modrwyog ei law.
Boed i'r Arglwydd Dduw roddi nef iddo, gwobr ddi-oed,
Galar nawdyblyg i mi yw na welir mohono mwyach.

80 Dogn fwy yw difa'r wyneb â dŵr grudd drosto
Gan dristwch sy'n ei flino
Na dŵr dros draeth, ni fagodd les,
Cyffredin [yw hynny] oblegid Gruffudd ragoraf ei lwyddiant.

84 Yr oedd Gruffudd cyn ei gladdu dan faen mewn gro gerllaw eglwys,
Dan rwym elorlen crefyddwyr,
Yn fawr ei fri, yn arglwydd y gwŷr
Ac anrhydedd dros wlad Cynyr.

Marwnad Gruffudd ap Madog ab Iorwerth o Lechwedd Ystrad

- Gwedy Gruffudd, Nudd yn nydd gwrthgroch—trin,
 Gwnâi o Eingl gwaedlin, pergin purgoch,
 4 Py gadarn hoywfarn, hyfoch—o Benllyn
 A gystwy ellmyn hyd Gastellmoch?
 Byth weithan, hoedran ehudroch—erom,
 Beth o daw atom lynes drom droch?
 Pwy â glaif a saif, o lan Soch—yn gadr,
 8 A geidw â'i baladr hyd Goed Beloch,
 Gwedy yng Nglyn Egwestl, gwydn och—gyfarwydd,
 A llif am arglwydd a llef mawrgloch,
 Gwelygyrdd trimyrdd, tromoch—o'r golled,
 12 Gweled ei darged a'i lafn durgoch?
 Pob hynaif, pencerdd, pawb honoch—am ged,
 Cwyned ei golled cynta' galloch;
 Bedfai fyw fy llyw, llafn oerfeloch—Sais,
 16 Byddai annifflais byddin offloch,
 A mach ar gamawn a moch—wrth gastell
 A fflamygau pell a fflam ogoch,
 A gwasgwin agwrdd gwas gwineugoch—coeth,
 20 Llawreg arwyddgoeth, llurig ruddgoch.
 Chwithau y seiniau, synioch—am dangnef,
 Dŷ aur bennaeth nef yd erbynnoch,
 Er rhengi bodd Duw y rhyngoch—y bydd,
 24 Rhydd cyn nawfetydd, i nef atoch.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 215^r B—Card 4.140, 630 C—J 111, 1277 D—LIGC 4973B, 309^r E—Llst 147, 167 (*o'r cefn*) F—Pen 118, 214

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau'r llawysgrif

2 purgin. 3 hyvoch bennllyn. 4 ac ystôy. 5 weithon hoetron. 6 adaó. 13 ohonoch. 20 durgoch.

Teitl

Madaóc dwygreic heuyt.

Marwnad Gruffudd ap Madog ab Iorwerth o Lechwedd Ystrad

- Wedi Gruffudd, Nudd yn nydd garw brwydr,
 Gwnâi laddfa waedlyd o Eingl, pennaeth gwaetgoch,
 Pa wŷr cadarn, gwych ei farn a chwim, o Benllyn
- 4 A fydd yn bwrw estroniaid hyd Gastellmoch?
 Byth o hyn allan ([y mae] gofid gwaedd ynfyd o'n hachos)
 Beth os daw atom lynges drom ysgeler?
 Pwy â phicell a saif yn gadarn,
- 8 A fydd yn gwarchod â'i wayw o lan Soch hyd Goed Beloch,
 Wedi gweld yng Nglyn Egwestl—ochenaïd dost gyfarwydd,
 A dylif [dagrau] am arglwydd, a llef cloch fawr,
 Tylwythau trimyrdd, och drom o'r golled—
- 12 Ei darian a'i lafn durgoch?
 Pob pennaeth, pencerdd, pawb ohonoch am rodd,
 Cwyned ei golled gynta' galloch;
 Pe bai fy arglwydd yn fyw, llafn [a barai] ochenaïd ddygn i Sais,
- 16 Byddai byddin luosog yn anniogel,
 A mach ar frwydr a moch wrth gastell
 A chuchiau tanllyd hir a fflam burgoch,
 A march cydnerth llanc gwineugoch coeth,
- 20 Anrheg hardd yr olwg, arfwisg ruddgoch.
 Chwithau'r seintiau, boed ichi synio am dangnefedd,
 Boed ichi ei dderbyn i dŷ pennaeth gwych y nef,
 Er rhyngu bodd Duw rhyngoch y bydd,
- 24 Yn rhydd cyn y nawfed dydd, [boed ichi ei dderbyn] i'r nef atoch.

Moliant Morgan ap Dafydd ap Llywelyn o Rydodyn

- I fwyty pobloedd, af atad,—Forgan,
 Fawrgar osb ac eirchiad,
 Dewistrefn Dywi Ystrad,
 4 Drennydd drwy nerth Dofydd Dad.
- Tadmaeth prifeirdd heirdd o hirddawn—Forgan,
 Fawrgar cadarn cyfiawn,
 Gwypmp orborth, cymorth camawn,
 8 Gwych bôr o hil iôr hael iawn.
- Iawn y rhoddes yr Iesu
 Anaw caredig yno,
 Anodd rhag ei haelioni
 12 Ennill ei gyfryw ynyy.
- Ynn y mae tyddyn oed dydd,—lles fawrgost,
 Llys Forgan fab Dafydd,
 Dyn agos nid anegydd,
 16 Dyn o bell ei feddgell fydd.
- Bydd yn fy mryd, gwynfyd gwir,
 Budd teg, bu o'i reg ragor,
 Myned wlad fy mhenadur,
 20 Manwl pawb wrth fy muner.
- Muner y sydd mywn aur sud,
 Morgan benadur mawrgad,
 Menestr clêr mywn ystyr clod,
 24 Meistr mawr o Ddwyfawr Ddyfed.
- O Ddyfed pan addefer
 Hyd ym Môn lle ydd ehed môr,
 Ni weled, ac ni welir,
 28 Ferthog, er pan fu Arthur,
 Castell, ni ad cymell câr,
 Cost daly gŵyl, cystal y gŵr.

32 Gŵr clodrydd y sydd i'n ansoddi,
 Gorfuiddiog farchog pan fai erchi,
 Gŵr cadr rhudd baladr mal rhodd Beli—Mawr,
 Gwawr dan dew aesawr, Duw i'w oesi.

36 Gorddwy is Tawy, ni chyrch Tywi,
 Gwrdd Forgan Drystan a law drosti;
 Gwarant i anant daeoni—cyfrin,
 Gwerin fyrdd fyddin o feirdd feddwi.

40 Gorau y barnant o wlad Geri
 Goron yr awron i Eryri;
 Gwnâi man y delai namyn doli—gwin,
 Mwy no dwfr melin ym mhen Deifi.

44 Gwnaf i'm brawd araf ail Bryderi,
 Gwiw a difilain, gwawd i'i foli;
 Gwnaeth yntau finnau f'ynni—'n llawenach,
 O'i lifrai'n falchach nog Eilifri.

48 Hir y'i gato Duw mywn daeoni,
 Hwyr y'i dycer Nêr rhag ynn oeri,
 Herwydd gwych edrych, edryd cri—arglwydd,
 Ar ei ehudrwydd a'i wrhydri.

52 Hylwydd a chadarn lle bai holi,
 Hyglau ar ddwyfoes, hoywglwr ddoifi;
 Hardd afael fur hael, fy rhi—'Neheubarth,
 Hwylau dewr diwarth, haelder Dewi.

56 Hael am fudd fu Nudd o fwyn noddi,
 Dianael Fordaf mywn daeoni,
 Diserch fu Rydderch i rod-di—trysor,
 Porffor a ffylor, aur a phali.

60 Deuwell yw Morgan, ni wn dewi,
 Dwywol, llyw gwrol llaw egori,
 Deddf Paul yn awr traul, no'r tri—o'r Gogledd,
 Ym Duw, i Wynedd da ei eni.

64 Llafuriaf ei fawl geir gwawl gweilgi,
 Llamsach Deheubarth yn ŵr llimsi,

Llwybr hardd i brifardd brofi—o Benllyn
Gofyn Rhydodyn, ai rhaid oedi?

68 Hwn yw'r arfeddyd, ergryd eurgri,
 Heb fyneigiaid ffyrdd, heb fynegi,
Mywn ystryw ydd af, menestri—clodrydd
 Morgan fab Dafydd rydd rieni.

72 Mal Seth fab Addaf ydd af Ddyfi,
 Pan aeth baradwys, wiwddwys weddi,
A dilyn ôl clêr, ni wnaeth doli—rheg,
 I'w fireinllys deg o fôr Enlli.

76 Llew glew glaif gwyar, llwybr bâr beri,
 Lle llawn dawn digardd, brifardd brofi;
Lluddiai, enynnai ynn ynni,—galon,
 Lladron, Ddeifr caethion, drwy ddwfr Cothi.

80 Lle gwna rhiain gain gynefodi,
 Llarieiddaf merch mam â'i llaw rod-di,
Lleucu, lle prydu pryd rhieni—ryw,
 Lliw arien ydiw, eiry yn odi.

84 Lluniaf a malaf glod i'w moli,
 Llerwgoeth aur gloywddoeth o arglwyddi,
Llwybr da a wedda dyweddi—Forgan,
 Llathraid liw huan ar wynllethri.

88 Rhad da a wedda, rhoed Duw iddi,—fun
 O fywn gwyrdd a phali,
 Llun tawel, uch llanw Tywi,
 Llawir fyw hir, ef a hi.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 211^v B—Card 4.140, 620 C—J 111, 1270 D—LIGC 4973B, 303^r E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 18^r F—Llst 147, 158 (*o'r cefn*) G—Pen 118, 209

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau'r llawysgrif

1 V6ytty pobloed. 14 dayd. 30 dalu. 35 Gerdwy. 42 ymen. 55 vy6n. 61 pa6l.
69 menest'. 72 y baradwys. 81 a rieni. 83 amolaf. 84 llerwdoeth. 89 uchel.

Teitl

Mad' dwy greic ae cant . y vorgan ^vab dd' ^vab ll'.

Moliant Morgan ap Dafydd ap Llywelyn o Rydodyn

- I fwyty pobloedd, af atat, Forgan,
 Cyfaill mawr i westai a cheisiwr rhoddion,
 Hoff lys Ystrad Tywi,
 4 Drennydd drwy nerth Duw Dad.
- Tad maeth prifeirdd hardd drwy rodd faith Morgan,
 Cyfaill mawr cadarn, cyfiawn,
 Atgyfnerthiad rhagorol, cymorth brwydr,
 8 Pennaeth gwych o hil arglwydd hael iawn.
- Yn gymwys y rhoes yr Iesu
 Gyfoeth un caredig yno,
 Anodd oherwydd ei haelioni
 12 Fydd cael inni neb tebyg.
- Y mae trigfan inni ar yr adeg benodedig, darpariaeth helaeth er ein
 lles,
 Llys Morgan fab Dafydd,
 Nid un i wrthod dyn agos ato,
 16 Meddgell ar gyfer dyn o bell fydd ef.
- Bydd yn fy mryd, gwir wynfyd,
 Bendith deg, bu rhagor eto o roddion ganddo,
 Fynd i fro fy mhennaeth,
 20 Cybyddlyd yw pawb o'u cymharu â'm harglwydd.
- Arglwydd sydd mewn gwedd o aur,
 Morgan, pennaeth byddin fawr,
 Tywalltwr diod y beirdd oherwydd mawl,
 24 Meistr mawr o Ddwyfor i Ddyfed.
- O Ddyfed y cyfaddefir
 Hyd ym Môn lle y llifa'r môr,
 Ni welwyd, ac ni welir,
 28 Dyn goludog, er pan fu Arthur,
 [Mewn] castell, ni chaniatâ ddwyn gorfodaeth ar gân,
 Darpariaeth cynnal gŵyl, cystal â'r gŵr.
- Gŵr hael ei glod sy'n darparu ar ein cyfer,
 32 Marchog haelionus pan erchir rhoddion,

Gŵr cadarn, coch ei wayw [a'i rodd] fel rhodd Beli Mawr,
Arglwydd dan darian braff, boed i Dduw estyn ei ddyddiau.

36 Gorthrwm yn is Tawe, nid yw'n cyrraedd Tywi,
Morgan gadarn sydd ag awdurdod Trystan drosti;
Un sy'n gwarantu i gerddorion haelioni cyfaill,
Byddin a'i gwerin yn fyrdd o feirdd yn meddwi.

40 Yn orau y barnant o wlad Ceri
Goron yr awron hyd Eryri;
Ni wnâi lle bynnag y deuai ond rhannu gwin,
Mwy na dŵr melin yn nharddle Afon Teifi.

44 Gwnaf i'm brawd tirion tebyg i Bryderi,
Gwiw ac addfwyn, gân i'w foli;
Gwnaeth yntau finnau'n llawenach fy mryd,
Oherwydd ei lifrai'n falchach nag Eilifri.

48 Yn hir y bydded i Dduw ei adael mewn daioni,
Yn hwyr y bydded i'r Arglwydd ei ddwyn rhag inni dristáu,
Oherwydd edrych yn ffafriol, datgan cri arglwydd,
Ar ei fywiogrwydd a'i wrhydri.

52 Llwyddiannus a chadarn lle byddai hawlio,
Parod ar ddwy foes, lleddfai'r beirdd gwych;
Mur hael hardd ei gynhaliaeth, fy arglwydd yn Neheubarth,
Hwyliau dewr clodfawr, haelioni Dewi.

56 Hael am rodd fu Nudd o ran noddi'n fwyn,
Digrintach fu Mordaf mewn daioni,
Didrachwant fu Rhydderch wrth rod-di trysor,
Gwisgoedd porffor a ?melfed, aur a sidan coeth.

60 Deuwell yw Morgan, ni allaf dewi—
Gŵr duwiol, pennaeth gwrol, llawagored,
Cynneddf Paul pan fo'n bryd gwario,—na'r tri o'r Gogledd,
Myn Duw, i Wynedd y mae'n dda ei eni.

64 Gweithiaf ei fawl ger terfyn môr,
Llamu Deheubarth yn ŵr noethlwm,
Llwybr hardd yw i brifardd geisio o Benllyn
Ymholi am Rydodyn, a oes raid oedi?

- 68 Hwn yw'r bwriad, arswyd coeth ei lef,
 Heb ddangoswyr ffyrdd, heb ddweud dim,
 Mewn ystryw yr af, darpariaeth glodfawr
 Morgan fab Dafydd hael ei gyndeidiau.
- 72 Fel Seth fab Adda yr af i Ddyfi,
 Pan aeth i baradwys, gweddi goeth a dwys,
 A dilyn ôl beirdd, nid arbedodd rodd,
 I'w lys mirain a theg o fôr Enlli.
- 76 Llew glew gwaedlyd ei wayw sy'n peri llwybr o ddigofaint [o'i ôl],
 Lle llawn dawn ragorol, lle y profir prifardd;
 Ataliai (enynnai angerdd ynom) elynion,
 Lladron, Saeson taegaid, drwy ddŵr Cothi.
- Lle y mae merch yn byw'n hardd ei moes,
 Addfwynaf merch mam a'i llaw'n gyfarwydd â rhoi,
 Lleucu, lle i foli tegwch o rywogaeth hynafiaid,
 Lliw barrug ydyw, eira'n disgyn.
- 84 Lluniau a datganaf glod i'w moli,
 Trysor meingoeth, gloywddoeth o hil arglwyddi,
 Hynt dda a haedda cymar Morgan,
 Lliw heulwen lachar ar lethrau gwynion.
- 88 Bendith dda a haedda, boed i Dduw roi iddi, ferch
 Mewn brethyn gwyrdd a sidan,
 Gwedd dirion, uwchlaw llanw Tywi,
 Fywyd hir haelionus, ef a hi.

Moliant Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan

- Hawddamor, trysor trwsiad—uchelfruint,
 Hardd faint hwyl Geraint, hawl egoriad,
 Heddiw o Wynedd i wahoddiad—beirdd,
 4 Hŷn heirdd, glew ddigeirdd gloyw ddiwygiad;
 Hopgyn wirodlyn rheidwlad,—hardd golofn,
 Llywiaidd ac eofn, llaw ddigaead,
 Fab Tomas ddigas ymddygiad—cyfiawn,
 8 Fyrddlawn, fab Einiawn, feirdd erbyniad.
 Tŵr gwiw, mwyn ydiw myndiad—ei ryd,
 Tew aestrom yng ngryd, Tywi Ystrad.
 Coethwybod ceisglod, casglad—doethineb,
 12 Cyflawn ei wyneb, coflan ynad;
 Cyneddfau Selyf, ceinfodd seiliad—dawn,
 Cyfiawn ac uniawn ei ddigoniad.
 Corf deheubarthdir a'u cariad—barngoeth,
 16 Cyfoeth hir wiwddoeth, a'u harweddiad;
 Cystal cof Eidial, cyfodiad—cerddau,
 Campau y deau, a'u ardwyad.
 Cefais iôr rhagor, rhwygiad—aer dramwy,
 20 Cadarn Afarwy, cedyrn fwriad.
 Cain allor yng ngherdd, cynulliad—clodfaith,
 Cyfraith mydr rwyddiaith ymadroddiad;
 Coeth hustyng wrth ieirll, caith ostyngiad—gryd,
 24 Celfyddyd y byd a'i wybodiad.
 Cynhelydd clodrydd, cludrad—gynyddu,
 Ceindu dai porthlu Deheuparthwlad;
 Carw fflamddur a mur, maer ffysgiad—gwinfaeth,
 28 Cynnydd ehalaeth, cain Nudd heiliad;
 Cymry ben a'u nen a'u neirthiad—a'u porth,
 Cywiwblaid hyborth, cwbl atebiad;
 Cleddlym ail Edlym lidlafn cad—ymwrdd,
 32 Caledfin agwrdd, clod fanagiad.
 Ni bu gan deulu, gain daliad—y gwŷr,
 Glywed, mawr ystyr, glod mor wastad,
 Na Nudd o galon, nawdd-ddigaead—llwyr,
 36 Neu Gadw o synnwyr, iawn gydsyniad,

- Nac Ifor lwyddior, leiddiad—gwayw aergryn,
 Na neb â Hopgyn, iôr meddlyn mad,
 Ni welais eirioed yn ei wiw-wlad—ef,
 40 Newyddaur addef neddair roddiad.
 Nid llai, da y haeddiar dyhuddiad—pellgerdd,
 Y gwnaf ei fawrgerdd, gynnif aergad,
 No'r beirdd a wna'n heirdd, hyrddiad—caer eofn,
 44 Ysgeirloyw golofn, o'i ysgarlad.
 Neud wyf pan allwyf, pen-enilliad—mawl,
 Eryr i'w faenawl, arofuniad
 I'w lys, Hopgyn wyn wyniad,—a'i galchfur,
 48 Iôr anian Arthur, union neirthiad.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 230^r B—Card 4.140, 651 C—J 111, 1310 D—LIGC 4973B, 330^r E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 50^r F—Llst 147, 200 G—Pen 118, 234

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau'r llawysgrif

28 kynnys. 45 pann ~~en~~ ennillyat.

Teitl

Mada6c d6y greic a [sic] cant.

Moliant Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan

- Henffych well, trysor a'i wisg yn arwyddocáu rhagorfraint,
 Un hardd ei faint o anian Geraint, hyrwyddwr hawl,
 Heddiw o Wynedd i wahoddwr beirdd,
 4 [Un a chanddo] hynafiaid hardd, rhai di-fai, glew, gloyw eu gwedd;
 Hopgyn, gwirod gwlad anghenus, colofn hardd,
 Arglwyddaid ac eofn, llawagored,
 Fab Tomas gyfiawn a serchog ei ymddygiad,
 8 Lawn ei fwrdd, fab Einion, croesäwr beirdd.
 Tŵr gwiw (mwyn yw amnaid ei ffawd,
 Tarian drom, braff mewn brwydr) Ystrad Tywi.
 [Un] coeth ei synnwyr sy'n ceisio clod, casglwr doethineb,
 12 Cyflawn ei anrhydedd, ynad cyfiawn;
 Cyneddfau Selyf, sylfaen brydferth dawn,
 Cyfiawn ac union yw ei weithred.
 Cynheiliad tir y deheubarth a'u cariad coeth ei farn,
 16 Maith arglwyddiaeth ddoeth a gwiw, a'u harweinydd;
 Cystal ei synnwyr ag Eidal, dyrchafwr cerddi,
 Campau y deau, a'u noddwr.
 Cefais arglwydd rhagorol, rhwygwr cyrch byddin,
 20 Afarwy cadarn, gostyngwr cedyrn.
 Allor gain mewn celfyddyd, casglwr maith ei glod,
 Adroddwr rheol iaith rwydd prydyddiaeth;
 Coeth sibrwd wrth ieirll (darostyngwr caethion mewn brwydr)
 24 Gelfyddyd y byd a'i wybodaeth.
 Cynhaliwr clodfawr (un sy'n cynyddu rhoddion)
 Tai teg eu tu llu cynhaliol gwlad Deheubarth;
 Carw fflamiog ei gleddyf a mur, maer grymus a fagwyd ar win,
 28 A'i lwyddiant yn helaeth, a chanddo arlwy Nudd hardd;
 Pennaeth y Cymry a'u harglwydd a'u nerthwr a'u noddwr,
 Cynheiliad lliaws gwych, un sy'n ateb [eu gofynion] yn llwyr.
 Un llym ei gledd tebyg i Edlym ffyrnig ei lafn yn rhuthr brwydr,
 32 Min caled, cadarn, datganwr clod.
 Ni fu i deulu, anrhegwr hardd y gwŷr,
 Glywed, mawr yw'r rheswm, glod mor gyson,
 Na Nudd o ran calon, un cwbl ddigrintach ei nawdd,
 36 Neu Gato o ran doethineb, cydsyniwr cywir,
 Nac Ifor yr arglwydd ffyniannus, lleiddiad a'i wayw'n peri cryndod
 mewn brwydr,
 Na neb â Hopgyn, arglwydd rhinweddol y ddiod fedd,
 Ni welais erioed yn ei wlad wych ef,
 40 Trigfan newydd odidog yr un sy'n rhoddi â'i law.

Nid llai, da yr haeddai ddiddanwch cerdd gyrhaeddbell,
Y gwnaf ei gerdd fawr, ymryson brwydr,
Na'r beirdd y mae'n eu harddu, ymosodwr eofn ar gaer,
44 Amddiffynnwr disglair ei aelodau, â'i wisgoedd ysgarlad.
Yr wyf pan allaf (pen-enillwr mawl,
Eryr yn ei faenol) yn amcanwr
I'w lys, Hoggyn wyn ddoluriwr, a'i fur gwyngalch,
48 Arglwydd o anian Arthur, cynhaliwr cywir.

Englynion i Grist

- O'i fam Duw arnam, da Eurnen,—a ddoeth,
 Ac ydd aeth Urddonen,
 Euraf Naf nef a phresen,
 4 Urddodd a breiniodd yw bren.
- Pren a gymyrth gwyrth, gwerth pobloedd—o waed,
 Nid o wŷd ysbrydoedd,
 Croes deg yn cynnal Crist oedd,
 8 Crau o'i radau ir ydoedd.
- Oedd gwaedlyd gwerth byd, rhag bod caethder—prin,
 Pren ydd aeth ddiw Gwener,
 O'r pren i'r bedd, gwedd gwander,
 12 O'r bedd aeth Ef ar nef Nêr.
- Nêr a aned i Gred grym
 Nadolig rhag tremyg trwm;
 Da fu, ym Maethlu, 'Methlem
 16 Duw Eurfab a diweirfam.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 217^r B—J 111, 1280 C—LIGC 4973B, 312^r D—Llst 133, 819 E—Llst 145, 120 F—Llst 147, 172 (*o'r cefn*) G—Pen 118, 217

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Englynion i Grist

O'i fam Duw atom, Arglwydd euraid da, a ddaeth,
Ac aeth hyd Iorddonen,
Arglwydd gwychaf nef a daear,
4 Rhoes urddas a braint i bren yw.

Pren a dderbyniodd wyrth, gwerth pobloedd o waed,
Nid drwy ysbrydion anfad,
Croes deg yn cynnal Crist oedd,
8 Gwaed ir gan Ei fendithion ydoedd.

Gwaedlyd oedd gwerth y byd, rhag bod caethder prin,
I'r pren yr aeth ddydd Gwener,
O'r pren i'r bedd, yn ddrych o wendid,
12 O'r bedd aeth Ef at Arglwydd nef.

Ganed yr Arglwydd i Fyd Cred nerthol
Y Nadolig rhag dirmyg tost;
Da fu, myn Maethlu, ym Methlehem
16 Fab euraid Duw a mam ddiwair.

6
Awdl i Grist

	Mawrdduw fy Naf, Mab ysbrydol Morgad wrth raid	mi a'i ceisiaf i Fair ddyniol i bob enaid	rhag mwy casau, o fawr ddoniau, o bai boenau.
4	Prynodd bumoes Gwedy cystudd Gwnaeth Crist ollwng	ar yr eurgroes glwyf a chythrudd, wyar teilwng,	er yr irgrau, glaif a chethrau, wi o'r talau!
8	Eurgrog Iesu, Pren o hynaf Gwaed a'n prynodd Crist o Nasredd, Credu Iddo,	lle i dyngu gwyal Addaf, a erbynodd ein trugaredd ei welio,	llw yd angau, gŵyl a oddau, ar ei bannau; a'n Tri gorau, ei weliau,
12	Ei fod Ehun Marw a chladdu Er llewenydd Ei gyfodi,	yn Dri ac Un mawr a Iesu, yn y trydydd diwarth Geli,	heb dro a gau; nid mwy'r eisiau, un o'r tridiau da wyrth golau;
16	Â'i eurgrog lân Ysbeilio plas Goresgyn nef, Trymfeddyliwn,	dwyllo swdan, uffern eirgas, er dioddef drud ystyriwn	dall osodau, y ffwrn oergau, i'r dioddau. drwy dost eirau
20	Ein dielwed Marchog urddol Yn saith droedfedd Na glew galon	yn taer fyned ni bydd gwrol, y bo 'n oerfedd dan arwyddon,	i'n terfynau; ni bydd gorau, o bu'n arfau, dwyn ei raddau, mywn gloes angau.
24	Na glew gariad Nid oes diwedd Na hoedl na byd, Nid oes gariad	na glwys sangad na deddf gwyledd odost echryd, nac un dyad	na dydd golau nid oes dechrau, nac un diau, nid oes urddau;
28	Eithr Crist a'i ddelw A thrwy Iddo Er Ei brynu, Er Ei ymlid,	nid oes arddelw, er Ei hoelio, er Ei werthu, er Ei rydid,	er Ei hwyliu, er Ei wyrthau, er Ei radau, ar draws arfau,
32	A'i ymgyfod, Ein erbynio Er Ei gythrudd,	eurdrais orfod barth â'r Eiddio, er Ei ddyhudd,	berth Ei raddau, ar Ei ddeau.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 216^r B—J 111, 1279 C—LIGC 4973B, 311^r D—Llst 133, 818 E—Llst 145, 120 F—Llst 147, 170 (*o'r cefn*) G—Pen 118, 216

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau'r llawysgrif

8 gweal.

Teitl

Madaóc dwy greic ae cant.

Olnod

AmeN.

Awdl i Grist

- Dduw mawr fy Arglwydd, mi a'i ceisiaf rhag mwy o droeon cas,
 Mab ysbrydol i Fair ddynol fawr ei rhinweddau,
 Byddin fawr mewn angen i bob enaid pe bai poenau.
- 4 Prynodd bumoes ar y groes wych drwy'r gwaed ir,
 Wedi clwyf cystuddiol a blinder, gwayw a hoelion,
 Gollyngodd Crist waed teilwng, dyna daliadau gwych!
 Croes wych Iesu, lle i dyngu llw hyd angau,
- 8 Pren o hynaf wiail Adda, arfaeth dirion,
 Gwaed a'n prynodd a dderbyniodd ar ei breichiau;
 Crist o Nasareth, ein trugaredd a'n Tri gorau,
 Credu ynddo, ei archolli, ei archollion,
- 12 Ei fod Ei hun yn Dri ac Un heb dro a thwyll;
 Marw a chladdu Iesu mawr, nid mwy'r eisiau,
 Er llawenydd ar y trydydd dydd o'r tridiau
 Ei gyfodi, Arglwydd clodfawr, gwyrth dda, olau;
- 16 Â'i groes wych, hardd, twyllo pennaeth tywyll ei gyrhoedd,
 Ysbeilio plas uffern gas ei geiriau, y ffwrn oerwag,
 Goresgyn nef, trwy ddioddef i'r diben [hwnnw].
 Trwm feddylw'n, dwys ystyriw'n drwy eiriau tost
- 20 Mor ddistadl ydym yn taer fyned tua'n terfyn;
 Marchog urddol ni fydd wrol, ni fydd orau,
 Mewn saith droedfedd y bo mewn bedd oer os bu mewn arfwisg,
 Na glew ei galon dan faneri o ddwyn ei raddau,
- 24 Na glew ei gariad na theg ei gerddediad yn ing angau.
 Nid oes diwedd na moes addfwynder na dydd golau
 Na hoedl na byd, arswyd enbyd, nid oes dechrau,
 Nid oes cariad nac un ffurf nac un [peth] sicr,
- 28 Ond Crist a'i ddelw nid oes hawl, nid oes urddau;
 A thrwy Iddo ar gyfrif Ei hoelio, ar gyfrif Ei gyrhoedd,
 Ar gyfrif Ei brynu, ar gyfrif Ei werthu, ar gyfrif Ei wyrthiau,
 Ar gyfrif Ei ymlid, ar gyfrif Ei ryddid, ar gyfrif Ei fendithion,
- 32 A'i atgyfodiad, goruchafiaeth wych fuddugol ar arfau cadarn,
 Ein derbyn i'w wlad Ef, hardd Ei raddau,
 Ar gyfrif Ei flinder, ar gyfrif Ei gysur, ar Ei ddeheulaw.

7
Awdl gyffes

Cyffesaf, Mawrnaf, i'm Eurner,
Cyffesawl, o'm hawl y'm holer,
I Iesu, oesoedd gyflawnder,
4 Ac i Fair firain eglurder,
A bechais, beichau o wacter,
Ei bechu mywn buchedd symlder;
Y bychan ddial, a becher
8 O bechod heb ochel ffalster:
Yng ngeiriau, camlyau lawer,
Yng ngweithred galed ni geler,
Yng nghywyd, anghywir arfer,
12 Ym meddwl, a maddau, fy Nêr,
Am syrthio o'm serthedd hyder
Ym mhob un ohonun, henwer;
A Mab Mair mawr Ei gyfiawnder,
16 Am dyfu edifar bryder,
A'u maddau modd na'm dialer
O'm gallu, a'm gollwng, fy Nêr;
Cyn ymdyn yn amdo prinder
20 A gwisg dderw drachwerw, edrycher,
A daear, dyad o fyrder,
A'm adaw ym mud gyfyngder
Yn oerfedd yn erfyn pader,
24 Yn arwydd anwraidd wander,
Yn araf yn aros f'amser,
Yn eres mae 'nyrys falchder,
A dyfod, ni thycia difer,
28 Diwyrnawd i'r Frawd a frodier
I fyned o faenol dyfnder
I fyny i fynydd Olifer,
A'n holi yn nheilwng ddoethder
32 Ac ateb i Grist y'n gater;
Mihangel, echanged gaethder
Ein gallu i'n gollwng uchelder
O pheidiwn, a Phedr a'n cymer.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 217^v B—J 111, 1279 C—LIGC 4973B, 312^v D—Llst 133, 819 E—Llst 145, 120 F—Llst 147, 171 (*o'r cefn*) G—Pen 118, 217

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau'r llawysgrif

3 gyflaónd'. 7 Ebychan.

Teitl

Mad' heuyt.

Olnod

AmeN.

Awdl gyffes

- Cyffesaf, Arglwydd mawr, i'm Iôr euraid,
 Yn gyffesol, fe'm holir oherwydd fy nghais,
 I Iesu, cyflawnder yr oesoedd,
 4 Ac i Fair, firain ei disgleirdeb,
 Gymaint a bechais, beichiau o wacter,
 Ei bechu mewn buchedd llawn ffolineb;
 [Boed] fychan y dial, a chymaint a bechir
 8 O bechod heb ochel ffalster:
 Mewn geiriau, llwon celwyddog lawer,
 Mewn gweithred greulon nas celir,
 Mewn bwriad, arfer twyllodrus,
 12 Mewn meddwl, a maddau, fy Arglwydd,
 Am [imi] syrthio oherwydd fy rhyfyg llawn maswedd
 Ym mhob un ohonynt, enwir hwy;
 A Mab Mair mawr Ei gyfiawnder,
 16 Am dyfu pryder edifar,
 A'u maddeua fel na ddialer arnaf
 Oblegid fy nghyfoeth, a'm rhyddhau, fy Arglwydd;
 Cyn enciliad mewn amdo lawn cyfyngder,
 20 A gwisg dderw dost iawn, edrycher,
 A daear, drych o fyrder,
 A'm gadael mewn caethiwed mud
 Mewn bedd oer yn deisyf pader,
 24 Yn arwydd o wendid anwrol,
 Yn ddigynnwrf yn aros f'amser,
 Yn rhyfeddol y mae fy malchder anfad,
 A dyfod, ni thâl twyll,
 28 Diwrnod i'r Farn a draddodir
 I fyned o faenol dyfnder
 I fyny i fynydd yr Olewydd,
 A'n holi mewn doethineb teilwng
 32 A gadewir i ni ateb i Grist;
 Mihangel, boed iddo ryddhau caethiwed
 Ein gallu [bydol] i'n gadael i mewn i'r uchelder
 Os peidiwn, a Phedr a'n cymer.

Cyffes prydydd

- Arweddais faswedd o'm gwedd a'm gwawd,
Orwacter llawer, lliwiant ceudawd;
4 Arweddwyf fy Rhwyf cyn rhwym cnawd—aruthr,
Cyn gloes o dduruthr, cyn glas feddrawd.
- Rhad ac ysbryd byd bod yn barawd,
Rhof ac Eurgrair Mair, mawr gymhendawd;
8 I'm unffordd ar Dduw, o'm anffawd—byncau,
Boed mau fwrw beichau o farw bechawd.
- Traha a ostwng, trahy ystawd,
Trosedd enwiredd yn anwarawd;
12 Tri a'n gwnaeth, fyd caeth, coeth ellyngdawd—lles,
Bylchu oedd eres balchedd Erawd.
- Rhadlawn yw Mab Duw ac nid rhydlawd,
Rhoes bym synnwyr ym, aml y'm gwarawd:
16 Camre calon, lon leindid cnawd,—dwyllaw,
Syniaw, gwarandaw pob gwiriondawd.
- Traws i'm prynu fu, fudd y Drindawd,
Troes bumoes ar groes, gras bedysyawd;
20 Gallu o yngder gellyngdawd—pobloedd,
Drud i'w Wirnaf oedd dri diwarnawd.
- Ffrwythlawn awyr llwyr, llwrw dynioldawd,
Ffrydiau, sêr, sygnau yn neau nawd,
24 Ffrawdd gaeaf rhag haf, hyfawl ddefawd—hin,
Ffrwyth ffraeth egin gwin, gwenith, pysgawd.
- Daear ac adar, goedydd wasgawd,
Mynyddedd, dyfredd, Crist ni'n difrawd,
28 Nos a dydd, Dofydd, dwfn, bastawd—môr traeth,
A wnaeth gynt no'r saeth saith niwarnawd.
- Cyn hir annudd prudd pridd a thywawd,
Cyn hwyr ennill pill, pell ryfeddawd,

- 32 Cyn rhwymiad ddyad o ddiawd—gloesedd,
Cyn chwerwedd dyedd, dial medd-dawd,
- Cyn anghyflym rym, rwymo'r ddwyfawd,
Cyn anghyflwr gŵr mywn garw drallawd,
36 Cyn perigl fyned, cyn parawd—orwedd,
I gastellol fedd ac ystyllawd,
- Cyffes penyd, hyd hydr ufudd-dawd,
Coffâu Iesu o chaf oesawd,
40 Cwbl drosi buchedd dros bechawd—prydydd,
Caffwyf gerennydd cyn brwydrddydd Brawd.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 210^v B—J 111, 1269 C—LIGC 4973B, 301^v D—
LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams], 17^{v/v} E—Llst 133, 817 F—Llst
145, 119 G—Llst 147, 155 (*o'r cefn*) H—Pen 118, 208

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r
holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni.
Ynhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau'r llawysgrif

10 trosset. 18 er groes. 27 dyfun.

Teitl

Mada6c dwy greic ae cant.

Olnod

ameN.

Cyffes prydydd

- Canlynais oferedd yn f'ymarweddiad a'm cân,
 Llawer o wagedd, edliwiad y meddwl;
 Boed imi arddel fy Arglwydd cyn rhwymiad arswydus y cnawd,
 4 Cyn y boen o gyrch tywyll, cyn beddrod gwyrddlas.
- Bendith ac ysbryd byd yw bod yn barod,
 Rhyngof ac Anwylyd Mair, mawr ei ddoethineb;
 Ar fy ffordd union at Dduw, oherwydd fy ngweithredoedd anffodus,
 8 Boed imi fwrw beichiau o bechod marwol.
- Y mae'n darostwng traha, hynt haerllug iawn,
 Trosedd pechod dybryd yn ddiymwared;
 Tri a barodd inni, fyd caeth, waredigaeth lesol, wych,
 12 Hynod oedd bylchu balchder Herod.
- Graslon yw Mab Duw ac nid tlodaidd,
 Rhoes bum synnwyr im, yn aml y'm gwardodod;
 Cerddediad calon, glendid cryf cnawd, dwylo,
 16 Edrych, gwrando ar bob gwirionedd.
- Bu'n gadarn yn fy mhrynu, lles y Drindod,
 Achubodd bumoes ar groes, bendith gwledydd Cred;
 Peri o gyfyngder ollyngdod pobloedd,
 20 Enbyd i'w wir Arglwydd oedd tri niwrnod.
- Awyr doreithiog yn llwyr, er lles dynoliaeth,
 Ffrydiau, sêr, sygnau sy'n gyfarwydd yn y de,
 Ffyrnigrwydd gaeaf cyn haf, defod glodwiw'r hin,
 24 Ffrwyth egin gwinwydd aeddfed, gwenith, pysgod.
- Daear ac adar a choedydd yn gysgod iddynt,
 Mynyddoedd, dyfroedd, nid ysbeilia Crist mohonom,
 Nos a dydd, yr Arglwydd, dyfnder eigion, baster môr ar draeth,
 28 A'u gwnaeth ynghynt na'r saeth mewn saith niwrnod.
- Cyn hir orchudd prudd pridd a thywod,
 Cyn hwyr ennill noddfa, rhyfeddod maith,
 Cyn cyflwr o rwymedigaeth oherwydd diod poen,
 32 Cyn chwerwedd cyni, dial meddwdod,

Cyn pylu'r nerth, [a] rhwymo'r ddwy fawd,
Cyn anffawd gŵr mewn trallod garw,
Cyn mynd i gyflwr enbydus, cyn gorwedd yn barod,
36 I fedd castellaidd ac ystyllod,

[Dygaf] gyffes penyd, ufudd-dod llwyr ei barhad,
Coffáu Iesu os caf fyw,
Llwyr wydroi buchedd oherwydd pechod prydydd,
40 Boed imi dderbyn cymod cyn dydd cythryblus y Farn.

Afallen beren: dychan i Faald ferch Ddafydd

- Afallen beren, beth a'th bores,
 A impais â'm llaw mywn lle cynnes?
 4 Merch dlawd rwydd waelawd ryweles—yman
 Gael cyn gŵyl Ieuan gnwd mân mal mes.
- Maald ferch Ddafydd, rhydd oedd y rhes,
 Mawr a ddug neithwyr, llwyr y'u llewes;
 8 Poeth fursen finwen o fynwes—cae drain,
 Putain din ancraïn, nid â'n angres.
- Pan oedd flysig hon, hyn a'm somes,
 Pwynt darogan fu pan doroges.
 12 Pond da bod deincod, dincen gwres—gyfedd,
 Ynghylch ei dannedd a'u didonnes?
- Rhai'n amrwd mywn cwd cad 'n ei mynwes,
 A llawer ynghudd ym mhob llawes,
 16 Rhai a hawdd ferwawdd, ferwafll trigwres—tân,
 Rhaib abo perllan, rhai a bobes.
- Afallen beren a bored—i'm plas
 Ei chnwd glas o flas, o flys merched,
 20 Ffrwythau'r rhyw gangau, rhag ynged—arnai,
 Ffraeth y dug blotai, gawlai galed.
 Tair afallen pêr, pored—o anfodd,
 Ni roddid o fodd ac ni rodded:
 24 Un ym mharadwys a aned—yng ngwŷdd
 Rhwng hen a newydd yn eniwed;
 Ail yn dwyn rhyddail, rhodded—i Fyrddin,
 Buchedd gyffredin, werin wared;
 28 Trydedd hardd i'm gardd, am gerdded—gormes,
 Mul y dibobles Maald babled.
 Rhai'n amrwd mywn cwd cad yn myned—draw,
 Rhai gwedy'u gwydiaw, gwŷd a godded,
 32 Rhai a hawdd ferwawdd, ferwad ystled—bân,
 Rhaib abo perllan, rhai a bobed.

Afallen beren beraf dan ddaint,
 Gwelwyf a'th ddiwynodd mywn gwâl trymhaint
 Am gyhwrdd gormail a gofeiliant
 36 A chrwydr a chlafri â hi, a haint.
 Maald ferch Ddafydd Hirfynydd faint,
 Merch dingrach dryswrach, odroswraig naint;
 A rodded i neb rodd gogymaint
 40 Â hwn, Maald wael, gwylffael gelffaint?
 Saith gastr aeth ynddi a saith ugaint
 O lodrau rhiau rhy anghywraint;
 Prif fuchedd merch weddw oedd wŷr meddwaint,
 44 Plygai eu caliau amgylch plygaint,
 A dengniawl a dynn cwbl o'i dengnaint,
 Dyn ni wŷr ffrwythau sallwyrâu saint.

Afallen beren, mae ffrwyth dy gangen?
 48 Gwae ni d'ogymen cyn dy gwymaw,
 Cyn gostwng dy frig â'r coedfach helyg
 O Faald frynnig lyniedig law.
 Ofer fu gywain y polion a'r drain
 52 Rhag Maald butain gythrfain, gwthrfaw;
 Hyd pryd pren llath pont, holl dafngoll dyfngont,
 Hydaith drostan front, hy y doeth drostaw.
 Cyd ryd, rid canvas, cefn weinlefn, wanlas,
 56 Cas oedd ei chwmpas wedy'i chwympiaw;
 Tynnu'r afalau, torri'r canghennau,
 Oerfel i'w dyrnau am eu darnaw!

60	Yr afallen Mae ffrwyth dy frig Had afalau, Pan ddoeth gefel, Maald butain,	a fu beren oedd ddiunig Adda bynnau, trawsgoed resel, llyna gelain	cyn dy bori, o ddaeoni? oedd heb enni tros gae drysi, llawn o guli;
64	Ar ddwy gangen Cael tromlathau Tynnu ysgawlwyth, Mawr a ddysgais,	o'r afallen a chryslennau, dogn i dylwyth, cân ogenais	y gwnaeth folli, echrysloni, dygn a doli! cyn no geni,
68	Myrddin y'm gwnair Medd bugelydd Mawr a soniau Oer y'i cweiriwyd	dydd y bo'r ffair o Feirionnydd, am ganghennau can ehangwyd	yn ei pheri, ofer ynni, i gynghenni. cyn no'i hengi,
72	Araith annheg, O'r gwŷdd oedd fau	aeth yn falleg tynnu tyrrau	o'i thinfolli, ac eu torri;

Cylch ei harffed, rhag ei dofned, oedd yn defni,
Ar ddail gwyddfid, aele gwelid ôl y gweli.

- 76 Afallen beren a berais,
Ei gosod yn gall a geisais;
Â'm cyllell y dydd y'i collais
Ac ordd o fywn gardd y'i himpais,
- 80 Cyn clybod dyfod difais—faw haelder,
Feheldyn anghwrtais,
A gostwng, gystal â gwlatrais,
Brigawglwyn, oedd braw a goglais.
- 84 O'm irlwyn ydd aeth (a'm oerlais!)
Â mawrlwyth parth â glan Marlais;
Meheldyn gylun, gelain henbais—ledr,
A ledai d'annhegais.
- 88 Gafffeddal gwnwal ugeinwais,
Gefel gêl gulion ei hirais,
Gofid prid i'r pryd a welais,
Gofyn hyn ar hon ni pherais.
- 92 Gafr hyfram, fawtgam, fwytgais,—fonllomach
No lluman Lanferrais.
- 96 Mae'n eiddi wrÿf main eiddil,
Moel derchwain, Maald oerchwyl;
Achub ddrygbarabl uchel,
A meddw weithred a meddwl,
A llwyffoll olwg lletffol,
Ac ystlomgwthr, gast lemgul.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 214^v B—Card 4.140, 626 C—J 111, 1274 D—LIGC 4973B, 307^r E—Llst 147, 164 (*o'r cefn*) F—Pen 118, 212

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y cerddi i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau'r llawysgrif

3 y mann. 5 Malt. 13 yny. 15 veró aual trigóres. 18 clas. 20 gallei. 28 malt. 34 athdivwyna6d. 37 Malt verch dd'. 40 malt. 47 ffróyth kangen. 48 nyt o gymen. 49 Kyt. 54 hydeich. 58 y6 darna6. 62 gevel. 67 kann. 82 gystal g6lattareis. 87 dan ekeis. 89 hiryeis. 95 maalt dyfyrchw oerchwyl (*tynnwyd llinell goch drwy dyfyrchw*).

Teitl

Madaóc ddygreic ae cant.

Afallen beren: dychan i Faald ferch Ddafydd

Afallen bêr a impiais â'm llaw mewn lle cynnes,
Beth a borodd arnat?

Merch dlawd rwydd ei gwaelod a welodd yma
4 Gael cyn gŵyl Ieuan gnwd mân fel mes.

Maald ferch Ddafydd, rhydd oedd y rhes,
Llawer a ddygodd neithiwr, yn llwyr y'u llowciodd;
Hwren boeth, finwen o ganol cae drain,
8 Putain a'i thin ar led, aiff hi ddim yn lleian.

Pan oedd hon yn flysiog, siomodd hyn fi,
Uchafbwynt darogan fu pan feichiogodd.
Onid da bod hadau, gwledd boeth i leuen,
12 O gylch ei dannedd a biliodd eu croen?

Rhai'n amrwd mewn cwd a gafwyd yn ei mynwes,
A llawer ynghudd ym mhob llawes,
Rhai a ferwodd yn rhwydd, gafl ferw, chwilboeth fel tân,
16 Rhaib sgerbwd perllan, rhai a bobodd.

Afallen bêr y porwyd yn fy mhlas
Ei chnwd glas oherwydd blas a blys merched,
Yn gyflym y dygodd cardotwraig flawd, gan mor gyfyng oedd hi
arni,
20 Ffrwythau'r cangau hynny, cardotwraig gawl arw.
Tair afallen bêr a borwyd o anfodd,
Ni roddid mohonynt o fodd ac nis rhoddwyd:
Un ym mharadwys a aned mewn coedwig
24 Rhwng hen a newydd yn llawn niwed;
Yr ail yn dwyn dail bras a roddwyd i Fyrddin,
Deg ei fuchedd, gwardigaeth llu;
Y drydedd hardd yn fy ngardd, am i ormes ddod i'w rhan,
28 Yn ynyfyr ysbeiliodd Maald biblyd hi.
Rhai'n amrwd mewn cwd a gafwyd yn myned draw,
Rhai wedi'u niweidio, trallod anfad,
Rhai a ferwodd yn rhwydd, berwad ?sled ffwr,
32 Rhaib sgerbwd perllan, rhai a bobwyd.

Afallen bêr beraf dan ddaint,
Boed imi weld y sawl a'th anrheithiodd mewn gwely heintus
Am i ormes a gofal

- 36 Ac anffawd a gwahanglwyf gwrdd â hi, a haint.
 Maald ferch Ddafydd o faint Hirfynydd,
 Merch dingrach i wrach y drysi, crwydryn y dyffrynnoedd;
 A roddwyd i neb rodd gymaint
- 40 Â hon, Maald wael, yr hen foncyff crin sy'n methu [cael rhodd]
 adeg gŵyl?
 Aeth saith cala i mewn iddi a saith ugain
 O lodrau arglwyddi rhy annoeth;
 Prif foddion cynhaliaeth y ferch ddibriad oedd gwŷr meddw,
- 44 Plygai eu caliau tua thoriad gwawr,
 A deg diawl a dynn bob un o'i deg dant,
 Merch na wŷr ffrwythau salmau'r saint.
- Afallen bêr, ble y mae ffrwyth dy gangen?
 48 Gwae ni dy uched cyn dy gwympo,
 Cyn gostwng dy frig â'r bachyn coed helyg
 Gan Faald ddrewllyd, aflan ei llaw.
 Ofer fu hel y polion a'r drain
- 52 Rhag Maald butain dinfain, domlyd;
 Ar hyd ffurf pren llath pont, hollt cont ddofn sy'n colli dafnau,
 Hen drawst o ddynes front, chwim ei thaith, yn hy y daeth drosto.
 Cyfle i ymgydio, paru â chant o feibion, [un] welw-wan, a'i ?chefn
 yn llyfn ei wain,
- 56 Cas oedd ei chwmpas wedi ei chwympo;
 Tynnu'r afalau, torri'r canghennau,
 Melltith ar ei dynnau am eu darnio!
- Yr afallen a fu'n bêr cyn dy bori,
 60 Ble y mae ffrwyth dy frig oedd yn gyflawn o ddaioni?
 Had afalau, pynnau Adda, oedd heb eu dal
 Pan ddaeth gefel, rhastl o goed solet, dros gae drysi,
 Maald butain, dyna gelain lawn o drallod;
- 64 Ar ddwy gangen o'r afallen y gwnaeth ymledu,
 Cael ffyn trymion a chrysbeisiau, mynd yn anfad,
 Tynnu llwyth arwr, dogn i dylwyth, tolio dygn!
 Dysgais lawer, cenais gân cyn geni,
- 68 Myrddin y'm gwneir y dydd y bo'r ffair yn peri iddi ymddangos,
 Medd bugeiliaid o Feirionnydd, bwriad ofer,
 Llauer o sôn am ganghennau i ateb y gofyn.
 Yn arw y'i triniwyd gan iddi gael ei lledu cyn iddi esgor,
- 72 Ymadrodd hyll, aeth yn gawell ar ôl lledu ei thin,
 O'r coed oedd gennyf tynnu pentyrrau a'u torri;
 Yr oedd cylch ei harffed, gan mor ddwfn ydoedd, yn diferu,

Ar ddail coed, trist y gwelid ôl yr archoll.

- 76 Afallen bêr a gyweiriais,
 Ei gosod yn gall a geisiais;
 Â'm cylllell y dydd y'i collais
 A gordd mewn gardd y'i himpiais,
- 80 Cyn clywed am ddyfod un a'i haelioni'n faw pur,
 Meheldyn anghwrtais,
 A gostwng, gystal ag anrhaith bro,
 Llwyn brigog, yr oedd yn fraw a phoen.
- 84 O'm llwyn ffrwythlon yr aeth (a'm llais dolefus!)
 Â llwyth mawr tua glan Marlais;
 Meheldyn, hen odyn, celain ac iddi hen bais ledr,
 A ledai d'asennau hyllion.
- 88 Gwâl cŵn ugain o feibion, feddal ei gafl,
 Gefel gêl, fain ei hasennau hirion,
 Boed gofid drud i'r wedd a welais,
 Gofyn hyn ar hon ni pherais.
- 92 Gafr rechlyd gam ei bodiau sy'n ceisio bwyd, mwy tinnoeth
 Na lluman Llanferrais.

- Y mae ganddi feis fain eiddil,
 Gwain-twill-casgen foel, Maald arw ei ffawd;
- 96 Y mae'n meddu ar barabl drwg uchel,
 A gweithred a meddwl meddw,
 A golwg ffôl, ynfyd, hen,
 A thin domlyd, yr ast fain, lem.

10
Dychan i'r llo

- Tprue! Lœe lo, leuog—ei gynffon,
Asen i gylion y sy'n goliog;
Pryf clofftrod y'm rhoed, rhad lwynog—mirain,
4 Teneugoeg elain tin gagalog;
Eidion y'i gelwynt oedog,—marw ddwyen,
Nid mwy no'r chwannen ar erchwynnog;
Ni weled gan w'r Newylog—galon
8 Anfon rhyw eidion uwch Rhewedog;
Moel grafangmyr byr, bareuog,—tindwll,
Maint cwcwll trydwll, ni thyr troedog;
Mal athrist y'i rhoes meleithrog—eiddil,
12 Mil tarw i gynnil tarogennog;
Yn atethol plant, un teithiog,—henfon,
Yn well no'r eidion calon ceiliog;
Yn lleiaf unrhodd, yn lleuog—omach,
16 Yn llun codowrach grach grafangog.
Cynnig ym fudredd ciniog,—drewedig,
Gwell ym, ym Padrig, cynnig ceiniog;
Rhawn gwrcath Mwrchath, nid marchog—tromwedd,
20 Rhyfedd i'r bawedd na bydd bywiog.
Ganed yn gydoes Gynog—a Deinioel
O hil henfon foel Goel Godebog.
Am gynnig ym bryf, em giniog—lawes,
24 Ar des a golles, gan daid Gello,
Emelltith Fab Duw, diog—y'i dyry,
I'i dŷ a'i feudy o dai Fadog.
- 28 Tprue! Lœe lo, lom ei gynffon,
Penbryd hyd hydr, pil o hil henfon,
Cam y gwnaeth a'th wnaeth, fethion—buwch ddiffaith,
Py waith ddiwydiaith addaw eidion?
- 32 Deuthum i'm cyngor â gwŷr doethon,
Detholais, ceisiais nifer cyson,
Doeth un ysgymun, osgymon—pobloedd,
Llygru'r addaw oedd, llygrai roddion.

36 Eddewis yn rhodd, unfodd anfon,
Ych dwn ni fyriwn dan eforion;
Rhoi pryf hwyr, carnwyr mal ceirnion—pry'r berth,
Anferth, nid cywerth un o'r cywion.

40 Tuthiais a gwylliais ar draws gwyllion
I geisiaw'r addaw, gas arwyddion,
Cael cymar dyfriar, dwyfron—anghyman,
Gwan ei ffurf allan, ni phawr feillion.

44 Eres y'm some, myn Sain Simon,
Oer oedd gynnig, dioer, darw ednogion,
I Fadog oedog eidion—gwaradwydd,
Dwy ysgwydd henŵydd, ar ddydd hinon.

48 Tprue! Lœe lo, leiaf—o wartheg,
Ei werthu ni medraf,
Prid i ddyn ei ddwyn hyd ataf,
Prin a rodd o fodd a feddaf,
52 Pryf a'n rhoed, enrhydedd lleiaf;
Pryd horllyd hwyrlllo Gorffennaf
Piblyd, ni chyfyd, ni chaf—ddim erddo
Ym myrddydd cynhaeaf,
Mantach bach, bychan y'i gwelaf,
56 Maint ffured, ni phawr wellt calaf,
Mil eiddil, iddo ni phrydaf,
Moel ffwlbert ar guert gaeaf.
Mwy corff gwadd, i'w lladd nis lluddiaf—i'r cog
60 Os llwdn cig a geisiaf;
Mae rhuad, er rhai y tystaf,
Mae branor i gyd â hôr haf,
Mae cloffi o'r cliffit bawaf,
64 Mae'r bendro ar y llo lleiaf,
Mae'r dafodwst, gwst gest achlaf,—oedog,
Ar 'n eidion, debygaf.
Gŵr a'i rhoes, gwyddiad foes fawaf,
68 Gorfynydd, gair fanon pringaf,
Gogeilwas gogulwan llesgaf,
Gogaled, gelyn cyfnesaf.
Gwerth isel eidion, gwarthusaf—unrhodd,
72 Yn anrheg nis mynnaf.

76 Pan golles llawes, lliwion—gwyw gimwch,
 Gogymaint corn sebon,
 Nid âi ar drai drwy afon
 Adwedd adref, dinref dôn.

80 Ni cheisiwyd erddo na chyson—ffeirau
 Na pheri daly lladron,
 Na thra-annog swyddogion
 Na threfi, na si na sôn.

84 Digio amdano [],—a chwilcais
 Mal am chwalcys yng ngwimon;
 Dimai ni chaid er f'eidion,
 Delai i'r ffair wyl Fair Fôn.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 215^r B—Card 4.140, 631 C—J 111, 1277 D—LIGC 4973B, 310^v E—Llst 147, 167 (*o'r cefn*) F—Pen 118, 215

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau'r llawysgrif

5 dywen. 10 c6kyll. 19 tramwed. 22 gadeba6c. 33 ysgymon. 34 llygrei llygrei rodyon. 36 y vry6n. 37 beth. 40 gan gas. 62 gyt ahor. 69 gegeilwas. 81 Digiab am dana6 a ch6ilkeis.

Teitl

Mada6c heuyt ae cant.

Dychan i'r llo

- Tprue! Lo y lloi, lleuog ei gynffon,
 Asyn i bryfed sy'n llawn colion;
 Rhoddwyd imi greadur cloff ei droed, llwynog disglair, diwerth,
 4 Elain coeg-denau, caglog ei din;
 Fe'i galwent yn eidion oedrannus, marw ei enau,
 Dim mwy na'r chwannen ar erchwyn gwely;
 Ni welwyd gan ŵr o galon Newylog
 8 Anfon y fath eidion uwch Rhiwedog;
 Morgrugyn crafangog, moelfyr, euog o lid, tyllog ei din,
 Maint cwcwll tyllog, ni thyr hual;
 Fel dyn trist iawn y'i rhoes llipryn ac arno losg eira,
 12 Llwdn tarw a oedd piau un cyfrwys llawn llau;
 Yn un gwrthodedig o blith epil hen fuwch, un crwydrol,
 Yn well na'r eidion calon ceiliog;
 Yn rhodd leiaf oll, yn lleuog ei goes,
 16 Ar lun cedor y wrach grach, grafangus.
 Cynnig imi fudredd drylliog, drewllyd,
 Gwell, myn Padrig, fuasai cynnig ceiniog imi;
 Blew gwrcath Mwrchath, nid marchog trwm ei wedd,
 20 Rhyfeddod i'r bryntni yw ei fod yn fyw.
 Fe'i ganed yn yr un oes â Chynog a Deiniol
 O hil hen fuwch foel Coel Godebog.
 Am gynnig imi greadur, llawes garpiog ei hymyl,
 24 A aeth ar goll ar dywydd poeth, gan daid Gello, g
 Melltith Mab Duw, yn swrth y'i rhydd,
 I'w dŷ a'i feudy o dai Madog.
- Tprue! Lo y lloi, llwm ei gynffon,
 28 Wyneb rhyfeddol ei hyd, croen o hil hen fuwch,
 Yn ddrwg y gwnaeth y sawl a'th wnaeth, diffygion buwch ddiffaith,
 Pa fath o weithred eirwir oedd addo eidion?
- Ymgynghorais â gwŷr doethion,
 32 Detholais, ceisiais nifer cyson,
 Daeth un esgymun, enynnydd pobloedd,
 Difetha'r addewid oedd hynny, difethai roddion.
- Addawodd yn rhodd, a'i anfon yn yr un modd,
 36 Ych cochddu na fyddwn yn ei fwrw o dan rai mawrion;
 Rhoi creadur araf, cam ei garnau fel twmpathau pry'r berth,
 Hyll, nid cyfwerth ag un o'r cywion.

40 Tuthiais a rhuthrais ar draws tiroedd gwyllt
 I geisio'r hyn a addawyd, argoelion cas,
 Cael cymar dyfriar, dwyfron ddi-lun,
 Gwan ei ffurf allan, nid yw'n pori meillion.

44 Yn hynod y'm twyllodd, myn Sain Simon,
 Diau, garw oedd cynnig (tarw pryfetach)
 I Fadog eidion oedrannus gwaradwyddus,
 Dwy ysgwydd hen ŵydd, ar ddydd o hindda.

48 Tprue! Lo y lloi, y lleiaf o wartheg,
 Ei werthu ni fedraf,
 Costus oedd i ddyn ei ddwyn hyd ataf,
 Rhodd brin sydd gennyf wrth fy modd i,
 Rhoddwyd creadur inni, yr anrhydedd lleiaf;
 52 Llo hwyr Gorffennaf lleuog ei wedd,
 Piblyd, ni chyfyd, ni chaf ddim amdano
 Ar ddiwrnod byr o hydref,
 Un bach diddannedd, bychan y'i gwelaf,
 56 O faint ffured, nid yw'n pori gwellt calaf,
 Anifail eiddil, ni phrydaf iddo,
 Ffwlbart moel yn llochesu rhag y gaeaf.
 Y mae corff gwahadden yn fwy, ni rwystraf y cogydd rhag ei lladd
 60 Os ceisiaf lwdn cig;
 Y mae rhuad, er rhai y tystiaf,
 Y mae branar ynghyd â llau haf,
 Y mae cloffni ar y ?creadur fforchdroed butraf,
 64 Y mae'r bendro ar y llo lleiaf,
 Y mae poen tafod, poen stumog glaf, oedrannus,
 Ar ein heidion, debygaf.
 Gwyddai'r gŵr a'i rhoes foes salwaf
 68 Gwas cogail (merchetaidd ei eiriau, mwyaf crintachlyd)
 Y mynydd-dir, main a gwan, mwyaf llesg,
 A garw, gelyn i gymydog.
 Eidion isel ei werth, y rhodd fwyaf gwarthus oll,
 72 Ni fynnaf mohono'n anrheg.

Pan aeth y llawes ar goll, lliwiau cimwch crin,
 Cymaint â chorn sebon,
 Nid âi ar drai drwy afon
 76 Adre'n ôl, yn dindrwm yr olwg.

Ni cheisiwyd er ei fwyn na ffeiriau cyson
Na pheri dal lladron,
Na chynhyrfu swyddogion
80 Na threfi, na si na sôn.

Digio amdano [] a chwilio
Fel am chwalcs mewn gwynon;
Ni cheid dimai am fy eidion,
84 Delai i'r ffair ar wyl Fair i Fôn.

11
Dychan i'r gwëydd

- Crist Arglwydd didrist, edryd—gyfiawnder,
Traws a galander tros y gleindyd;
4 Crair, Llywiawdr, Cofiaedr a'n cyfyd—ddyddbrawd,
Ciwdawd iawnfrawd, cedoedd unfryd.
Cymen Gadeirnen gedernyd—difreg,
Cain a ferthyr teg, cwynaf wrthyd:
8 Difa ystilwm, dufyd—areglydd,
Defnydd gwe newydd, gwae anniwyd.
Gwnaeth ynaeth hiraeth, nyth wryd,—brethyn,
Gwyn i gael ynglyn, yn gul anghlyd;
12 Gwlm gwyden goelbren, gulbryd—heb ereidr,
Gwrneidr, gormesleidr garw a myslyd.
Tincr greffryn brethyn, brithyd—a chwennych,
Dwyen a deurych Duw nyw deiryd;
16 Dihaeddwlân dilan, delw hwyddfryd—letbai,
Difdai gwaddotai, gwe a ddetyd.
Casgl ginglau, chwedlau chwydlyd—Gornefwr,
Crwydrwr, goganwr am gig Ynyd;
20 Cas bryf i wrthyf a wrthyd—cynghrair,
Crwydrffair coprs dwyfflair cipr ystifflyd.
Cribin danheddgrin anhuddgryd—gyntedd,
Crychwedd cryw nadredd, crown a edryd;
24 Crybwyll hwn a wn ennyd—y crocer,
Croen ellyll gwillmer, drigfer drygfyd.
Canaf, dyfalaf du fawlyd—gidwm,
Cerdd i ystilwm hirllwm horllyd,
28 Ci, aeth â'r olbrain, cythreulbryd—Satan,
Cwthr brân, galy garan a gël gwryd;
Crimogog, mysog, masw gerbyd—diflas,
Crynwas crych lliwlas, crach a lleulyd;
32 Cringrys traed efrllys tra dyfrllyd,—tinbleth,
Creth gwarag hyfeth, gwŷr a'i cyfyd.
Creawdr, Amherawdr, am wryd,—amen,
Crog fagl i'i ddwyen a gwyden gyd.
- 36 Gwŷs arno, gwyw ei seirnial,
Gwall mawr oedd, gwillmer eiddil;

Gwell gennyf, gwylliog annel,
Gwahodd ci no'r gwehydd cul.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 213^v B—Card 4.140, 625 C—J 111, 1273 D—LIGC 4973B, 306^v E—Llst 147, 162 (*o'r cefn*) F—Pen 118, 211

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgifau eraill un ai'n ymiongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau'r llawysgrif

1 gyfya6nd'. 2 aglander. 7 os dil6m. 9 enaeth. 11 G6ilym. 23 Kyrbwyll. 27 arol brein. 32 khyfeth.

Teitl

Idem mada6c dwygreic.

Dychan i'r gwëydd

- Crist Arglwydd dedwydd, datgan gyfiawnder,
 Esiaml gadarn dros sancteiddrwydd;
 Anwylyd, Meistr, Cofiwr a fydd yn ein cyfodi ar ddydd y Farn,
 4 Cyfiawn ei farnedigaeth ar dyrfa, unfryd ei ffafrau.
 Arglwydd rhagorol, perffaith Dy gadernid,
 Merthyr gwych a theg, cwynaf wrthyt:
 Difa un llwm ei ddull, un sy'n haeddu byd tywyll,
 8 O achos gwisg newydd, gwae ef, yr un diog.
 Parodd yno ofid dwys (un o faintioli nyth) am frethyn,
 Dymuniad i gael englyn, yn fain ac anniddos;
 Cwlwm rhaff grogi [fydd ei] ffawd, un main yr olwg heb yr un
 aradr,
 12 Sarff, lleidr rheibus garw a drewllyd.
 Tincer grefftwr brethyn, yd cymysg a chwennych,
 Ni pherthyn iddo enau a dwy rych Duw;
 Gwlân aflan wedi ei blicio, un balch a gwyrngam yr olwg,
 16 [Yn] anrheithdai heliwr gwaddod, y mae'n datod gwe.
 Cenglau o edafedd yn bentyrrau, hanesion Cernywiad chwydlyd,
 Crwydrwr, goganwr am gig Ynyd;
 Creadur atgas sy'n gwrthod cyfamod gennyf,
 20 Siop goperas grwydrol a'i drewdod yn ddwywaith gwaeth na chipar
 stifflyd.
 Cribin grin ei dannedd a'r cyntedd sy'n orchudd iddo yn ysgwyd,
 Â golwg grychlyd cawell nadredd, a chrawn yn treiglo [ohono];
 Gwn sut i grybwyll hwn yr ennyd y'i crogir ef,
 24 Croen ellyll taeog [ac ynddo] wayw arhosol anffawd.
 Canaf (dychanaf ddihiryn du, bawlyd)
 Gerdd i un llwm ei ddull, hirllwm, lleuog,
 Ci, aeth â'r olbrain, gwedd gythreulig Satan,
 28 Tin brân, cala crëyr sy'n celu ei wrhydri;
 Hen gerbyd heglog, drewllyd, ofer a diflas,
 Cnaf crychlyd a gwelw, crachlyd a llawn llau;
 Un crin ei grys â thraed-efrau, diffaith iawn a da i ddim,
 32 Osgo crwca methiannus, y mae gwÿr yn ei godi.
 Greawdwr, Arglwydd, am wyrth, amen,
 Magl grogi i'w enau a chortyn ynghyd.

 Gwyddys amdano, gwyw ei offer,
 36 Mai twyll mawr ydoedd, taeog eiddil;
 Gwell gennyf, cynllwyn ynfyd,
 Wahodd ci na'r gwëydd llwm.

12
Dychan i glerwr

- Llosgid tân rwyfan refr cidyll—haearn,
Fau osodau carn yn ei sidyll;
Llygoden felen ar foly cipyll—cŵn,
4 Yn Llun y sesiwn, llai no Seisyll;
Llywydd, mws wybrydd mis Ebrill—ar ffest,
Yn erbyniwr gwest, yn arw bennill;
Llanastr â byrgastr heb ergyll—brynhawn,
8 Llawn âb gul annawn heb gael ennill;
Lleitraf, min suraf, myn Sirill,—y’i gwnain’,
Llawdr chwain, min rhydain i mywn rhidyll;
Llwynog odidog, nid Idill—ffrwythlawn,
12 Llaw grawn, cwrp annawn, nid câr pennill;
Lletawd clêr waddawd, clo ar weddill—cath,
Modd bawci ar fath ni medd bicill;
Llindag llawdr mwndag lledr, mwndill,—coriar,
16 Llëyg wyd abar, llygad ebill.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 96^v B—J 111, 1359 C—LIGC 4973B, 143^r D—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams], 83^v E—Llst 137, 350

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i’r holl llawysgrifau eraill naill ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau’r llawysgrif

2 vu. 8 am ia6n.

Teitl

Mada6c d6ygreic ae cant.

Dychan i glerwr

- Llosged teyrnasiad tân din cudyll haearnaidd,
 Bydd ergydion carn [cyllell] gennyf yn ei gylch;
 Llygoden felen ar ochr boncyff cŵn,
 4 Ar ddydd Llun y llys barn, llai na Seisyll;
 Llywydd, crwydryn drewllyd mis Ebrill mewn gwledd,
 Yn dderbyniwr lletyaeth, yn arw ei bennill;
 Llanast [o ddyd] â chala fer heb awydd yn y prynhawn,
 8 Epa llawn, main a di-fudd heb gael elw;
 Yn fwyaf lladronllyd a sarrug, myn Sirill, y'i gwnaent,
 Llodrau chwain, ceg carw mewn rhidyll;
 Llwynog rhyfeddol, nid Idyll ffyniannus,
 12 Llaw sy'n cronni, haint anffodus, nid cyfaill pennill;
 Ymleda gwaddod y glêr, awdurdod ar faw cath,
 Fel ci budr tebyg i un nad oes ?un cae bychan yn eiddo iddo;
 [Boed] magl dy lodrau lledr yn tagu dy wddw, yr uwttfon, y
 betrisen,
 16 Lleyg llesg ydwyt â llygad ebill.

Dychan i fab y gof

- Mab y gof, glawr dof, Difiau—ni'm parchud,
 Perchen clap a chodau;
 F'annwyl, ni pharchaf finnau
 4 Wrthyd y twyll glefyd tau.
- Carn gostog gorog, gorau—yt dewi
 A dewis clafdyau;
 Cas feigr cest egr cos dagau,
 8 Clŷr a'th ffust a dust oedd dau.
- Cais gnap a gwna glap, glipiwr tamau—casgl,
 Cwsg o fywn odynau;
 Ffroena addail dy ffroenau,
 12 Ffrôr â o'th garnor yn ffrau.
- Coliog yw gweled ciliau—y llygaid,
 Mawr fydd llwgr cramynnau;
 Colles rhan o'th amrannau,
 16 Call glawr, cellwair fawr yw'r fau.
- Cyfod, ddrygwas cas, cais laeth bronnau—moch,
 Ymachub â'th glwyfau,
 Ac ir dy hun dy gluniau,
 20 Ac oer yw'r celwydd a gau.
- Cais glafres gynnes dan dy ginnau—'r nos
 Yn nesaf i'th arfau;
 Cymer rhag gwres glafesau,
 24 Cimwch, brynnig forwch brau.
- Bydd gywair ar ffair, cais offerau—claf,
 Clwyfus drwyn a gweflau;
 Eistedd, leidr ffrom, ar domau,
 28 Ymysg moch cais fail goch gau.
- Arch flawd, arch waddawd, arch weddïau—'r byd
 Herwydd bod yt angau;

32 Arch er y grog waedogau,
Arch i ŵr gwan ran o'r rhau.

Arch esgyrn a chyrn a charnau—defaid
Ac iraid o'r gorau;
36 Ymbil am wêr i'th fferau,
Ymddiosg rhag llosg y llau.

Cais draw gyfeiriaw goferau—Peras,
Poera d'olofynnau;
40 Mae rhwnc pell i'th bibellau,
Mawr fydd cosi clafri clau.

Rhai a ddêl, gochel, daly guchau—wrthun,
Mae erthwch i'th lefau;
44 Rhyfedd ben llechwedd lluchau,
Horyn tin, gan yr haint tau.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 210^r B—Card 4.140, 618 C—J 111, 1269 D—LIGC 4973B, 301^r E—Llst 133, 888 F—Llst 147, 157 (*o'r cefn*) G—Pen 118, 208

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau'r llawysgrif

1 myn parchut. 26 clóyf. 39 róng.

Teitl

Madaóc dwy greic ae cant.

Dychan i fab y gof

- Mab y gof, gwahanglaf ofnus, ddydd Iau nid oeddet yn fy mharchu,
Perchen claper a chodau;
Fy nghyfaill, ni pharchaf finnau
4 O'th herwydd dy glefyd twyllodrus di.
- Taeog llwyr a chrawnlyd, gorau fyddai iti dewi
A dewis claf dai;
Cardotyn atgas, bolsur a'th dagu'n llawn crafu,
8 Y mae pryfed yn dy faeddu a llwch oedd piau ti.
- Ceisia gnepyn a gwna glaper, glipiwr tameidiau a gasglwyd,
Cysga mewn ody nau;
Y mae dy ffroenau'n ffroeni hen ddeiliach,
12 Â crown o'th gornwyd yn llif.
- Garw yw golwg ciliau'r llygaid,
Mawr fydd anaf cramennau;
Diflannodd rhan o'th amrannau,
16 Gwahanglaf cyfrwys, mawr yw fy nghellwair i.
- Cwyd, was drwg atgas, ceisia laeth bronnau moch,
Esmwytha dy glwyfau,
Ac ira dy gluniau dy hunan,
20 Ac annymunol yw'r celwydd a gau.
- Ceisia ferch glafrllyd gynnes dan dy garpiau liw nos
Nesaf at dy daclau;
Cymer rhag gwres ferched gwahanglwyfus,
24 Cimwch, morlo drewllyd, brau.
- Bydd yn ddiwall mewn ffair, ceisia daclau claf,
Trwyn a gweflau clwyfus;
Eistedd, leidr dig, ar domennydd,
28 Ymysg moch ceisia fowlen goch gau.
- Gofyn am flawd, gofyn am waddod, gofyn am weddiau'r byd
Gan mai angau yw dy ran;
Gofyn er y groes am selsig,
32 Gofyn i ŵr gwan am ran o'i eiddo.

Gofyn am esgyrn a chyrn a charnau defaid
Ac eli o'r math gorau;

36 Ymbilia am sail i'th fferau,
Dadwisga rhag llosgfa'r llau.

Ceisla draw gyrchu goferau Peras,
Poera dy boerion;

40 Y mae rhwnc hir yn dy bibellau,
Mawr fydd cosi gwahanglwyf amlwg.

Gochel y sawl a ddêl, gwga arnynt,
Y mae dy ddolefau'n llawn tuchan;

44 Byddai rhyfeddod [hyd yn oed] ar ben llechwedd lluwchiog,
Lleuen din, at dy haint di.

14
Ystoria Ddeicyn

- Ystyried bobloedd ystoria—Ddeicyn,
Ni medd acr o dirda;
Helm drasur, hylam drwsa,
4 Hil gwrach, nid o ddwyach dda.
- Gwedy cael gafael ar gyfa—wenllys
Lle ydd oedd winllad gwyrda,
A'i seigio, Ddeicyn swga,
8 A'i barch gan gleroedd a'i ba,
- O'i gydfod isod ar fro Asa—Sant
Lle ydd oedd saint a chyrchfa,
Eithinog refr, aeth yna,
12 Foloch ddwyn, yn falch o'i dda.
- Lusiffer y glêr, gloria—faw ddicwst,
Fu Ddeicyn o'i draha;
Ceilliog penfrith, grach cwlla,
16 Caifn brân ydyw'r cefn heb ra.
- Trwy barth, trefn hirwarth, tra fu'n herwa—byd
Ar ôl bod yn wrda,
Bwyd fy nghâr oedd fwyara
20 A phys a phipgnau a ffa.
- Truan i groesan egroesa—perthi,
Nas porthai gardota;
Trist fu'r hyder o glera,
24 Trigwaeth nog ydd aeth ei dda.
- Profes arfer clêr, cloria—ireidlyd,
Ar dyle meddw gwacsa;
Profes â'i frat farchnata,
28 Profi rhai'n eu tai nid da.
- Profes, fân drotian, ledrata—ysgubau
O'r esgobawd yma;

- 32 Profes yn ogloff loffa,
Pryf baw, braint chwifaw brwnt chwa.
- Gwerthodd, oedd anodd oddyna,—’r gwrthban,
 Gwrthben ugain cachfa;
36 Gwerthu’r tabar er bara,
A gwerthu’r baltog ddu dda.
- A cholli’r rheibog, aeth ei chylla’n—lludw,
 Llwydwan withongl ronca,
40 A’i thymyr tlawd a’i thama,
A’i chaws drwg i’w gnaws a’i gwna.
- Sef a fynnai’r lleidr swefona,—gwibio
 A cheisio a chawsa;
44 Sothach o’i refr a saetha,
Seithfryd sathr, plegyd pla.
- Difiog leidr cipiog, copa—[] rhech,
 [] chwydfa,
48 A’i nod yw amod yma
Nis gwnaeth, a’r cyfryw nis gwna.
- Syniwch ar Ddeicyn a senna—pobloedd,
 Piblyd lyffant goerwa;
52 Durynd cat yn lledrata,
Deurudd oen, deryw ei dda.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 212^v B—Card 4.140, 623 C—J 111, 1272 D—LIGC 4973B, 305^v E—Llst 147, 161 (*o’r cefn*) F—Pen 118, 210

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i’r holl llawysgrifau eraill un ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau’r llawysgrif

5 geva. 12 voly. 15 grath. 26 g6assa. 28 yny tei. 42 acheissis. 45–6 rech ch6ytua. 50 gorerwa.

Teitl

Idem mada6c.

Ystoria Ddeicyn

- Bydded i'r bobloedd ystyried hanes Deicyn,
 Ni fedd erw o dir da;
 Tas sur iawn, sypyn gwair chwim ei naid,
 4 O hil gwrach, nid o ddwy ach dda.
- Wedi cael gafael ar lys teg cyfan
 Lle'r oedd gwirod uchelwyr,
 A'i fwydo, Ddeicyn aflan,
 8 A'i barch gan feirdd a'i wobwr,
- O'i gyfeillach isod ym mro Sant Asa
 Lle'r oedd gwŷr duwiol a chyrchfa,
 Tin eithinog, aeth wedyn,
 12 Dwyn blinder [oedd hyn], yn falch oherwydd ei gyfoeth.
- Lwsiffer y glêr, a'i din front yn arw ei phoen,
 Fu Deicyn oherwydd ei draha;
 Un ceilliog penfrith a'i gylla'n grachod,
 16 Trydydd cefnder i frân yw'r cefn heb ffwr.
- Trwy fro, trefn faith ei gwaradwydd, tra bu'n herwa'r byd
 Ar ôl bod yn wrda,
 Bwyd fy nghâr oedd mwyara
 20 A phys a phipgnau a ffa.
- Truan o beth i groesan oedd hel egroes o berthi,
 [Ac] nad oedd cardota yn fodd i'w gynnal;
 Trist fu ymddiried mewn clera,
 24 Teirgwaeth gwaeth nag yr aeth ei gyfoeth.
- Profodd arfer y glêr, tin flonegog,
 Ar wely meddwyn gwacsaw;
 Ceisiodd â'i frat fargeinio,
 28 Nid da oedd rhoi cynnig ar rai yn eu tai.
- Ceisiodd, hen drotian gwael, ladrata ysgubau
 O'r esgobaeth yma;
 Ceisiodd yn gloff iawn loffa,
 32 Creadur aflan, ei fraint oedd chwifio chwa front.

Gwerthodd, yr oedd hi'n anodd o hynny allan, y gwrthban,
 Pen draw ugain cachiad;
 Gwerthu'r fantell am fara,
 36 A gwerthu'r siaced ddu dda.

A cholli'r un reibus, aeth ei chylla'n lludw,
 Llwydwan, drwsgl ei chonglau, simsan,
 A'i thir tlawd a'i chwilota tameitiach,
 40 A'i chaws a'i gwna'n ddrwg ei thymer.

Yr hyn a fynnai'r lleidr oedd ymbil am wêr, crwydro
 A chardota ac ymofyn caws;
 Y mae sothach yn saethu o'i din,
 44 Trywydd dryslyd, o achos pla.

Lleidr milain, crafangus, corun [] rhech,
 [] chwydfa,
 A'i enwogrwydd yw addewid yma
 48 Na chadwodd mohono, ac nis ceidw [ychwaith].

Ystyriwch Ddeicyn sy'n gwawdio pobl,
 Llyffant piblyd oer ei chwa;
 Trwyn cath yn lladrata,
 52 Gruddiau oen, darfu ei gyfoeth.

Dychan i'r wrach

- 4 Gwrach ddieiriach grach, gwrych perth eirin,—fradw,
Gwrach achadw, gwrach hychin,
Gwrach hefis megis megin,
Gwrach hyfagl, gwrach flewswagl flin.
- 8 Gwrach aruthr, gwrach uthr, gwrach eithin—alaf,
Gwrach arwaf, gwrach erwin,
Gwrach egored gyffredin,
Gwrach garth, gwrach a tharth o'i thin.
- 12 Gwrach ddu, gwrach hirddu, gwrach orddin—drafael,
Gwrach rywael, gwrach rewin,
Gwrach eirwd, ysgrwd ysgrin,
Gwrach oeraf, lawn anaf lin.
- 16 Gwrach ysiad, oeswad yswin,—anghynnwys
Yr anghennos, wyrddin,
Gwrach ysgithrog ddisgethrin,
Gwrach ni ochel trafel trin.
- 20 Gwrach gallawdr, groenllawdr, grafenllin,—horog,
Gwrach lechog, gwrach lychwin,
Gwrach a breg yn ei chegin,
Gwrach aflsur, llywiadur llin.
- 24 Gwrach etwaeth, gwrach gaeth, gwrach gethin—letbai,
Gwrach flotai, gwrach flewtin,
Gwrach daer, gwrach maer mehin,
Gwrach hagrldawd heb wirawd win.
- 28 Gwrach sach, gwrach malach, gwrach melin—odyn,
Gwrach robyn, raib ddynin,
Gwrach ni'm dawr fawr, gwrach furgin,
Gwrach fantach, gwrach groenach grin.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 213^r B—J 111, 1274 C—LIGC 4973B, 307^v D—Llst 133, 887 E—Llst 147, 163 (*o'r cefn*) F—Pen 118, 212

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau'r llawysgrif

1 pyrth. 4 hyuagyl vleó sóagyl. 13 oesswat ys ysswin (*a ll. drwy'r ys*). 14 ynghennos. 17 grauellin. 21 ettaeth. 24 heb wiraótt heb win. 27 uaórr vurgin.

Teitl

Idem mad'.

Dychan i'r wrach

- Gwrach ddidostur, grachlyd a nychlyd, a'i gwrych [fel] perth eirin,
 Gwrach warchod, gwrach fochaidd,
 Gwrach a'i phais fel megin,
 4 Gwrach frech, gwrach flêr ei blew a blin.
- Gwrach aruthrol, gwrach arswydus, gwrach ag eithin yn gyfoeth,
 Gwrach arwaf, gwrach erwin,
 Gwrach agored, rydd i bawb,
 8 Gwrach garth, gwrach a tharth o'i thin.
- Gwrach ddu, gwrach hirddu, gwrach helbul gormes,
 Gwrach wael iawn, gwrach ddinistriol,
 Gwrach fwmial, sgerbwd mewn arch,
 12 Gwrach oeraf a'i glin wedi'i anafu'n llwyr.
- Gwrach sglaffiog—hwch na chaiff fyw—ffyrnig
 Y nos anghenus, dingam,
 Gwrach arw, greulon,
 16 Gwrach nad yw'n gochel helbul brwydr.
- Gwrach gawn â llodrau croen, sgrafellog, leuog,
 Gwrach lechwraidd, gwrach front,
 Gwrach a diffyg yn ei chegin,
 20 Gwrach sur ei gafl, pennaeth tylwyth.
- Gwrach eto fyth, gwrach gaeth, gwrach hyll, wyrgam,
 Gwrach-gardotwraig flawd, gwrach flewog ei thin,
 Gwrach daer, gwrach stiward bloneg,
 24 Gwrach hagr a thlawd heb wirod win.
- Gwrach sach, gwrach grawn mân, gwrach melin odynd,
 Gwrach ladrad, burgyn rheibus,
 Gwrach na faliaf fawr amdani, gwrach gelain,
 28 Gwrach ddiddannedd, gwrach a'i hen groen yn grin.

16
Dychan i Rucyn

4 Annedd goledoer anneg,—Nadolig
 Delais Rucyn hyfreg
 Ar barth rhwng dwy o'i wartheg,
 Ddyad chwain, heb ddiod chweg.

8 Heb gyhydrwydd medd, heb gyhydreg—lles,
 Na modd llys Dinorweg,
 Heb rost nac erchi gosteg,
 Heb rannau lletyau teg.

12 Eithr yn ochrwm, lwm wylameg—lygaid,
 Â'i lewgerdd ffiloreg,
 A'i war ar bentan carreg
 A'i din ar Hunydd grin greg.

Ffynonellau

A—Card 4.140, 626 B—J 111, 1273 C—LIGC 4973B, 306^r D—Llst 147,
163 (*o'r cefn*) E—Pen 118, 212

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r
llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni.
Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Teitl

Madoc.

Dychan i Rucyn

[Mewn] annedd oerllyd, gwael, adeg y Nadolig
Daliais Rucyn ddichellgar

Ar lawr rhwng dwy o'i wartheg,
4 A golwg chweinllyd arno, heb ddiod felys.

Heb gwmmi medd, heb gwrdd â lles,

Na moes llys Dinorwig,
Heb rost na mynnu gosteg,

8 Heb ddogneau lletyau teg.

Eithr yn grwm, a maglau ar ei lygaid llwm,

Â'i gerdd hy lawn oferedd,

A'i war ar bentan carreg

12 A'i din ar Hunydd grin groch.

17
Dychan i Dudur

Llyna'r mud a'r sud y sydd—i glerwr
Gyda'i gloriau newydd,
Ac e'n dyfod o'r rhodwydd,
4 Ac Ithael, w'r hael, a'u rhydd.

Ugeinhoel hëyrn i ogenydd—pell,
Ceiniog pwll i'r clochydd,
Ac elor Tudur gilydd,
8 A galar na bâr ni bydd.

Hen garthen ruddwen yn ei rhuddwydd—geirw
Am gorwgl y prydydd,
O deml hen gywarch domydd,
12 Damwain ond di-nain a'i nydd.

Pedair ystyllen, un mab bedydd—geifr,
O gyfran coed bronnydd,
Chwydlyd bryd bradw awenydd,
16 Chwedl da o gwedda 'n y gwÿdd.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 258^v B—Card 4.140, 673 C—J 111, 1407 D—LIGC
4973B, 368^r E—Llst 137, 333 F—Pen 118, 277

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r
holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni.
Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 155–6.

Darlleniadau'r llawysgrif

2 gyda gloryeu. 4 ithel. 7 ellor. 8 ac galar. 9 rôdwen. 10 pryd. 11 temyl. 12
ont dinayn. 13 pedyd. 15 ewenyd.

Teitl

Madaóc dógreic [*sic*] ae cant.

Dychan i Dudur

- Dyna'r eiddo a'r modd sydd i glerwr
 Gyda'i estyll newydd,
 Ac yntau'n dyfod o'r rhodfa goediog,
 4 Ac Ithel, y gŵr hael, sy'n eu rhoddi.
- Ugain hoelen haearn i oganwr pell [ei gri],
 Ceiniog am fedd i'r clochydd,
 Ac elor y gelyn Tudur,
 8 Ac ni fydd na galar na digofaint.
- Hen garthen wen ei grudd yn ei choed coch garw
 Am gelain y prydydd,
 O bentwr hen heliwr tom cywarch,
 12 Odid nad rhywun di-nain a'i nydda.
- Pedair ystyllen, unig fab bedydd geifr,
 O gyfran coed bronnydd,
 Awenydd chwydlyd, nychlyd yr olwg,
 16 Bydd yn newydd da os bydd i mewn yng nghoed [yr arch].

Nodiadau

1

Canwyd y farwnad hon¹ a'r farwnad nesaf i Ruffudd ab Madog ab Iorwerth o Lechwedd Ystrad² ar lan Llyn Tegid ym mhlwyf Llangywer ym Mhenllyn. Yr oedd Gruffudd yn ororwyr i Ririd Flaidd,³ un o uchelwyr blaenllaw Powys yng nghanol y ddeuddegfed ganrif. Tua dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg derbyniodd tad Gruffudd, Madog ab Iorwerth, diroedd ym Mhenllyn ac Ardudwy am ei wasanaeth i'r Goron.⁴ Nid oes cofnod o ddyddiad marw Gruffudd, ond bu farw ei dad tua 1315, a'i fab hynaf, Ieuan, yn 1395. Ceir corffddelw y naill yn eglwys Pennant Melangell, a'r llall yn eglwys Llanuwchllyn.⁵ Yn ôl tystiolaeth yr ail farwnad, claddwyd Gruffudd yn Abaty Glyn Egwestl ger Llangollen, ond ni chadwyd yr un gofeb iddo. Dichon, wrth reswm, fod ei gorffddelw wedi ei dinistrio. Awgrymwyd y posibilrwydd, fodd bynnag, fod Gruffudd wedi marw ar adeg pan lesteiriwyd y gweithdai gan y Pla Du⁶—trawodd y Pla yn 1349–50 ac eto yn 1361–2 a 1369⁷—ond ni ellir pwyso'n rhy drwm ar yr awgrym hwnnw. Daliwyd i groesawu beirdd ar aelwyd Llechwedd Ystrad yn ystod y bymthegfed ganrif; canwyd cywyddau i ddisgynyddion Gruffudd gan y bardd lleol Tudur Penllyn, yn ogystal â chan Guto'r Glyn a Lewys Glyn Cothi.⁸

Prif bwyslais rhan gyntaf y farwnad hon yw'r nawdd a estynnid i feirdd yn Llechwedd Ystrad tra oedd Gruffudd ar dir y byw. Mawrygir ei letygarwch i'r bardd, ei gymydog a'i gyfaill o Langywer. Bu i Ruffudd haeddu

¹ Ceir testun yn MA² 321 (llau. 1–50), 323 (llau. 51–86).

² Gw. ll. 19n.

³ Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Rhirid Flaidd' 1, 3. Ynghylch Rhirid Flaidd, gw. GCBM i, 290–1.

⁴ Gw. HPF vi, 68; Colin A. Gresham, *Medieval Stone Carving in North Wales: Sepulchral Slabs and Effigies of the Thirteenth and Fourteenth Centuries* (Cardiff, 1968), 178.

⁵ Gw. *ib.* 176–8, 196–8. Geilw Cynddelw Ririd Flaidd *Priodaŵr Pennant* (GCBM i, 23.9), gw. *ib.* 24.36n, ac yn Pen 138, 355 (c. 1562) sonnir am *Ririt flaidd a fŷ vchel arglwydd ar bwm plwy Penllyn, a Llyn, ac Eifionydd, a Ffennant Mylangell, ar Glyn* [darllener Bryn] yMhowys, ar vndref ar ddec yn Swydd Ymwythyc (dyfynnir yn *ib.* 291).

⁶ Colin A. Gresham, *op.cit.* 56.

⁷ Gw. W. Rees, 'The Black Death in Wales', yn R.W. Southern, *Essays in Medieval History Selected from the Transactions of the Royal Historical Society on the Occasion of its Centenary* (London, 1968), 187.

⁸ GTP cerdd 34; GGI² cerdd LXIV; GLGC cerdd 232. Gw. Glenys Davies, *Noddwyr y Beirdd ym Meirion* (Dolgellau, 1974), 138–40; Gruffydd Aled Williams, 'The Literary Tradition to c. 1560', yn HM ii, 577, 609; a cf. isod ll. 19n.

cerdd dafod cyn ei farw, ac yn dâl am ei gerddi gwobrwyyd Madog â bwyd a medd a dillad. Molir bonedd ei linach, ei gyfiawnder a'i gymedroldeb, ac yn arbennig yn y geiriau *Ni bu dlawd ym mrawd drwy gymrodedd—wir* (ll. 31), ceir awgrym iddo ymwneud â gweinyddiad y gyfraith.⁹ Ceir awgrym hefyd, efallai, iddo gymryd rhan yn ymgyrchoedd y Rhyfel Can Mlynedd yn Ffrainc,¹⁰ ac ar ei filwriaeth y canolbwyntir yn ail ran yr awdl, ynghyd â'r galar diymollwng amdano. Â gormodiaith ddisgwylidig, fe honnir bod llefain ar ei ôl drwy Gymru benbaladr, a chyn belled â Llyn Llumonwy ym mhellafoedd yr Alban. Ac eto, y mae yma ryw-beth dyfnach na chonfensiwn marwnadol. I Fadog syfrdan y mae'r cyfan fel breuddwyd, ac ni ellir llai nag ymdeimlo â dwyster ei golled. Collodd gyfaill yn ogystal â noddwr.

Yn ôl Llyfr Coch Hergest (colofnau 1267–8), dwy awdl sydd yma,¹¹ gan y ceir priodoliad i *Madaóc dwygreic* yn dilyn llinell 50; dilynir y Llyfr Coch ym mhob copi llawysgrif arall. Y mae'n bur annhebyg, fodd bynnag, fod Madog wedi canu cynifer â thair marwnad wahanol i'r un gwrthrych,¹² a chymerir mai caniad newydd a geir o linell 51 ymlaen. Cymharer marwnad Gruffudd ap Maredudd i Dudur Fychan ap Goronwy,¹³ sy'n ymrannu'n bum caniad a phennawd uwchben pob un ac eithrio'r olaf yn Llyfr Coch Hergest (colofnau 1206–11). Fel y sylwa golygydd yr awdl,¹⁴ yng ngholofnau 1165–9 ceir pennawd o flaen pob caniad o 'Ganu Tysilio' Cynddelw Brydydd Mawr, er gwaethaf y cyrch-gymeriad sy'n eu cydio ynghyd. Fe sylwir nad oes cyrch-gymeriad yn cydio'r ddwy ran yn awdl Madog Dwygraig, ond y mae hynny'n wir hefyd am farwnad Tudur Fychan, a cheir enghreifftiau eraill o awdlau heb gyrc-gymeriad rhwng y caniaidau.¹⁵ Anhawster pellach yw fod yr englyn agoriadol yn digwydd eto yn y llawysgrif ar ddiwedd y gerdd, gydag amrywiad gwallus (gweler darlenniadau'r llawysgrif isod). O gadw'r englyn yn y safle hwnnw—gyda chyrch-gymeriad rhwng y tri englyn a *Gwŷr o dir Cynyr a'i cwyn* yn llinell glo yn cyrchu'r llinell agoriadol *Cwynwn, fyd i gyd ...* (ll. 4)—buasai'n rhaid ei hepgor o

⁹ Cf. ei llysenw 'Crach-y-farn', P.C. Bartrum: WG1 'Rhirid Flaidd' 3.

¹⁰ Gw. ll. 12n.

¹¹ Cyflwynir llau. 1–50 fel cerdd gyflawn yn MA² 321.

¹² Sylwer, fodd bynnag, ar lau. 13–14 *Yn nheirllys y gwŷs, gwaig ddygnedd,—nad byw / Llyn teŷrnaidd lhw llin teŷrnedd*. Tybed na ellid llunio marwnadau gwahanol ar gyfer gwahanol ganghennau o'r teulu? Rheswm posibl arall dros lunio mwy nag un farwnad i'r un gwrthrych yw y byddid yn eu datgan ar ddyddiau a neilltuid ar gyfer coffâu'r meirw a gweddio dros eu heneidiau ar adegau penodedig wedi'r farwolaeth. Gw. Huw M. Edwards, 'Dwyn Marwnadau Adref', LICy xxiii (2000), 21–38. Canodd Gruffudd ap Maredudd awdl ac englynion marwnad i Oronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd, GGMD i, cerddi 6–7, gan ddilyn arfer rhai o Feirdd y Tywysogion; cf., e.e., GCBM i, cerddi 7–8. Posibilrwydd arall yw mai un awdl farwnad a ganodd Madog i Ruffudd mewn gwirionedd, gyda cherdd 2 isod yn ganiad sy'n perthyn i'r awdl hon, o bosibl ar ôl ll. 50.

¹³ GGMD i, cerdd 3.

¹⁴ *Ib.* 103.

¹⁵ Cf. *ib.*

ddechrau'r gerdd. (Go brin y buasai Madog wedi defnyddio'r un englyn ddwywaith mewn dwy farwnad wahanol.) Y tebygrwydd yw i'r copiyydd, yn hytrach nag ysgrifennu geiriau agoriadol y gerdd yn unig ar y diwedd i ddyodi'r cyrch-gymeriad â'r dechrau,¹⁶ ailadrodd yr englyn cyfan.

Yn y golygiad hwn, felly, fe welir bod *wlad Gynyr* y llinell glo yn cyrchu *Gwlad y'n trig trawsddig* yn llinell 1, a llinell 4 yn cyrchu llinell 5. Ceir cyrch-gymeriad hefyd rhwng llinellau 78 a 79. Yn ogystal â chyrch-gymeriad, atgyfnerthir unoliaeth yr awdl gan gymeriad llythrennol a geiriol estynedig, a chan ddefnydd celfydd o gymeriad cynganeddol sy'n arbennig o drawiadol yn llinellau 52–8. Dilynir yr englyn agoriadol gan ganiad ar fesur toddaid a chaniad arall o gyhydedd nawban. Cloir yr awdl â dau englyn unodl union gan gyrchu'r englyn ar y dechrau. Y mae cyfran y cynganeddion sain yn uchel, ac amryw o'r rheini'n bengoll; ceir sain deirodl (a chadwynog) yn llinell 58. Cynganedd braidd gyffwrdd a geir yn llinellau 6 a 71, a cheir enghraifft o'r bai 'camosodiad' yn llinell 33.¹⁷ Nid oes yma'r un gynganedd lusz.¹⁸

- 2 **gorllwyn** Dilynir GPC 1491 d.g. *gorllygaf*: *gorllwyn*¹ a'i ddeall yn e. 'cynllwynfa, rhagod, cyfragod'.
- 4 **tir Cynyr** Ardal Llanuwchllyn. Enw arall ar Gaer-gai yn Llanuwchllyn oedd Caer Gynyr, sef Cynyr Ceinfarfog, tad Cai; gw. WCD 186; TYP³ 311–12.
- 5 **cydwedd** Llsg. C *gybed*. Rhoddai *gywedd* 'cydymaith, cymar' gynganedd bengoll, ond derbynnir diwygiad G 271 d.g. *kywed* a 198 d.g. *kyr*¹ er mwyn y gynganedd gyflawn â *gyd*; *gydwedd* a geir yn amryw o'r llsgrau. eraill hefyd, e.e. llsg. G. Cf. y gwall copïo *hynawalch* am *hynaddwalch* yn ll. 16. Â *gydwedd*—*Mordaf* cf., e.e., GSRh 3.58 *Mordaf dy gydwedd*; GGDT 7.11 *cydwedd*—*Nudd*.
Mordaf Un o Dri Hael Ynys Prydain, gw. TYP³ 5–6, 451–2 a cf. 3.56.
- 6 **deuryw** Llsg. C *ardeuryb*, ond y mae'r ll. sillaf yn rhy hir fel y mae (nid awgrymir ei diwygio, fodd bynnag, yn GPC na G). Tebyg i'r copiyydd ailadrodd dechrau'r gair blaenorol ar ddamwain.
- 8 **beirdd ddiomedd** Fe'i deallir yn ymadrodd a. mewn perthynas â'r trosiad o'r noddwr fel bwrdd y wledd.
- 11 **ced** Defnyddir *ced* 'anrheg' yn aml yn ffigurol am un haelionus, gw. GPC 445.
- 12 **cynnif unfodd Ffranc** Y dehongliad mwyaf naturiol fyddai iddo frwydro yn yr un modd â'r Ffrancwr; gofyn Lloyd-Jones, G 510, ai fel

¹⁶ Cf., e.e., R 1294 (GSRh cerdd 10).

¹⁷ Gw. isod ll. 33n.

¹⁸ Tebyg mai damweiniol ydyw yn ll. 74 (sain bengoll).

- ‘patrwm o ymladdwr neu farchog gwych’ y defnyddir *Ffranc* yma. Tebyg mai mwy cydnaws â’r cyfnod, fodd bynnag, yw dehongliad Gruffydd Aled Williams o’r ll., ‘*a battle likewise against the Frenchman before his grave of stone*’ (HM ii, 552n), awgrym i Ruffudd gymryd rhan fel cynifer o’i gyd-Gymry yn yr ymgyrchoedd milwrol yn Ffrainc, gw. A.D. Carr, ‘Welshmen and the Hundred Years’ War’, *Cylchg HC iv* (1968–9), 21–46. O dderbyn hyn y mae *unfodd* yn taro fymryn yn chwithig, ond gall fod yn gyfeiriad, o bosibl, at filwriaeth ei dad o’i flaen.
- 13 **teirlllys** Sef, fe ymddengys, Trefgoed, Llechwedd Ystrad a’r *Taleithlys* y cyfeirir atynt yn y llau. canlynol.
- 16 **hynaddwalch** Llsgr. *C hynawalch*. Diwygir er mwyn y gynghanedd a’r ystyr. Rhestrir hon yn GPC 1974 yn unig enghraifft, â’r ystyr ‘milwr gwych yn torri i lawr ei elynion’ (*hynadd + gwalch*).
- 17 **Trefgoed** Trefgoed Seisyllt, mae’n debyg, ym mhlwyf Llanfor, ychydig i’r dwyrain o Lechwedd Ystrad, gw. Archif Melville Richards <www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr>, cofnod o’r flwyddyn 1583. Cofnodir e. brawd (hanner brawd?) Gruffudd yn yr achau fel ‘Gruffudd Trefgoed’, P.C. Bartrum: WG1 ‘Rhirid Flaidd’ 3, ac awgryma Bartrum yn betrus yn ei fynegai i enwau lleoedd, P.C. Bartrum: WG1, cyfrol v, mai rhywle ym Mhenllyn a olygir. Cofnodir un o feibion Gruffudd hefyd fel ‘Gronwy Trefgoed’, Person Llanddwyn ym Môn, *ib*.
- digeirdd** Ffurf l. yr a. *digardd* ‘gwych’ ac iddi rym enwol.
- 19 **Llechwedd—Ystrad** Cartref Gruffudd ap Madog gerllaw llyn Tegid ym mhlwyf Llanygerw, gw. Glenys Davies, *Noddwyr y Beirdd ym Meirion* (Dolgellau, 1974), 138–40. Fel y sylwodd Twm Morys, ‘Canu Dychan y Llyfr Coch’, *Barddas*, 200/01 (Rhagfyr/Ionawr 1993–4), 24, y mae Llechwedd Ystrad yn e. ar fferm wrth big isaf Llyn Tegid. Cf. disgrifiad Guto’r Glyn yn ei farwnad i ddisgynnydd Madog, Einion ap Gruffudd ap Rhys, GGI² 171 (LXIV.29–32) *Ostri oedd Llechwedd Ystrad, / A thref berchentyaeth rhad; / Ac ysbyty fry’n y fron / Gwynedd oedd annedd Einion*.
- 20 **difai ganwledd** Derbynnir dehongliad G 338 sy’n rhestru’r enghraifft hon fel a. ‘di-fai’; cf. LIDC 19 (11.13) *diuei devaud*. Gthg. trosiad Gruffydd Aled Williams, ‘*he consumed a hundred feasts*’ (HM ii, 552). Gall *difa* olygu ‘ysu, llwyr fwyta’, ond i’r 17g. y perthyn yr enghreifftiau o’r ystyr honno a restrir yn GPC 976 ac ymddengys hynny’n llai priodol yn y cyd-destun hwn.
- 24 **Pwyll un agwedd** Cyfeiriad prin at arwr cainc gyntaf y Mabinogi, Pwyll Pendefig Dyfed. Y mae cyfeiriadau’r beirdd at ei fab Pryderi yn fwy niferus o lawer, ond â’r ll. hon, cf. GDG³ 323 (122.7–8) *Pellennig, pwyll ei annwyd, / Pell ei siwrnai’r llatai llwyd, y gellir ei ddehongli’n*

gyfeiriad at Bwyll Pendefig Dyfed, gw. R. Geraint Gruffydd, 'Sylwadau ar gywydd "Offeren y Llwyn" Dafydd ap Gwilym', YB x (1977), 182. Efallai mai taith Pwyll i Annwfn sy'n egluro'r cyfeiriadau hyn; sylwer hefyd mai cosb Rhiannon yw *kynnic y westei a phellynic y dwyn ar y cheuyn y'r lllys*, PKM 21 (llau. 26–7).

- 25 **telid** Fe'i deallir yn ffurf amhrs.grff. yn hytrach nag amhrs.amhff. y f. *talw* yn yr ystyr 'haeddu'; cf. GDG³ 158 (59.27) *Gwawd a dâl, gwiwdo deil-lwyn*. Â'r cyfuniad rhethregol *Telid ... Talaf ...* yn llau. 25–7, cf., e.e., GDG³ 19 (7.7–8) *Telais yt wawd tafawd hoyw, / Telaist ym fragod duloyw*.

etifedd—deddfawl Cf. LIB 75 (llau. 26–8) *Or byd y perchenhawc tir etiued deduawl ac arall aneduawl, y deduawl a vyd etiued o gwbyl, a'r aneduawl heb ran*.

- 26 **oesfawl** Gall *oes* olygu 'hir ei barhad' mewn cyfuniadau ansoddeiriol, cf., e.e., *oesged* '?rhodd dragwyddol', GPC 2628.

- 27 **marwnawd** Gellid ffurf gyfansawdd o *marw* + *gnawd*, ond ni roddai hynny ystyr foddhaol. Yn GPC 2368 rhestrir y ffurf hon ac un enghraifft arall, T 66 (ll. 25), fel amrywiad ar *marwnad* gan nodi y gallai'r ddwy fod yn wallus; ond rhestrir hefyd enghreifftiau o'r ffurf *marwnod* o'r 17–18g.

- 29 **glew drosedd** Gellid ffurf dreigledig *llew*. Gellid hefyd ddeall yr ymadrodd mewn ystyr neg., 'tramgwydd garw', ond llai tebygol yw hynny; cf. ll. 9 *drawsfudd drosedd*.

ymlaen 'Ar y blaen' neu 'ar flaen y gad'. Cf. GIG 7 (II.53–4) *Anian mab Gruffudd, rudd rôn, / Ymlaen am ei elynion*; GDID 96 (XIII.35–6) *Mi a welaf fy Melwas, / Hywel, ymlaen â'i helm las*.

- 31 **ym mrawd** Awgrymir yn betrus yn G 237 d.g. *kymroded¹* y dylid diwygio *ymraôt* llsgr. C yn *gymraôt*, ond nid yw hynny'n angenrheidiol o ran ystyr na chynghanedd.

cymrodedd Eb. yma (cf. G 237) ond eg. yn ôl GPC 770.

- 32 **dydd dyhedd** Dydd cyni, h.y. dydd angau. Cf. GGMD ii, 15.2 *cyn dydd dyedd*.

- 33 **nid anghyfunai dangnefedd** Enghraifft o gamosodiad (gw. J. Morris-Jones: CD 298–9): *f/n* yn ateb *n/f*. Cf. 4.13. Gellid diwygio i'r ffurf anh. *anghynifai*—cf. a. *anghynnif* '?diog, swrth', be. *cynifio* 'llafurio, ymdrech; blino, poeni, cythruddo, erlid' (gw. GPC² a GPC d.g.)—ond rhy fentrus yn ddiau fyddai hynny.

- 35 **tolo** Rhestrir yr enghraifft hon yn GPC 3517 dan yr ystyr 'Sŵn (tonnau'n curo'n drwm), twrw'. Tybed nad twrw brwydr a olygir yma, gan ddisgrifio anian y noddwr yn ei lys ac ar faes y gad fel y gwneir mewn rhannau eraill o'r awdl?

- 39 **o'i** Ar *o'i* 'i'w', gw. GMW 53n.
- 41 **Merfyn** Merfyn Frych, sylfaenydd ail linach frenhinol Gwynedd, a fu farw yn 844, gw. TYP³ 245 a J.E. Lloyd: HW³ 323–4.
Gwyndyd Gall gyfeirio at wlad neu bobl Gwynedd.
- 44 **O'i blant, un i gant, yn ei gyntedd** Cf. GSRh 10.54 *A chanto o feirdd yn ei chyntedd*.
- 45 **Morien** Morien Mynawg, mae'n debyg, a grybwyllir yn yr Hengerdd ac fel un o farchogion Arthur yn 'Culhwch ac Olwen', gw. CA 168, 188; CO³ 7 (ll. 184), 73; cf., e.e., GC 2.105–6n; GIG 81 (XVIII.9). Â'r cyfeiriad hwn, cf. yn arbennig GGDT 6.72 *Morien ddysg*.
- 46 **nid âi ddoethineb** Ar dreiglo'r goddrych yn dilyn bf. 3 un.amhff.myn., gw. Treigladau 199, 214. Petrus yw'r aralleiriad. Gellid *nid â'i ddoethineb* yn yr amser pres. i olygu nad yw ei ddoethineb yn mynd i Wynedd bellach, ond ni rydd hynny ystyr foddhaol iawn. Sylwer nad atebir y gytsain *d* ar ddechrau'r ll., ond cf. yr *m* wreiddgoll yn ll. 28. Byddai'r ll. yn haws ei dehongli pe diwygid *nid* yn *neb* i greu cynghanedd sain: *Neb â'i ddoethineb ni ddoeth Wynedd*.
- 48 **eurlyw werin nef** Llu'r angylion, fe ymddengys. Cf. GLIG 7.12 *Engylion werin Dy fyddin fydd*.
- 50 **lyw Lechwedd Ystrad** Llsg. C *ly6 lochwed ystrat*. Cf. ll. 62 *Lladd i gennym ail llyw Ddegannwy*. Am enghreifftiau eraill o dreiglo e.p. yn dilyn eg., gw. Treigladau 105–9 (ni roddir enghraifft yno o dreiglo yn dilyn *llyw*, ond cf. ll. 62n).
- 52 **munerfab** Llsg. C *muner uab*. Y mae'r ffurf gyfansawdd yn gyson â'r cymeriad cynganeddol cryf sy'n parhau hyd l. 58.
- 53 **Garwy** Garwy Hir, arwr Arthuraid a oedd yn enwog fel milwr ac fel carwr, gw. TYP³ 356. Â'r ll. hon, cf. GSRh 6.41 *Garwy ar adwy, gwrol rediad—ffyrf*.
- 54 **mywn aerfa** Llsg. C *m6yn aerua*: gellid ystyr debyg i 'bendith byddin', ond ymddengys y diwygiad yn fwy naturiol. Cf. y diwygiad *o fwyn noddi* > *o fwyn noddi* yn 3.55; am enghreifftiau eraill o'r un gwall copïo yn y Llyfr Coch, gw. GPB 1.43; Bleddyn Owen Huws, 'Rhan o Awld Foliant Ddienw i Syr Dafydd Hanmer', *Dwned*, ix (2003), 59 (ll. 9).
- 56 **diwedd** Fel a. yma, mae'n debyg, 'olaf, terfynol'. Cf. R 1157.36–7 *kynn mynet ymbed amdiwed orwedua*; GBF 5.9 *O'e diwet uaenuet, uwynua6r aruaeth—hydyr* (Prydydd Bychan); GCBM ii, 16.30 *Kynn no'm d6yn y'm diwed garchar*.
- 59 **Deifrdir** Lloegr. Yn wreiddiol, y Deifr (cf. 3.78) oedd trigolion teyrnas Deira yn yr Hen Ogledd, gw. CA 82, yna'r Saeson yn gyffredinol.
- 61 **hirddefnydd** Cf. GCBM i, 21.11–12 [*dagreu digra6n ...*] / *Neu'm dot-*

yw defnyf, dyt dyuytla6n / Dyuod y gyfnod y Gadwallawn; GBF 48.31–2 Hir darpar galar ... / Hir defnyf a uyt o'e uetytlyab (Bleddyn Fardd).

- 62 **Ilyw Ddegannwy** Cf. GLIL1 9.1 *rwy Dygannwy*, cyfeiriad at Ruffudd ap Cynan fel arglwydd Degannwy yng nghwmwd Creuddyn a chantref Rhos yng Ngwynedd Is Conwy, safle un o brif lysoedd tywysogion Gwynedd, gw. GCBM ii, 4.2n; GSRh 3.28n. Gelwir Llywelyn ab Iorwerth yn *deyrn Degann6y* yn GDB 20.70. Posibilrwydd arall yw mai at Faelgwn Gwynedd y cyfeirir; ar ei gysylltiad â Degannwy, gw. TYP³ 430. Am y treigladd i'r e. lle yma, sy'n angenrheidiol ar gyfer y gynghanedd, gw. isod ll. 50n.
- 63 **Llëyn** Cf. ll. 67 a td. 75 troednodyn 5 uchod. Trigai Ieuan, un o feibion Madog, yn Nghefn Treflaith ym mhlwyf Llanystumdwy, gw. HPF vi, 68.
- 64 **aur gyfrwy** Cf. LIDC 72 (34.28) *eur kywruy kann*; GDB 8.10 *Eurgyfr6y gyfr6yd orwyd arwein* (Llywelyn Fardd II); GLIL1 22.6 *Llewychedic eur ar uy kyfrwy*.
- 65 **Dindaethwy** Cwmwd a chantref yn ne-ddwyrain Môn, gw. WATU 58.
- 66 **Llyn Llumonwy** Loch Lomond yn yr Alban, gw. R.J. Thomas, 'Enwau Afonydd â'r Ôlddodiad -wy', B viii (1935–7), 35, a cf. GLIL1 22.18 *Lloegywrthryn tra Llynn Llumonwy*.
- 67 **Cawnwy** Y mae'n debyg mai ffurf ydyw ar enw Afon Cownwy yn sir Drefaldwyn, fel y nodir gan R.J. Thomas, 'Enwau Afonydd â'r Ôlddodiad -wy', B vii (1933–5), 121. Awgrymir ei darddu o'r e.p. *Caw* (cf. *Cwm Cawlyd / Cowlyd*) + *-nwy*, gydag *aw* > *ow* ar lafar.
- 69 **ail Rhonabwy** Yn debyg i Ronabwy, a freuddwydiodd am deirnos a thridiau yn ôl y chwedl. Dyma'r unig gyfeiriad ato ym marddoniaeth y cyfnod: tybed a welodd y bardd destun Llyfr Coch Hergest o 'Breuddwyd Rhonabwy' ar aelwyd Hopgyn ap Tomas?
- 72 **Mawddwy** Y cwmwd nesaf i'r de o gantref Penllyn, gw. WATU 154, 293.
- 73 **yrddwyn orddwy** Ymddengys darlleniad llsg. C, *yrd dwyn erdwy*, yn ddiystyr. Diau mai ffurf dreigledig *gorddwy* 'gorthrwm, gormes, trais' yw'r ail air, cf. awgrym G 560, GPC 1472; yn yr un modd, awgrymir diwygio R 1271.10 *gerddwy* yn *gorddwy*, G 560; gw. 3.35n. Cymerir mai cyfuniad o'r a. *gwrdd* 'grymus' a'r f. *dwyn* yw'r ffurf gyntaf, cf. *treisddwyn* yn ll. 1 a'r ffurfiau *chwerwddwyn*, *trychddwyn*, &c., gw. G 404 d.g. *dwyn*. Cf. hefyd yr ymadrodd *gorddwy gyrddedd* yn GLIG 5.86 (marwnad Goronwy ap Tudur o Benmynydd) a aralleirir 'gorthrwm ffyrnig'.
- 74 **Hywel Gronwy** Llsg. C *hywel goron6y*. Rhydd y diwygiad l. nawsill. Ni ddaethpwyd o hyd i Hywel ap Goronwy yn achau Gruffudd ap

- Madog. Ceir awdl fawl ddienw o ddechrau'r 12g. i Hywel ap Goronwy a oedd yn aelod o linach frenhinol Rhwng Gwy a Hafren, a chanddo gysylltiadau ag amryw o'r llinachau brenhinol Cymreig eraill, gw. GMB cerdd 1. Yn ôl yr awdl yr oedd maes ei awdurdod yn cynnwys Meirionnydd, a gw. HM ii, 10–11. Efallai mai at hwnnw y cyfeirir yma.
- 75 **Gadwy** Llsgr. C *gadw*. Diwygir er mwyn y brifodl. Mab Geraint fab Erbin a enwir yn un o filwyr Arthur yn 'Culhwch ac Olwen' a 'Breuddwyd Rhonabwy' ac yn rhai o fucheddau'r saint, gw. TYP³ 303. Cf. awdl foliant Rhisierdyn i Oronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd, GSRh 4.92 *Eryl gedyrn arial Gadwy*. Nodir, *ib.n.*, mai *Cadwy* yw'r ffurf arferol ond y digwydd y ffurf amrywiol *Gadwy* yn 'Trioedd Ynys Prydain' (TYP³ 205) a chan Fadog Dwygraig. Dadleuir y gellir deall *Gadwy* neu ffurf dreigledig *Cadwy* yn awdl Rhisierdyn.
- 77 **nef** Ni rydd darlenniad llsgr. C *Naf* 'arglwydd' ystyr foddhaol. Gan fod *culwydd* 'arglwydd, pennaeth' yn cyfeirio bron yn ddieithriad at Dduw a Christ, gellir cynnig yr ystyr: 'boed i Dduw roddi nef iddo yn wobwr ddi-oed'.
- 83 **maengudd** Ceid cryfach cynghanedd sain o'i ddeall yn ddau air â *maen gudd* yn ateb *main gyr*, ond tebyg mai cynghanedd bengoll a fwriadwyd i gyd-fynd â rhediad naturiol y gystrawen. Cf. GBF 56.24 *Gruffut y maengut y mae* (Bleddyn Fardd).

2

Oherwydd y cyfeiriadau at ardal Penllyn, y mae'n deg tybio mai'r un yw'r Gruffudd a goffeir yn y farwnad hon¹ a gwrthrych y farwnad gyntaf. Gyda gormodiaith nodweddiadol, dywedir i Ruffudd herio'r Saeson gan fwrw estroniaid allan o Benllyn hyd Gastellmoch yn Nyffryn Tanat, ac iddo amddiffyn ei bobl o lan Afon Soch yn Llŷn hyd Goed Beloch, nid nepell o'i gartref. Dichon fod yma atgof o'r tiroedd y dywedir iddynt fod ym meddiant ei gyndaid, Rhirid Flaidd, yn y ddeuddegfed ganrif, tiroedd a oedd yn cynnwys Penllyn, Llŷn a Phennant Melangell.² Ac ym mhlwyf Llanystumdwy yn Eifionydd y trigai Ieuan, mab hynaf Gruffudd, am ran o'i oes.³ Fel y gwelwyd, cadwyd corffddelw Ieuan yn eglwys blwyf Llanuwchllyn, ac y mae honno'n gorffddelw filwrol.⁴ Yn ôl un ffynhonnell:

[Ieuan] lived in great credit and esteeme in the days of King Edward III,

¹ Ceir testun yn MA² 321.

² Gw. nodyn cefndir cerdd 1, troednodyn 5 uchod. Y mae Castellmoch yng nghwmwd Mochnant Is Rhaeadr a Phennant Melangell yng nghwmwd Mochnant Uwch Rhaeadr.

³ Gw. 1.63n.

⁴ Colin A. Gresham, *op.cit.* 196–8. Ceir darlun o'r gorffddelw, ac arni bennau blaidd, sef arwyddlun herodrol y teulu, yn *ib.* 195.

who allowed him an annual stipend for guarding and conducting of ye justice of North Wales with a companie of archers, whilst he should soejourne and stay in ye countie of Meirionydd.⁵

Canolbwyntir yn llwyr yn y farwnad hon ar ddewrder ei dad ar faes y gad ac ar ei gadernid di-syfl fel amddiffynnydd ei gyd-Gymry. Disgrifir ei gladded-igaeth yn Abaty Glyn Egwestl, lle'r oedd ei darian a'i waywffon i'w gweld uwch ei feddrod yn unol ag arfer cyffredin mewn angladdau uchelwyr yn y cyfnod.⁶

Y mae i'r farwnad strwythur clir ac effeithiol. Tri chwestiwn rhethregol sy'n ffurfio hanner cyntaf yr awdl, er mwyn cyfleu amddifadrwydd y bardd a'i gyd-alarwyr. O ran arddull a chyd-drawiad geiriol, y maent yn dwyn i gof gywydd marwnad Iolo Goch i Dudur Fychan o Fôn:

Beth o daw heibiau hebom
I'r Traeth Coch lynges droch drom,
Pwy a ludd gwerin, pŵl ym,
Llychlyn a'u bwyail awchlym?
Pwy a gawn? Piau Gwynedd?
Pwy a ddyrchaif glaif neu gledd?
Pwy nid ŵyl, penyd alar,
Pwy mwy uwch Conwy a'ch câr?
Gwedy marw y rhygarw rhugl,
Ffyniant hil naf Brynffanugl ...⁷

Wedi'r holi ofer, daw anogaeth daer ar i'r beirdd anrhydeddu'r cof am Ruffudd, ac yn debyg i ddiwedd y farwnad gyntaf ceir atgofion sy'n ingol o fyw o'i orchestion cyn ei farw. Yn glo ar yr awdl fer, ond dramatig, hon, try'r bardd i gyfarch y saint, gan ddymuno bywyd tragwyddol i enaid ei noddwr.

Fel cerddi 4 a 12, canwyd yr awdl yn llwyr ar fesur toddaid.⁸ Y gynghanedd sain sydd amlycaf—gyda dwy sain bengoll (llau. 1 a 15)—ond ceir cynghanedd draws mewn traean o'r llinellau. Nid oes yma'r un gynghanedd lusg.

- 1 **Nudd** Nudd Hael fab Senyllt, un o Dri Hael Ynys Prydain ynghyd â Mordaf a Rhydderch, gw. TYP³ 5–6, 464–6 a cf. 4.28, 35 isod. Annisgwyl yw'r cyfeiriad mewn cyd-destun milwrol.
- 2 **Gwnâi o Eingl gwaedlin, pergin purgoch** Cf. GGMD iii, 1.23 *Gwna*,

⁵ Geiriau Robert Vaughan, Hengwrt, a ddyfynnir yn HPF vi, 68.

⁶ Cf., e.e., GIG 34 (VII.47–56). Ar yr arfer o hongian arfwisg marchog uwch ei feddrod, gw. D.J. Bowen, 'Agweddau ar Ganu'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg a'r Bymthegfed', LICy ix (1966–7), 61; *id.*, 'Sylwadau ar Oes y Cywyddwyr Cynnar', YB vii (1971), 28.

⁷ GIG 17 (IV.39–48).

⁸ Gw. J. Morris-Jones: CD 339. Am enghreifftiau eraill o'r 14g., gw. GPB 111n3.

f'arglwydd gwawdlwydd, gwaedlin—gwyarwlych. ‘Amddiffynnydd, pennaeth, arglwydd’ yw ystyr gyffredin *pergin* yn y canu mawl, ond yn GPC 2774 cynigir yn betrus ystyr arall, sef ‘gwaywffon’, a byddai hynny’n gweddu yma. Felly y’i dehonglir yn y ll. hon yn DGG² 224, lle yr awgrymir y gall fod yn gyfuniad o *pâr* ‘gwayw’ a *cainc*, cf. *gwialgeing*. Ceir yr un trawiad cynganeddol yn GDG³ 424 *Pergyn ei dudedd purgoch* (marwnad Madog Benfras i Ddafydd ap Gwilym).

- 3 **o Benllyn** Llsg. *C bennllyn*. Drwy ychwanegu’r ardd. ceir ll. ddec sill a gwell ystyr; ceir yr un diwygiad gan Siôn Dafydd Rhys yn llsg. F a ddilynwyd gan lsgrau. A, B a D.
- 4 **Castellmoch** E. lle ym mhlwyf Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn Nyffryn Tanat, gw. WATU 37, i’r de-ddwyrain o Benllyn.
- 5 **weithan, hoedran** Llsg. *C weithon hoetron*. Y mae *weithon* yn ffurf ddilys, ond anos esbonio *hoedron*. Ai *hoed* ‘hiraeth, tristwch, galar’ a *rhôn* ‘gwaywffon’ neu’n ffig. am arglwydd? Mwy ystyrion yw diwygio’r ddwy ffurf er mwyn y gynghanedd sain, yn enwedig gan fod *hoedran* yn digwydd mor aml ym marwnadau’r beirdd.
- 6 **o daw** Llsg. *adaþ* ‘a ddaw’, ond ceir gwell ystyr o’i ddiwygio ac y mae’n haws esbonio’r treigladd i *llynges*. Cf. GIG 17 (IV.39–40) *Beth o daw hebiaw hebom / I’r Traeth Coch llynges droch drom ...*
- 7 **Soch** Yr afon sy’n llifo i’r môr yn Abersoch yn Llŷn.
- 8 **Coed Beloch** Yn Archif Melville Richards <www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr> cofnodir *beloch* (1559–60) yn ffurf amrywiol ar enw Afon Meloch. Y mae’r nant yn codi ar y Foel Goch ac yn llifo i Afon Dyfrdwy y tu isaf i Lanfor (EANC 28), ychydig filltiroedd i’r gogledd-ddwyrain o Langywer. Cf. EWSP 415 *Keis dyfrdwy yn ei therfyn / o weloch hyd Traweryn / bugail lloe [llanfawr] llwybryn* (‘Gwahodd Llywarch i Lanfawr’, CLIH V), a gw. *ib.* 540. Diau fod Coed Beloch yng nghyffiniau cymydau Is Meloch ac Uwch Meloch ym Mhenllyn, gw. WATU 96, 219.
- 9 **Gwedy yng Nglyn Egwestl ...** Cywasger *Gwedy* yng er mwyn hyd y ll. Cymerir bod yr ystyr yn goferu i l. 12: *Gwedy yng Nglyn Egwestl ... Gweled ...* Yn nhir abaty Sistersaidd Glyn Egwestl neu Lyn y Groes ger Llangollen y claddwyd Gruffudd.
- 13 **honoch** Ffurf amrywiol ar *ohonoch*, gw. GPC 2610 d.g. *o*¹. Y mae *ohonoch*, llsg. C, yn peri bod y ll. sillaf yn rhy hir, a disgwyliid cyfatebiaeth â’r calediad *bh* > *p* yn *Pob hynaif*.
- 17 **A mach ar gamawn ...** Ffurf un. *meichiau* yw *mach*, ‘un sy’n mynd yn gyfrifol am sicrhau cyflawni contract, am ymddangosiad rhywun mewn llys, &c., gwarantwr dros dalu dyled, dros wirionedd honiad’, GPC 2299; cf. *mach ar gyfraith*, a’r ymadrodd *Duw’n fach*, *ib.* Yr ergyd yw

fod Gruffudd yn llawn sicrwydd mewn brwydr.

- 18 **fflamygau** Unig enghraifft. Dilynir awgrym G 506, GPC 1293: *fflam* + *gwg*.
- 20 **rhuddgoch** Llsgr. C *durgoch*, a rydd y camosodiad *arwyddgoeth* / *ddurgoch*. Er bod enghreifftiau eraill o gamosodiad yng nghynghanedd Madog Dwygraig—gw. 1.33n—rhesymol yn yr achos hwn, yn enwedig felly gan fod *durgoch* yn safle'r brifodl yn ll. 12, yw diwygio i'r ffurf gyffredin *ruddgoch* sy'n gweddu i'r cyd-destun ac yn sicrhau cynghanedd gyflawn. (Diwygiwyd i *ruddgoch* gan John Davies, Mallwyd, yn llsgr. D.)
- 22 **Dŷ aur bennaeth nef yd erbynnoch** Cf. LIA 28 (llau. 6–7) *ynep aerbynnho ef y lys nef*. Ynghylch y gystrawen hon sy'n hepgor yr ardd. *i*, gw. CA 84–5 a cf. 1.46 uchod *ni ddoeth Wynedd*. Cymerir bod *i nef atoch* yn ll. 24 mewn cyfosiad â *Dŷ aur bennaeth nef*.
- 24 **nawfetydd** Gw. GPC 2557–8, a cf. HMSS ii, 247 (llau. 3–4) *Ac ympen y nawuettyd y doeth y vynyd*. Ymddengys mai gofyn am gael byrhau cyfnod Gruffudd yn y Purdan y mae'r bardd.

3

I saithdegau ac wythdegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg y perthyn y dystiolaeth am Forgan ap Dafydd ap Llywelyn o Rydodyn yng nghwmwd Caerwysg yn sir Gaerfyrddin. Fe'i rhestrir yn un o siedwyr y sir yn y blynyddoedd 1377–80, ac yn 1381–2 yr oedd yn gwarchod ystadau Syr Rhys ap Gruffudd ym Maenordeilo nes i'w aer ddod i oed.¹ Y mae'n adnabyddus fel gwrthrych 'Cywydd y Cwest' o waith Gruffudd Llwyd,² cywydd yn galw ar Syr Dafydd Hanmer i ddod i Gaerfyrddin i wrando achos Morgan wedi iddo gael ei gyhuddo o fod â rhan yn llofruddiaeth y Dirprwy Ustus John Lawrence ar 5 Hydref 1385 wrth iddo deithio rhwng Caerfyrddin ac Aberteifi. Ar sail y cyhuddiad dyddir y cywydd i'r cyfnod 1385–7, gan fod Syr Dafydd Hanmer yn farnwr yn llysoedd y brenin Rhisiart II rhwng 1383 ac 1387. Enwa Gruffudd Llwyd ddeuddeg o feirdd cyfoes a allai ffurfio'r rheithgor, ond nid yw Madog Dwygraig yn eu plith.

Ceir yn yr awdl hon³ ambell gyfeiriad digon confensiynol at rinweddau milwrol Morgan ap Dafydd, ond ar haelioni ei lys y mae'r pwyslais pennaf. Fe'i molir fel noddwr beirdd digyffelyb sy'n rhagori ar y Tri Hael eu hunain, ac yn enwedig yn llinellau 43–6 fe bwysleisir yr hen gyd-ddibyniaeth rhwng bardd a noddwr. Ceir elfen annisgwyl o hunanbortread smala yn llinellau 63–74, wrth i Fadog ei ddisgrifio'i hun yn *llafurio* mawl Morgan *geir gwawl*

¹ Gw. R.A. Griffiths: PW i, 319. Casglwyd y dystiolaeth amdano yn GGLI 240–2.

² Ceir golygiad o'r gerdd yn GGLI cerdd 10, ac ymdriniaeth â'i chefnidir yn *ib.* 240–2.

³ Ceir testun yn MA² 322–3.

gweilgi ac yn llamu'n noethlwm drwy Ddeheubarth ar ei daith o Benllyn dros Afon Dyfi ac i lawr i Gaeo. Gwelir yma ryw faint o'r agosatrywydd lled anffurfiol hwnnw sy'n nodweddu cywyddau Dafydd ap Gwilym i lysfrawd Morgan, Ifor Hael,⁴ neu ddisgrifiad Iolo Goch o daith glera yng nghywydd 'Ymddiddan yr Enaid â'r Corff'.⁵ Meddylir hefyd am ddisgrifiad Llywelyn Goch ap Meurig Hen o'i daith yntau o lannau Dyfi i Ynysforgan yn ei awdl foliant i Hopgyn ap Tomas:

Hwylaf, addefaf, o Ddyfi—ardal
 Trwy ochel Pennal, tryfal trefi,
 Dieres goethynt dros Gothi,—Dulas
 I Feddyfnych blas heb fodd ofni,
 Trwy Lwchwr at wŷr ni ad torri—ffydd,
 A thraw i'i geirydd, ni thry gwyri ...⁶

Fel Llywelyn Goch, ymddengys i Fadog Dwygraig fynd ati'n fwiadol i ystwytho mynegiant yr awdl draddodiadol, o bosibl dan ddylanwad y cywydd.⁷ Diweddir yr awdl â moliant i dras a thegwch a haelioni gwraig Morgan, Lleucu. Y mae'r delweddu—barrug, eira a heulwen lachar—yn perthyn i draddodiad y rheiingerdd,⁸ ac efallai'n adlewyrchu ystyr ei henw, sef 'goleuni'.

Yn llinellau 1–30 ceir dau englyn unodl union, englyn proest, englyn unodl union eto, dau englyn proest eto, ac englyn proest chwe llinell. Cysylltir pob un o'r penillion hyn â chyrch-gymeriad, a cheir cyrch-gymeriad hefyd â dechrau'r caniad nesaf (llau. 31–86), sydd ar fesur gwawdodyn. Cloir yr awdl, fel y cychwynwyd, ag englyn unodl union. Ceir cymeriad llythrennol a chynganeddol celfydd; sylwer, er enghraifft, ar y cymeriad *ll*-yn y tri phennill i Leucu (llau. 75–86), nodwedd sydd eto, mae'n debyg, yn adlewyrchu ei henw. Cynghanedd sain sydd mewn ychydig dros hanner y llinellau, a phump yn unig o'r rheini sy'n bengoll. Ceir sain ddwbl yn llinellau 75 a 76. Ceir dwy gynghanedd lusk yn yr englynion proest (llau. 9 a 19), a chynghanedd braidd gyffwrdd yn llinell 47.

- 1 **I fwyty pobloedd ...** Llsgr. C *V6yty pobloed*. Rhydd yr ardd. i l. ddec sill (cf. amryw o'r llsgrau. diweddarach), er bod darlleniad y Llyfr Coch yn ddigon ystyrllon, cf. ll. 19 *Myned wlad fy mhenadur*, ll. 71 *ydd af Ddyfi*; 1.46 *ni ddoeth Wynedd*, 2.22 *Dy aur bennaeth nef*, 7.34 *i'n*

⁴ GDG³ cerddi 7–10. Ynghylch y cysylltiad teuluol, gw. E.R.Ll. Davies ac E. Edwards, 'Teulu Ifor Hael a'r traddodiad nawdd', YB xii (1982), 143–56; rhoddir sylw yn yr erthygl i'r awdl hon ac i gerddi eraill i linach Rhydodyn.

⁵ GIG cerdd XIV.

⁶ GLIG 6.21–6.

⁷ Cf. Eurys Rolant, 'Arddull Canu Moliant y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg', YB x (1977), 144–56.

⁸ Am ddadansoddiad o ddelweddaeth y rheiingerdd draddodiadol, gw. T. Gwynn Jones, *Rheiingerddi'r Gogynfeirdd* (Dinbych, 1915).

gollwng uchelder. Go brin mai trosiad am Forgan yw *bwyty pobloedd*, ond cf. ll. 16n ar *meddgell*.

- 3 **Tywi Ystrad** Ystrad Tywi, ardal sy'n cynnwys y Cantref Bychan a'r Cantref Mawr, gw. WATU 227.
- 5 **tadmaeth prifeirdd heirdd** Cf. GDG³ 67 (23.21–2) *Tadmaeth beirdd heirdd, a'm hurddai*, / *Serchogion mwynion, yw Mai*. Cyfeiria Madog Dwygraig ato ef ei hun fel *prifardd* yn ll. 65.
- 11–12 **Anodd ... / Ennill ei gyfryw** Cf. GGMD iii, 5.1–2 *Haul Wynedd neud bedd ... / Heb ennill ei chyfryw*.
- 15 **anegydd** Ffurf amrywiol ar *negydd* 'gwadwr, gwrthodwr, un crintachlyd', gydag *a-* brosthetig, gw. GPC 2564.
- 16 **meddgell** Y llys ei hun neu ddisgrifiad trosiadol o'r noddwr. Cf. GLIG 4.7–8 *Meinlew ail mwyn Lywelyn*, / *Meddgell ddfachell, Fychan*; GGMD i, 3.18 *Trafn Tre'rcastell, feddgell fuddgar*.
- 23 **mywn ystyr clod** Cymerir bod *ystyr* yn golygu 'achos, rheswm' yma (ond cf. Llyd.C. *ster* 'natur, dull'), gw. GPC 3870 d.g. *ystyr*¹. Y mae Morgan, felly, yn tywallt diod i'r beirdd oherwydd eu moliant iddo.
- 24 **o Ddwyfawr Ddyfed** Ar y diffyg ardd. yma i gyfleu 'i' neu 'hyd at', cf. GGDT 6.28 *Llew diymryson o Fôn Forudd* (Gwilym Ddu o Arfon).
- 25 **pan** Fe'i deallir yn rh.pth. yn hytrach na chys., yn dilyn ymadrodd adferfol yn cynnwys yr ardd. *o* ac o flaen bf., gw. GPC 2678 d.g. *pan*⁴ (c), GMW 79–80. Â'r ll. hon, cf. yn arbennig GDG³ 137 (51.27) *Ac o Wynedd pan henyw*.
- 26 Cywasger *lle ydd* er mwyn hyd y ll.
- 28 **berthog** A. mewn ystyr enwol, 'dyn cyfoethog'; cf. GGI² 26 (X.27) *Berthog a thlawd a borthir*. Ymddengys ei fod yn treiglo'n feddal oherwydd y sangiad *ac ni welir*. Gellid deall *Ferthog* (... *Castell*) yn sangiad, ond cymerir mai rhediad y frawddeg yw *Ni weled er pan fu Arthur ferthog castell cystal y gŵr*, yn hytrach na *Ni weled er pan fu Arthur cystal* (= neb cystal â) *y gŵr*.
- Arthur** Cf. 4.48.
- 30 **cost daly gŵyl** Rhydd darlleniad llsg. C *cost dalu gŵyl* sillaf yn ormod. Dilynrir J. Lloyd-Jones sy'n rhestru'r enghraifft hon yn G 736 d.g. *gŵyl*¹: '*dalu* (=daly) / g.' (y mae hynny'n llai o ddiwygiad na hepgor y fan. a darllen *cystal gŵr*). Cf. GDG³ 36 (13.77) *ddaly gŵyl—barchus*.
- 31 **ansoddi** Yn GPC² 369 dyfynnir yr enghraifft hon dan yr ystyr '?darparu (?gwledd) (i)'; cf. *ansawdd* 'bwyd, danteithfwyd', *ib.* 367.
- 33 **Beli Mawr** Beli Mawr fab Manogan, un o hynafiaid chwedlonol y Cymry. Hawliai pob un o'r prif freniniaethau Cymreig eu bod yn hanu o'i linach, gw. TYP³ 288–9; WCD 38–9.

- 35 **gorddwy** Llsgr. C *Gerdwy*. Diwygir gan ddilyn G 560 d.g. *gordwy*; ceir yr un gwall copïo yn 1.73.
- 36 **Drystan** Drystan (neu Trystan) fab Tallwch a oedd yn batrwm o'r arwr delfrydol i'r beirdd. Gw. TYP³ 331–4; WCD 619–21, a cf., e.e., GGMD i, 2.33n.
a Yn yr ystyr *o*, gw. GMW 37 a cf. isod 9.30n.
llaw Am yr ystyr 'awdurdod, rheolaeth, llywodraeth, gallu', gw. GPC 2104.
- 37 **gwarant** Cf. GLIL1 23.160 *Cadyr eryr, y'th wyr yn warant*; GDB 5.9 *Kymry wa6r warant!* (Einion Wan); ac yn arbennig GGMD i, 4.130 *Gwarant hawl anant o haelioni*.
- 39 **gwlad Geri** Cwmwd ym Mhowys ar y ffin â Lloegr, gw. WATU 41, 255. Â llau. 39–40, cf. GDG³ 233 (85.21–3) *Perais ... / Prydu a chanu ei cherdd / I'r glêr hyd eithaf Ceri*, *ib.* 24 (9.7) *Gorau gwraig hyd ar Geri*.
- 40 **coron** Yn yr ystyr ffig. 'pennaf peth, uchafbwynt, cyflawniad', GPC 565. Cf. GDC 3.47 *Coron yw Hopgyn* (Dafydd y Coed).
- 42 **ym mhen Deifi** Llsgr. C *ymen deifi*. Cymerir mai tarddle Afon Teifi a olygir, er mai anodd esbonio'r treigladd meddal i enw'r afon. Gw. GPC 2726–7 d.g. *pen*¹, ystyr 2 (a), a cf. LL 78 (ll. 2) *ipenn nant eilon*.
- 43 **ail Bryderi** Geilw Dafydd ap Gwilym ei ewythr Llywelyn ap Gwilym yn *ail Bryderi*, GDG³ 32 (12.40). Diau mai cysylltiad arwr y Pedair Cainc â Dyfed sy'n arwyddocaol yn y ddwy gerdd; gw. PKM 157–8; TYP³ 486. Cysefin yr e.prs. sy'n arferol gan Fadog Dwygraig yn dilyn *ail* (cf. 1.45, 53, 69), ond â'r treigladd yn y ll. hon, cf. GGrG 8.38 *Oeddwn ail Gynog, neu ail Gynon*.
- 46 **Eilifri** *Elifri* yw'r ffurf fwyaf cyffredin ar yr e. Pen macwy yn llys Arthur yn ôl rhamant 'Geraint ab Erbin', gw. R.L. Thomson: Gereint 2, 21, 61–2. Cyfeirir ato gan y beirdd o'r 12g. ymlaen fel patrwm o ddewrder a haelioni, gw., e.e., GLIL1 2.49n; GGMD i, 4.135n.
- 47 Cynghanedd braidd gyffwrdd. Ceid cyflythreniad cryfach pe diwygid *Duw i dyn: Hir y'i gato dyn ... / Hwyr y'i dycer Nêr ...* Pe diwygid *Duw i Iôn* ceid cynghanedd lusg.
- 49 **edryd cri—arglwydd** Nid yw ystyr y sangiad yn eglur. Yn G 493 rhestrir yr enghraifft hon o *edryd* dan ystyr 2 'eg. datganiad, mynegiant, cyhoeddiad; a *ba*. datgan, cyhoeddi, traethu'. Byddai ystyr 1 (ii) 'gwehelyth, tras' yn gweddu mewn perthynas ag *arglwydd*, ond beth, felly, fyddai arwyddocâd *cri*? Ymddengys fod y geiriau hyn yn dywyll i J. Lloyd-Jones yntau; yn *ib.* 175 d.g. *cri*¹ rhestra'r enghraifft hon yn betrus: '?edryt k. arglwyd'. Ai datganiad y bardd yw *cri—arglwydd*?

- 52 **dwyfoes** Ai milwriaeth a haelioni?
hoiwgler ddofi Cf. GLIG 6.7 *llawen ddofi—clêr* (am Hopgyn ap Tomas o Ynysforgan); GBDd 6.7 *dofi cerddau* (am Goronwy ap Tudur Hen o Dreicastell).
- 54 **Dewi** Sef Dewi Sant. Ymddengys ei fod yn brif sant erbyn cyfnod Beirdd y Tywysogion, gw. GCBM i, 21.75n. Anghyffredin, fodd bynnag, yw'r cyfeiriad at haelioni Dewi.
- 55 **o fwyn noddi** Llsg. C o *vybn nodi*. Ymddengys *fwyn* yn fwy ystyrllon yma; tybed nad y gair *mywn* yn y ll. nesaf a achosodd y camgopïo? Ar y gwall arbennig hwn, gw. 1.54n.
- 55–7 **Nudd ... / ... Fordaf ... / ... Rydderch** Tri Hael Ynys Prydain, cf. 1.5n, 2.1n. Mynega'r bardd ragoriaeth ei noddwr ar y drindod hon: llau. 59–61 *Deuwell yw Morgan / ... / ... no'r tri o'r Gogledd*; am yr un syniad, cf. , e.e., GLILl 2.29–30, 26.103–6; GLIBH 8.43; GDC 3.59–60.
- 57 **Diserch fu Rydderch i roddi—trysor** Cf. GBF 53.27 *Eur disserch Rydderch roddyon* (Bleddyn Fardd).
- 58 **ffylor** Tebyg mai *ffylor* sydd yma yn hytrach na ffurf dreigledig *pylor* (llsg. C *affylor ... a phali*). Nid yw'r ystyr a roddir i'r ffurfiau hyn yn GPC 1333, sef 'llwch, powdr' (cf. G 515; GC 7.8n; GPB 9.98), yn gweddu yn y cyswllt hwn. Teg tybio mai at fath o ddefnydd neu ddilledyn y cyfeirir. Gall fod yn fenthyciad o'r H.Ffr. *velour, velous* 'melfed' a roes y S. *velure* (enghraifft gynharaf 1587, OED², xix, 491). Cf. hefyd S.C. *feloure 'foliage'* (enghreifftiau o'r 14–15g.), *ib.*, v, 822, H.Ffr. *feuilleure, fuilluire, &c.*, a ddefnyddir i ddisgrifio addurn ar ddillad; cf. *Chappe vert semee d'oyseaux et de plusieurs autres feullures* (*Dictionnaire de l'Ancienne Langue Française* (Paris, 1884), iv, 170); *Le sauz se tint en sa vesture ... D'escorce et de fuilluire* (*Anglo-Norman Dictionary* (London, 1992), 321). Am y cyswllt ag aur, cf. *With feylour as of fine gold* (*The Wars of Alexander*, ed. W.W. Skeat (London, 1886), 5004).
- 61 **Paul** Sef yr Apostol Paul; arno, gw. GGLl 2.37n. Er mai *Pawl* yw'r ffurf gyffredin, diwygiwyd darlleniad llsg. C *paöl* er mwyn yr odl â *traul* yn y gynghanedd sain. Dichon mai'r ffurf estron ar yr enw sy'n gyfrifol am y diffyg treiglo yn dilyn yr eb. *deddf*.
tri—o'r Gogledd Brenhinoedd neu dywysogion o'r Hen Ogledd oedd y Tri Hael, gw. TYP³ 5–6, 451–2, 464–6, 493–5.
- 64 **llamsach** Yn groes i GPC 2094 fe'i deallir yn fe. yma yn hytrach nag e. 'naid, llam'. Dyma'r unig enghraifft a restrir sy'n gynharach na'r 16g. Am enghraifft arall o'r trawiad cynganeddol *llamsach / llimsi*, gw. *ib.* d.g. *llamsachaf*.
- 65 **prifardd** Cf. ll. 5n a ll. 76. Gelwir Madog yn brifardd profedig gan Iolo Goch, GIG 167 (XXXVII.54), gw. y Rhagymadrodd, td. 2.

- 66 **Rhydodyn** Plasty ym mhlwyf Llansawel yng nghwmwd Caeo yn yr hen sir Gaerfyrddin a oedd yn enwog am ei haelioni, gw. WATU 191, GGLI 242. Cf. GEO Atodiad D 40.3–4 *Rhyd hynod hoywglod odyn*, / *Rhwydd ged, lle rhed pob rhyw ddyn*; GGI² 278 (CVIII.47–8) *Nid adwen hyd Rydodyn / Abad well i roi bwyd yn*. Gw. hefyd E.R.LI. Davies ac E. Edwards, ‘Teulu Ifor Hael a’r traddodiad nawdd’, YB xii (1982), 143–56.
- 69 **menestri** Llsgr. *C menest’*. Rhestrir yr enghraifft hon yn betrus yn GPC 2430 dan yr ystyr haniaethol ‘darpariaeth’, ac ymddengys hynny’n fwy priodol na ffurf l. *menestr* ‘tywalltwr diod’; cf. GGMD i, 4.125n.
- 71 **Seth fab Addaf** Cyfeirir at daith Seth fab Adda i Baradwys yn ‘Ystorya Addaf’ i geisio olew y drugaredd i’w dad; gw. ‘Efengyl Nicodemus’, HMSS ii, 245.
ydd af Gwallus yw *ydif*R 1271.38.
- 72 **baradwys** Llsgr. *C y baradwys*, a rydd sillaf yn ormod. Ar y gystrawen, gw. 2.22n, 3.1n, a cf. *ydd af Ddyfi* yn y ll. flaenorol.
- 74 **môr Enlli** Cf. GLGC 494 (228.55–6) *du Fôn, diwystlon ystlys—Caergybi*, / *du o fôr Enlli yw hyd Frwynllys*.
- 75 **bâr beri** Cyfuniad cyffredin gan y beirdd, cf. GMB 8.43 *ar bar beri* (Gwalchmai ap Meilyr); GCBM i, 21.58 *bareu beri*; GLIF 1.136 *bareu beri* (Llywelyn Fardd I); GBDd 3.22 *baroedd beri*.
- 77 **enynnai ynn ynni,—galon** Pe deellid *calon* yn hytrach na ll. *gâl* ‘gelyn’, gellid darllen: *enynnai i’n ynni—galon* ‘enynnai ddewrder yn ein natur’—cf. RB ii, 313 (llau. 6–7) *Gyrru callon yny gbyr aoruc*—a’r brif frawddeg, felly, fyddai *Lluddiai ... Lladron ...*
- 78 **Deifr** Gw. 1.59n.
- 81 **Lleucu** Ceir enwau pedair o wragedd i Forgan ap Dafydd yn P.C. Bartrum: WG1 ‘Eidio’ 6, ac yn eu plith, Lleucu ferch Gruffudd.
rhieni Rhydd darlenniad llsgr. *C a rieni* sillaf yn ormod. Ymddengys mai hepgor yr *a* yw’r diwygiad mwyaf ystyrllon, er y gellid hepgor y gair *lle*.
- 83 **a malaf** Llsgr. *C amolaf*. Chwithig ac annodweddiadol yw *a molaf ... i’w moli*. Mwy priodol yw *malu* yn yr ystyr ‘cynhyrchu (sain), ynganu, llefaru, datgan (barddoniaeth)’, gw. GPC 2326 d.g. *malaf*¹ 1(c) (enghreifftiau o’r 15g. ymlaen). Cf. GDID 10 (4.69) *Ni fâl un genau foliant*; GGI² 305 (CXIX.9–10) *Moli bûm ymlau byd*, / *Malu sôn melys ennyd*; TA 741 (llau. 9–10) *Malai osteg, melynston*, / *Melys iaith, fal mêl i sôn* (*malaf* a geir gan John Davies, Mallwyd yn llsgr. D).
- 84 **llerwgoeth** Llsgr. *C llerwdoeth*. Yn GPC 2156 fe’i rhestrir yn unig enghraifft o’r ffurf *llerwdoeth*, gan gynnig yr ystyr ‘gwyich a doeth’, efallai gyda grym e. Fodd bynnag, annisgwyl yw fod y gair yn odli â’r

cyfansoddair tebyg *gloywddoeth*, ac y mae *coeth* ac *aur* yn cydweddu'n dda.

- 89 Y mae darlleniad llsgr. *C llun tawel uchel llan6 ty6i* sillaf yn rhy hir. Tebyg i'r copïydd ychwanegu ail *-el* ar ddamwain.

4

Yr oedd Hopgyn ap Tomas yn un o noddwyr pwysicaf a mwyaf diwylliedig Cymru yn yr Oesoedd Canol. Trigai yn Ynysforgan yng Ngŵyr, ryw hanner milltir o Ynystawe—y mae yno ffermdy bychan sy'n dwyn yr enw o hyd. Tybir ei fod yn fyw pan lofnododd ei dad weithred yn 1337, a bu farw ryw bryd yn nechrau'r bymthegfed ganrif.¹ Ymgynghorodd Owain Glyndŵr ag ef ynghylch hen ddaroganau yng Nghaerfyrddin yn 1403, a derbynir bellach mai ef a gomisiynodd y casgliad amhrisiadwy o ryddiaith a barddoniaeth y daethpwyd i'w adnabod fel Llyfr Coch Hergest, llawysgrif a gwblhawyd tua'r un cyfnod.²

Y mae'r awdl hon³ yn un o bump o awdlau mawl i Hopgyn ap Tomas sydd ar gof a chadw yn y Llyfr Coch. Canwyd y lleill gan Lywelyn Goch ap Meurig Hen, Dafydd y Coed, Ieuan Llwyd ab y Gargam a Meurig ab Iorwerth,⁴ a cheir awdl i'w fab, Tomas ap Hopgyn, o waith y Proll.⁵ Fel y sylwodd Daniel Huws,⁶ y mae'r awdlau hyn yn cynrychioli haen ddiweddar yng ngwneuthuriad y llawysgrif, ond ni olyga hynny o raid fod yr awdlau i Hopgyn wedi eu llunio tua diwedd ei oes.⁷ Fodd bynnag, o ystyried y tebygrwydd cyffredinol a'r cyd-drawiadau geiriol rhwng yr awdlau hyn—tynnir sylw at rai ohonynt isod—y mae'n bosibl iddynt gael eu llunio tua'r un adeg os nad ar yr un achlysur. Fel y beirdd eraill, y mae Madog Dwygraig yn plethu i'w foliant gyfeiriadau at wrhydri Hopgyn, ond yn neilltuo crynswth y mawl i'w hynodrwydd fel noddwr llên. Nid yn unig y mae'n wahoddwr beirdd rhagorach nag Ifor Hael ei hun, y mae hefyd yn uchelwr tra dysgedig, yn gasglwr doethineb ac yn gynullydd clodfaith.

¹ Am ei ach, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 32. Ceir yr ymdriniaeth lawnaf gan Christine James, '“Llywr Wyboda, Llên a Llyfrau”': Hopcyn ap Tomas a'r Traddodiad Llenyddol Cymraeg', yn *Cwm Tawe*, gol. H.T. Edwards (Llandysul, 1993), 4–44. Gw. hefyd TLIM 9–14, 146–50; B.F. Roberts, 'Un o Lawysgrifau Hopcyn ap Tomas o Ynys Dawy', B xxii (1966–8), 223–8; Prys Morgan, 'Glamorgan and the Red Book', *Morgannwg*, xxi (1978), 42–60; GDC 63; GLIG 88.

² Gw. y Rhagymadrodd, td. 2.

³ Ceir testun yn MA² 321–2.

⁴ GLIG cerdd 6; GDC cerddi 3, 12 a 13.

⁵ GDC cerdd 14.

⁶ Gw. y Rhagymadrodd, td. 2.

⁷ Yn ôl R. Iestyn Daniel, GDC 63, y mae disgrifiad Dafydd y Coed ohono fel gŵr *gwinai* yn awgrymu bod Hopgyn yn gymharol ifanc pan ganwyd yr awdl honno; 1370–90 yw cynnig Dafydd Johnston ar gyfer awdl Llywelyn Goch, GLIG 88. Nid oes dim yn yr awdl hon sy'n gymorth i'w dyddio'n fanwl.

Cyfeiriad sydd yma yn ddiaw at ei waith yn casglu a chomisiynu llawysgrifau a ddiogelai destunau rhyddiaith o bob math, a barddoniaeth sy'n ymestyn o gyfnod yr Hengerdd hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ceir awgrym hefyd fod ganddo gysylltiad ymarferol â byd y gyfraith.⁸

Canwyd yr awdl ar fesur toddaid, gyda sawl cymeriad llythrennol estynedig. Sylwer bod y tri chymeriad cyntaf, *H-*, *F-*, *T-*, yn cyfateb i enw'r gwrthrych, *Hopgyn fab Tomas*. Ceir cynghanedd sain mewn rhagor na hanner y llinellau (sain bengoll yn llau. 27, 29 a 31). Cynghanedd groes bengoll a geir yn llinell 35, ac nid oes yma'r un cynghanedd lusg (ond gw. ll. 23n).

- 2 **Geraint** Geraint ab Erbin, arwr y rhamant 'Geraint ac Enid', gw. TYP³ 356–60. Ceir yr un cyfuniad, *hwyl Geraint*, yn GGMD i, 5.132 (am Oronwy Fychan).
 - 8 **byrddlaw** Diddorol sylwi bod Dafydd y Coed yn defnyddio'r un a. yn ei foliant yntau i Hopgyn ap Tomas: GDC 3.109–12 *Gwrdd Hopgyn ... / ... / Fab Tomas ... / Fab Einiawn fyrddlaw* ... Dyma'r unig enghreifftiau a restrir yn G 84 d.g. *bwrð*; am y syniad, cf. GSRh 4.54 *naf llawnion fyrddau* (Rhisierdyn am Oronwy Fychan).
 - 9 **mynudiad—ei ryd** Petrus yw'r aralleiriad 'amnaid ei ffawd'. Pe diwygid i *mynediad—i ryd* gellid cynnig yr ystyr 'un sy'n cyrchu rhyd', h.y. i ymladd. Ar *rhyd* 'cyfle, lwc (dda); ?braint', gw. GPC 3126 d.g. *rhyd*¹ a cf. 9.55n isod.
 - 10 **Tywi Ystrad** Gw. 3.3n a cf. disgrifiad Llywelyn Goch o Hopgyn ap Tomas fel *Gwawr Ystrad diwad Tywi*, GLIG 6.3. Medd Dafydd Johnston, *ib.n.*: 'Y mae hyn yn annisgwyl, gan mai Cwm Tawe oedd bro Hopcyn. Tybed a oedd ganddo dir yn y Cantref Bychan, sef y rhan o Ystrad Tywi i'r gogledd o gwmwd Gŵyr? Nid yw'r achau'n nodi enw ei wraig na'i fam, ac fe ddichon mai trwyddynt hwy y daliai dir yno.'
 - 12 **ynad** Dichon y defnyddir y gair yn ei ystyr gyfreithiol yma yn hytrach nag yn yr ystyr drosiadol 'gŵr doeth'. Digwydd deirgwaith ym moliant Dafydd y Coed i Hopgyn ap Tomas, gw. GDC 3.53n, 96n; cf. *ib.* 13.14n. Ar berthynas debygol Hopgyn â byd y gyfraith, gw. *ib.* a Christine James, '“Llwyr Wybodau, Llên a Llyfrau”: Hopcyn ap Tomas a'r Traddodiad Llenyddol Cymraeg', yn *Cwm Tawe*, gol. H.T. Edwards (Llandysul, 1993), 27.
 - 13 **Selyf** Y Brenin Solomon, patrwm doethineb i'r beirdd, gw. TYP³ 135, 497. Disgrifiodd Meurig ab Iorwerth yntau Hopgyn ap Tomas *Mal Selyf wynfydig* a *Selyf un nawd*, GDC 13.18, 31.
- ceinfodd** Camosodiad: *cyneddffau / ceinfodd*, er y gellid cyfrif yr *f* yn

⁸ Gw. ll.12n.

lled-lafarog. Gellid diwygio i *ceinddof*, ond am enghraifft arall o'r bai cynganeddol hwn, gw. 1.33n.

- 17 **cystal cof Eidial** Cf. GDC 13.59 *Cystal ag Eidial* (awdl foliant Meurig ab Iorwerth i Hopgyn ap Tomas); GCBM ii, 6.150 *heuelyt Eidal*. Ar yr e., gw. *ib.* 6.150n; G 453 a GDC 13.59n: 'Dichon fod y ffurf i'w chysylltu â rhai o frenhinoedd cynnar Prydain o'r un enw a restrir gan Sieffre o Fynwy ...'.
- 19 Cf. GSRh 4.23 *Pôr cyngor ragor, parau rwygiad—trin* (Rhisierdyn am Oronwy Fychan).
- 20 **Afarwy** Afarwy ap Lludd ap Beli, mae'n debyg, a enwir yn y Trioedd ac yn y Brutiau, gw. TYP³ 276–7. Cf. GSRh 4.100n, ac yn enwedig GCBM i, 16.80 a GMB 17.40 lle y cysylltir Afarwy â milwriaeth.
- bwriad** 'Bwriwr, gostyngwr' yn hytrach nag 'arfaeth', gw. GPC 355 d.g. *bwriad*¹.
- 22 **cyfraith mydr rwyddiaith** Cyfeiriad, fe ymddengys, at reolau cerdd dafod, ac o bosibl at y copi o Ramadeg Einion Offeiriad a geir yn Llyfr Coch Hergest. Cf., e.e., R 1225.24 *dysgabd vydyr pob kyfreith*, *ib.* 28–9 *pennkerd pob kyfreith veith vat* (gw. Bleddyn Owen Huws, *Dwned*, ix (2003), 60); am enghreifftiau pellach o *cyfraith* yng nghyd-destun prydyddiaeth, gw. G 215–16.
- ymadroddiad** Cymerir mai dynodi gweithredydd a wna'r olddodiad *-iad* yma, cf. *cynulliad* yn y ll. flaenorol a *gostyngiad* yn y ll. nesaf. Ni roddir yr ystyr honno yn GPC 3756; rhestrir yr enghraifft hon dan yr ystyr 'mynegiant ... y weithred o lefaru ... lleferydd, araith, trafodaeth, traethawd ... adroddiad, gosodiad'.
- 23 **Coeth hustyng wrth ieirll, caith ostyngiad—gryd** Cf. GDC 13.57–8 *Coeth awdur mesur, moesau Ffrenig, / Caith ostyngiad mad yn rhwymedig* (moliant Meurig ab Iorwerth i Hopgyn ap Tomas). Y mae aceniad y gynghanedd draws yn afreolaidd: *Coeth hústyng ... caith ostýngiad*; am enghraifft debyg o gyfatebiaeth ragobennol mewn cynghanedd draws, cf. GGMD ii, 3.193 *Celi, Naf pobloedd, ym celennig—deg*. Llai tebygol yw mai cynghanedd lusg wydro a fwriadwyd, gydag y olau yn odli ag y dywyll, gw. J. Morris Jones: CD 178 a cf. GDG³ 195 (71.33) *Cyfyng gennyf fy nghyngor*.
- 26 **ceindu** Cymerir mai *tu* yw'r ail elf., yn groes i G 124 d.g. *kein*: 'keinðu (: *du*, yn hytrach na *keindu* : *tu*) a. hardd a du'. Efallai y gellid deall *Cynhelydd clodrydd ... Deheuparthwlad*, â *Ceindu dai porthlu* yn sangiad.
- 27 **ffysgiad** Yn GPC 1336 d.g. *ffysgiad*¹ rhestrir yr enghraifft hon dan yr ystyr e. 'rhuthr, cyrch, ymosodiad; brys', ond ymddengys yr ystyr a. 'cyflym, chwym ... egniol, grymus' yn fwy priodol yma mewn perthynas â *maer* a *gwinfaeth*; cf. GLIBH 19.89 *carw bannog—ffysgiad*

- ‘carw corniog chwim’. Ond cofier hefyd am *ffysgiad*² ‘cyrchwr buan, rhuthrwr, ymosodwr’, GPC 1336.
- 28 **cynnydd** Llsg. C *kynnys*. Diwygir er mwyn yr ystyr a’r gynghanedd groes.
Nudd Gw. 2.1n. Llsg. C *kein nud*, ond tybed na ddylid darllen *ceinudd*, cf. GC 2.125 *ceinudd* ‘arglwydd gwyh’. Cyfeirir at Nudd yn ll. 35.
- 30 **cywiwblaid hyborth** Yn ôl G 273 d.g. *kywiw*, ystyr *cywiwblaid* yw ‘cymorth gwyh; yn ffig. noddwr rhagorol’; o dderbyn hynny gellid deall *hyborth* yn a. ‘cynhaliol’, gw. GPC 1947. Cymerir yn hytrach mai e. yw *hyborth* ‘cynhorthwy, cyheiliad’, *ib.*, gan ddeall bod Hopgyn yn gynheiliad i’w blaid neu ei bobl ei hun.
- 31 **Edlym** Edlym Gleddyf Goch, cyfaill Peredur fab Efrog, gw. *Historia Peredur vab Efracw*, gol. Glenys Witchard Goetinck (Caerdydd, 1976), 49–52; G 494. Cf. GDC 14.1 *Hoywlyw ryw ras, rysedd Edlym*, sef ll. gyntaf y gerdd nesaf yn R, awdl foliant y Proll i Domas ap Hopgyn, mab gwrthrych y gerdd hon, a gw. *ib.*n; GSCyf 15.2 *Rhuthr Edlym â’i ruddlym raidd* (Llywelyn ab y Moel).
- 33 **taliad** Yr unig ddiffiniad a geir yn GPC 3432 yw ‘y weithred o dalu, tâl, rhandal, iawndal, hefyd yn *ffig.*’, gydag enghreifftiau o’r 15g. ymlaen. Cymerir, yn hytrach, mai dynodi gweithredydd a wna’r olddodiad *-iad* yma, cf. ll. 22n.
- 36 **Cadw** Cato Hen, patrwm o ddoethineb, gw. G 90 d.g. *Cado, Cadw* a TYP³ 297. Gellid deall *cadw* yn f. (a *cydsyniad*, felly, yn golygu ‘cytundeb’), ond o blaid yr ep. y mae cyfeiriad Meurig ab Iorwerth yn ei awdl yntau i Hopgyn ap Tomas, GDC 13.55–6 *I Feda a Chadw, gynefodig—iôn, / Am ei atebion y mae tebig*.
cydsyniad Fe’i rhestrir yn GPC 668 yn unig enghraifft d.g. *cydsyniad*² ‘cydsyniwr, cytunwr’.
- 37 **Ifor** Cyfeiriad cynnar, fe ymddengys, at Ifor Hael fel noddwr delfrydol, sef Ifor ap Llywelyn o Wernyclepa ger Basaleg ym Morgannwg, gw. GDG³ xxxix–xl. Molir milwriaeth yn ogystal â haelioni diarhebol Ifor Hael gan Ddafydd ap Gwilym, e.e. *ib.* 13 (5.23) *Naddiad arfaergad ar faergor—Einglgawdd*. Diddorol sylwi bod Dafydd y Coed yntau yn cyffelybu Hopgyn i Ifor, GDC 3.98 *A chlod teilyngbrif Ifor*.
- 38 **iôr meddlyn mad** Cf. GDG³ 14 (5.33) *rhodd ddidor—meddlyn* (awdl i Ifor Hael), a ll. 5 uchod *Hopgyn wirodlyn rheidwlad*; GDC 13.33 *Hopgyn iôr gwinllyn*.
- 41 **haeddi** Ni chofnodir y ffurf hon yn GPC 1803 d.g. *haeddaf: haeddu*, ond cf. GGDT 4.41 *Gwyddiwn na haeddiwn ...*
- 43 **hyrddiad** Mewn ystyr haniaethol yn ôl GPC 1980, ond fe all fod hynny’n seiliedig ar ddarllen: *a wna ... hyrddiad*. Cymerir mai

olddodiad gweithredydd sydd yma, a *hyrddiad*—*caer eofn* yn sangiad.

- 44 **Ysgeirloyw golofn, o'i ysgarlad** Ceir yr un trawiad gan Drahaearn Brydydd Mawr yn GGDY 11.68 *Ac ysgeirloyw lyn ac ysgarlad*.
- 46 **eryr** Un o ddelweddu stoc y canu mawl, ond y mae'n drawiadol fod y trosiad yn digwydd ym mhob un o'r pedair awdl arall i Hopgyn ap Tomas: GLIG 6.44; GDC 3.118, 155 (Dafydd y Coed), 12.52 (Ieuan Llwyd ab y Gargam), 13.13 (Meurig ab Iorwerth).
- 47 **Hopgyn wyn** Cf. GDC 12.13 *Hopgyn glaerwyn* (Ieuan Llwyd ab y Gargam), *ib.* 13.36 *Hopgyn harddwyn* (Meurig ab Iorwerth). Gellid yr ystyron 'gwynfydedig' neu 'ddisglair'.

gwyniad Yn ôl GPC 1776 d.g. *gwyniad*³ (gan ddilyn awgrym petrus G), y pysgodyn y mae ei gynefin yng Nghymru yn Llyn Tegid (cofier mai o Benllyn yr hanai Madog Dwygraig), 'yn *ffig*. gŵr bonheddig, pendefig'. Fodd bynnag, nid yw hynny'n argyhoeddi'n llwyr, yn enwedig gan mai cyfeirio'n llythrennol at y pysgodyn a wna pob cyfeiriad arall a ddyfynnir. Gellid *gwyn* + *iad* 'pen', ond chwithig fyddai hynny yn dilyn yr a. *gwyn*, a chyfeirir at Hopgyn fel gŵr *gwinau* gan Ddafydd y Coed yn GDC 3.100. Dichon, felly, mai bôn y f. *gwynio* 'dolurio' neu *gwyno* 'anrheithio' sydd yma gydag olldodiad gweithredydd *-(i)ad*, er na restrir yr ystyr honno yn GPC; cf. *ib.* 1771 *gwynad*, *gwyniad*² 'y weithred o wynio neu ddolurio, doluriad ...', *ib.* 1776 *gwyn(i)adaf*: *gwyn(i)adu* 'poeni, llidio ...'.

calchfur Cf. GDC 3.56 'n ei *galchlys ger Tawy* (Dafydd y Coed i Hopgyn ap Tomas), *ib.* 12.31 *llyw llys gaergalch* (Ieuan Llwyd ab y Gargam i Hopgyn ap Tomas). Am gyfeiriadau pellach at yr arfer o wyngalchu llysoedd a chestyll yn y cyfnod hwn, gw. *ib.* 2.53n.

- 48 **Arthur** Cf. 3.28. Cymherir Hopgyn ag Arthur gan Lywelyn Goch ap Meurig Hen, GLIG 6.43; gan Ddafydd y Coed, GDC 3.116; a chan Feurig ab Iorwerth, *ib.* 13.51. Dichon fod a wnelo hyn â'r deunydd Arthuraid a gofnodwyd yn Llyfr Coch Hergest neu mewn llawysgrifau eraill o'i eiddo. Yn ôl Dafydd y Coed: *mae yn ei lys, / ... y Lusidarius, / A'r Greal a'r Yniales, / A grym pob cyfraith a'i gras*, *ib.* 3.93–6 (gw. *ib.* n).

5

Y mae'r englynion hyn yn dilyn cerdd 7 yn Llyfr Coch Hergest, ar ddiwedd casgliad o gerddi Madog Dwygraig.¹ Er nad oes priodoliad yn y llawysgrif, teg tybio mai Madog a'u piau (ond gw. ll. 15n isod). Mydryddiad cryno o fuchedd Crist a geir ynddynt: ei eni i Fair ym Methlehem, ei fedyddio gan

¹ R 1267–80. Ceir bwloch ar waelod y golofn yn dilyn y gerdd hon, a chychwynnir ar waith Rhisierydn yn y golofn nesaf.

Ioan Fedyddiwr yn nyfroedd Iorddonen, ei groeshoelio ar Galfaria dros bechodau'r byd, ei atgyfodiad a'i esgyniad i'r nefoedd. O ran eu symlrywydd a'u taclusrwydd cronolegol gellir eu cymharu, er enghraifft, â thri englyn proest chwe llinell i Fair ac Iesu o waith Llywelyn ab y Moel,² neu â'r cywydd byr i'r Drindod a briodolir i Ddafydd ap Gwilym.³ Ceir yma dri englyn unodl union ac englyn proest i gloi. Cydir pob englyn â chyrchgymeriad, ac y mae'r gair olaf, *diweirfam*, yn cyrchu'r dechrau gan gyfannu'r cylch. Ceir cymeriad llythrennol ym mhob englyn. Cynghanedd sain a geir ym mhob llinell ond pump ac y mae pedair o'r rheini'n bengoll (llau. 3, 5, 9 ac 11). Nid oes yma'r un gynghanedd lusg.

- 1 **Duw arnam ... a ddoeth** Am *dod ar* 'dod at', gw. GMW 187.
- 2 **Urddonen** Afon Iorddonen. Am y ffurfiau *Urddonen* ac *Eurddonen*, gw. G 499; EANC 103.
- 4 **yw bren** Cf. GLGC 460 (211.49–50) *Tebig i'r Groes Fendigaid / yw fy yw rhudd pan fo rhaid*.
- 6 H.y., drwy'r Ysbryd Glân?
- 8 **Crau ... ir** Gwaed heb geulo. Cf. 6.4 *Prynodd bumoes ar yr eurgroes er yr irgrau*.
- 10 **Pren ydd aeth ...** Cf. GBF 42.43–4 ... *yd aeth Arghwyd nef / Y prenn diodef ...* (Gruffudd ab yr Ynad Coch).
- 11 **gwedd gwander** Cf. GGMD ii, 3.84 *Cyn bedd saith droedfedd a gwedd gwander*.
- 14 **tremyg trwm** Ceir yr un cyfuniad yn GGrG 6.25 *Ael bro Helig tremyg trwm* (Mab Clochyddyn); GGMD i, 5.53.
- 15 **ym Maethlu** Llsg. B *ymaethlu*. Nawddsant plwyf Llanfaethlu ym Môn, gw. LBS iii, 406–7. Cf. GGMD i, 2.55–6 *Trwy aur borthair Mair, Maethlu,—Mihangel, / Pawl, Pedr, Gradifel, y dêl o'i du!* Yr oedd gan Ruffudd ap Maredudd diroedd ym mhlwyf Llanfaethlu, ac fe all mai ef, yn hytrach na Madog Dwygraig, biau'r englynion mewn gwirionedd.

6

Ceir tair rhan i'r awdl hon. Yn llinellau 1–18 ceir myfyrdod ar fawredd Crist ac ar ei ddioddefaint ar y groes. Yn debyg i'r gerdd flaenorol mawrygir y gwaed a brynodd bechodau dynion, ac adroddir ag urddas syml hanes ei gladdu a'i atgyfodi ar y trydydd dydd. Y mae'r hanes amdano'n ysbeilio uffern er mwyn rhyddhau'r eneidiau caethion yn un o themâu poblogaidd Cristnogaeth yr Oesoedd Canol.

² GSCyf cerdd 17.

³ GDG³ cerdd 3.

Yna, yn llinellau 19–28, y mae Madog yn cymell ei wrandawyr i ddwys ystyried eu hannheilyngdod yn wyneb angau, waeth beth fo'u statws ar y ddaear hon. Dyma thema boblogaidd arall, angau'r gwastatawr mawr, ac y mae taerineb a moelni'r dweud ynghyd â'r awgrym o goegni—cynganeddir yr ymadrodd moliannus *glwys sangad*, er enghraifft, â *gloes angau* (ll. 24)—yn deilwng o Siôn Cent ei hun.¹ O'i gymharu â'r Duwdod, diddim a darfodedig, meddir, yw popeth daearol. Erfyniad gostyngedig am fywyd tragwyddol yw uchafbwynt yr awdl (llau. 29–34), ar ffurf sy'n dwyn i gof weddi Iolo Goch a diweddglo awdlau cyffes Llywelyn Goch ap Meurig Hen a Gruffudd ap Maredudd o'r un cyfnod.²

Lluniwyd yr awdl ar fesur rhupunt, ac y mae'r gynghanedd sain gyflawn a geir ym mhob llinell, gyda chyfatebiaeth gytseiniol gref, yn cyd-fynd yn esmwyth â thri chymal y mesur. Y mae'r defnydd o gymeriad geiriol yn atgyfnerthu taerineb y gerdd, yn arbennig felly'r geirynnau negyddol yn llinellau 21–8 a'r arddodiad *er* yn llinellau 29–34.

3 **morgad** Cyfuniad o *mawr* + *cad*, mae'n debyg, yn golygu 'byddin fawr'; cf. 3.22 *Morgan benadur mawrgad*. Tybed na ddylid diwygio i *mordad*? Ceir *mawrdad* yn epithet am Dduw, gw. GPC 2381, a cf. y ffurfiau *morair* (*mawr* + *gair*) a *mordai* (*mawr* + *tai*).

4 **pumoes** Y pum cyfnod yn hanes y byd hyd at eni Crist: o'r creu hyd Noa, o Noa hyd Abraham, o Abraham hyd Foses, o Foses hyd Ddafydd, ac o Ddafydd hyd Grist. Cf. 8.18.

6 **gwyar** Ni ddisgwyliid treigladd meddal yma yn dilyn y be. *gollwng*. Gellid, efallai, ddeall *gollwng* i olygu 'rhyddhau oddi wrth bechod, maddau'—gw. GPC 1457 a cf. 7.18 ac 8.11, 19 *gellyngdawd*—ond ymddengys yn chwithig yma fel bf. gyflawn.

talau Cyfeirir at y gred fod dioddefaint Crist ar y groes yn dâl am bechodau dyn, a'r e.ll. yn cyfeirio'n benodol at y wayw a'r hoelion, &c.

8 **gwyal Addaf** Llsgr. B *gweal adaf*. Y tair gwialen y dywedid iddynt darddu o enau Adda i gynrychioli'r Drindod; am enghreifftiau pellach, gw. G 724 d.g. *gwyal*. Cf. awdl Gruffudd ap Maredudd i'r Grog o Gaer, GGMD ii, 1.158 *Da wiaial Addaf, diwael oeddain*'. Fel yr eglurir yn *ib.* 1.9n, cyfeiriad sydd yma at un o chwedlau'r Oesoedd Canol ynghylch tarddiad pren y groes. Yn ôl 'Ystoria Addaf', daeth Moses o hyd i'r tair gwialen yn tyfu o enau Adda a oedd wedi ei gladdu yn Ebron, ac fe'u cludodd gydag ef ar ei deithiau drwy'r anialwch.

10 **Nasredd** Dyma'r ffurf gyffredin am *Nasareth*, cf., e.e., GDB 36.6 (anh.); GGMD ii, 15.80.

¹ Cf. yn arbennig IGE² cerdd XCIII ('Gwagedd Ymfrost Dyn') ac XCVI ('I Wagedd ac Oferedd y Byd').

² GIG 137 (XXX.33–66); GLIG 7.39–46; GGMD ii, 15.85–96.

- 16 **swdan** ‘Swltan, pennaeth, arweinydd, rheolwr, arglwydd’, o’r S.C. *sauden, soudan* ‘*sultan*’, neu’n uniongyrchol o’r H.Ffr., gw. GPC 3184 d.g. *sawden*¹ *sawdan, swdan* [a *swddan*]. Ymddengys mai at Satan yn benodol y cyfeirir yma, oni bai fod modd deall *swdan* i olygu ‘*sultan*, sarasen, anghrediniwr’, fel y gwneir yn EEW 168. Sonia Casnodyn am *Iesu, Pen llu llydan yn ymdaraw ar dorf swddan* yn yr un cyd-destun yn ôl pob golwg, sef disgrifiad o Grist yn ysbeilio uffern wedi ei atgyfodiad er mwyn rhyddhau eneidiau caeth y cyfiawn, gw. GC 7.61–5n. Ar y thema boblogaidd hon, gw. J.E. Caerwyn Williams, ‘Efengyl Nicodemus yn Gymraeg’, B xiv (1950–2), 108–12. Gw. ymhellach GSRh 12.125n ar *Suddas Swddan* (Gruffudd Fychan).
- 18 **er dioddef i’r dioddau** Llsgr. B *yrdiodef yrdiodeu*. Dilynir GPC 1023 sy’n rhestru’r enghraifft hon o’r ffurf brin *dioddau* d.g. *dioddau, dioddef*² ‘amcan, pwrpas’ (*di-* cryfhaol + *goddau*). Cf. y cyfuniad *i’ m goddau, &c., ib.* 1425. Ymddengys hynny’n fwy naturiol na dehongliad G 362–3, sy’n rhestru *dioddef* yma fel e. ‘dioddefaint’ a *dioddau* fel be. ‘dioddef’, a roddai’r ystyr ailadroddus: ‘drwy / er y dioddefaint, drwy / er dioddef’ (ond cf. ll. 11 *ei welio, ei weliau*). Cf. yn arbennig y llau. canlynol o un o awdlau Einion ap Gwalchmai i Dduw, lle y digwydd y gair mewn cyd-destun tebyg, GMB 27.57–63 *Gwedy doeth Efy’r dioteu / Duc anreith uffern yn y affleu, / Ac wedy hynny ... / Goresgynnbs Mab Duw, Difyeu,—nef bchod ...* (aralleirir ‘amcan [Dwyfol]’). Cf. ymhellach GIG 137 (XXX.33–4) *Gwir frenin nef er dy dangnef, / Er dy oddef, er dioddau*, trosiad Dafydd Johnston: ‘*for your suffering, for your passion*’, *Iolo Goch: Poems* (Llandysul, 1993), 124.
- 23 **graddau** Sef graddau bonedd a theilyngdod daearol, a gyferbynnir â gwir raddau ac urddau Crist, cf. llau. 28–33. Cf., e.e., DGG² 142 (LXXVIII.3) *A gradd binagl gwraidd bonedd*.
- 24 **glwys sangad** Dyma’r unig enghraifft gynnar o’r e. a restrir yn GPC 3168 d.g. *sangiad, sangad* ‘sathriad (dan draed), troediad ...’. Rhoddai’r ffurf fwy cyffredin *angad* ‘llaw; gafaeliad llaw’ sain debyg iawn i’r glust.
- 26 **nid oes dechrau** Disgwylid treigladd meddal yn dilyn *nid oes*, gw. Treigladau 282–3 a cf. *Nid oes gariad* yn ll. 27. Dengys y gynghanedd, fodd bynnag, mai *d* yw’r sain yma, sef enghraifft o *s + dd > sd*, gw. *ib.* 24–5, 60–1. O ran y gynghanedd, gellid caledu neu beidio yn ll. 25.

Naturiol yw rhagdybio i Fadog ganu’r awdl hon a’r gyffes arall a briodolir iddo (cerdd 8) tua diwedd ei yrfa, ond ni ellir bod yn sicr. Yn dilyn y Pedwerydd Cyngor Lateran (1216) yr oedd cyffesu a gwneud penyd yn orfodol unwaith y flwyddyn, ac y mae’r canu’n perthyn i *genre*

cydnabyddedig o ganu penydiol sy'n ymestyn yn ôl mor bell, o leiaf, ag awdlau marwysgafn Meilyr Brydydd a Chynddelw Brydydd Mawr yn y ddeuddegfed ganrif.¹ Yn yr awdl hon cyffesa Madog ei bechodau gerbron Iesu a Mair, gan adleisio'r *Confiteor* a fyddai'n rhan gyfarwydd o wasanaeth yr Offeren.² Yn debyg i'r gerdd flaenorol, cyferbynna ei falchder meidrol â llymder oer y bedd, a thry i'r person cyntaf lluosog wrth rybuddio y bydd yn rhaid i bawb roi ateb i'r Hollalluog ar ddydd y Farn, ac wrth ymbil am drugaredd Crist a'r saint.

Canwyd yr awdl ar fesur dirodres y gyhydedd fer, ac y mae'r mynegiant yn gymharol syml ac uniongyrchol. Grymusir neges y gerdd gan gymeriad geiriol a chynganeddol. Cynghanedd groes a geir yn oddeutu hanner y llinellau, a phob un ohonynt yn bengoll. Y mae nifer y cynganeddion sain yn anghyffredin o isel (wyth yn unig), ac ni cheir yr un gynghanedd lusz.

- 2 **cyffesawl** Cf. awdl gyffes Gruffudd ap Maredudd, GGMD ii, 15.81–2 *Can wyf cyffesol, a Mair i'm eiriol, / Ac adifeiriol oed oferedd.*
o'm hawl y'm holer Cf. GMB 30.10 *Breinyaöfl y6 y ha6l ar a holo!* (Meilyr ap Gwalchmai i Dduw), a aralleirir 'Breiniol yw Ei hawl dros bwy bynnag y byddo'n ei hawlio!'. Tybed nad oes blas 'cyhuddo' ar *holi* yma, fel sydd yn y testunau cyfraith?
- 4 **Mair** Ynghylch pwysigrwydd y Forwyn Fair yn yr Oesoedd Canol fel eiriolwraig dros eneidiau'r ddnoliaeth, gw. Jane Cartwright: ForF 15–75.
- 7 **y bychan** Llsgr. B *Ebychan*. Dilynyr J. Lloyd-Jones sy'n ei ystyried yn betrus yn ddau air yn hytrach nag yn fachigyn *ebwch*, gw. G 435 d.g. *ebychan*, *ib.* 85 d.g. *bychan*. Â'r sangiad, cf. PKM 20 (ll. 13) *bychan a dial oed yn lloski ni ...*
- 11 **cywyd** Tebyg mai 'bryd, meddwl, amcan' a olygir yma, yn hytrach na 'barddoniaeth'. Cf. BB 174 (ll. 12) *yn kywiraw o weithret y geir ar medwl ar kywyt a rodo duw yndaw.*
- 9–12 Cf. y llau. hyn a llau. agoriadol y gerdd â'r *Confiteor*, sef y weddi benydiol a ddaw yn ystod adran agoriadol yr Offeren: *Confiteor Deo omnipotenti, beatae Mariae semper virgini ... omnibus sanctis, et vobis, fratres: quia peccavi nimis cogitatione, verbo et opere ...* ('Cyffesaf i Dduw hollalluog, i'r wynfydedig Fair fythol forwyn ... i'r holl saint, ac i chwi, fy mrodyr: oherwydd pechu'n ddirfawr ohonof ar feddwl, gair a gweithred ...'). Cf. agoriad Cyffes Ieuan Brydydd Hir, GIBH 5.1–6 a'r

¹ GMB cerdd 4, GCBM ii, cerdd 18. Ceir ymdriniaeth â chanu penydiol Cymraeg yr Oesoedd Canol gan M. Paul Bryant-Quinn yn GIBH 8–10, 122–4. Dichon fod y sylw canlynol yn berthnasol yma: 'Ar gyfer cyhoedd a oedd yn gyfarwydd â'r gyfeiriadaeth a'i goblygiadau y cenid y cerddi cyffes, er mwyn hyrwyddo ymateb penydiol' (*ib.* 10).

² Gw. GIBH 9 a llau. 9–12n isod.

sylwadau *ib.n.*

- 16 **Am dyfu edifar bryder** Cf. HGK 12 (ll. 25) *Odena y tyvaud llawer o drwc a govut yg Gwyned*. Llai tebygol o ran ystyr yw *a'm dyfu* 'a ddaeth ataf', gydag *edifar bryder* yn sangiad, ond cf. GBF 32.7 *Dub a'n dyuu* ...
- 18 **gollwng** 'Rhyddhau oddi wrth bechod, maddau', cf. 6.6n, ond 'gadael i mewn' yn ll. 34.
- 19 **ymdyn** Enciliad? Ni restrir y ffurf fel e. yn GPC, ond ceir enghreifftiau cynnar o *ty* 'tyniad, tynfa, plwc', gw. *ib.* 3678. Yr ystyron a roddir i'r f. *ymdynnu*, *ib.* 3768, yw 'ymryson, ymgodymu, hefyd yn *ffig.*; ymdrechu, ymegnio; tynnu'n ôl, encilio, dianc; tynnu ato, crebachu'.
- 20 **gwisg dderw** Cf. GCBM ii, 16.31–2 *Kynn oerga6d agla6d agklaear—yg gbasc / Yg gbisc der6 a gbyar*.
- 26 **mae 'nyrys falchder** Gellid deall *mae* yn ofynnol: 'ble y mae fy malchder dyrys?'.
- 27 **ni thycia difer** Cf. GGMD ii, 3.87 *Rhydd y'm gwnêl Dofydd rhag difer—dramwydd*.
- 29 **maenol** Y mae'r gair yn goeglyd yma; fe'i defnyddir am lys Hoppyn ap Tomas yn 4.46.
- 30 **i fy** **y i** Cywasger yn dair sillaf er mwyn hyd y ll.
mynydd Olifer Mynydd yr Olewydd lle yr esgynnodd Crist i'r nefoedd, a lleoliad y Farn Olaf yn ôl Act i.11.
- 33 **Mihangel** Cyfeiria Iolo Goch, e.e., at yr archangel Mihangel yn didoli eneidiau yn ei ddisgrifiad yntau o'r Farn: *Mihangel, Uriel eirian, / Â'r cleddyfau, tonnau tân, / Diau yw gerllaw Duw Iôn / Yn dethol y rhai doethion*, GIG 112 (XXVII.103–6).
- 34 **Ein gallu i'n ...** Cywasger yn dair sillaf er mwyn hyd y ll.
i'n gollwng uchelder Am enghreifftiau eraill o fynegi'r cyrchfan heb ardd. yng nghanu Madog Dwygraig, gw. 2.22n, 3.1n.
- 35 **Pedr** Y blaenaf o'r apostolion a phorthor y nefoedd. Dywed Crist wrtho yn Math xvi.19 *Rhoddaf iti allweddau teyrnas nefoedd*. Gw. ymhellach ODCC³ 1269–70, a cf., e.e., GMB 4.25–6 *Mi, Veilyr Brydyt, beryerin y Bedyr, / Porthawr a gymedyr gymhes deithi*.

P'un a yw hon yn awdl 'wely angau' wirioneddol ai peidio,¹ y mae iddi naws lai cyffredinol a mwy personol na'r awdl gyffes flaenorol. Yn y pennill cyntaf un cyffesa Madog bechod ei ganu, nad yw ond maswedd a

¹ Fe'i golygwyd gan Dafydd Johnston yn BI B XIV 154–5 (cerdd 73).

gwagedd. Cyn tewi, ac enbydrwydd y bedd a'r Farn Fawr ar ei warthaf, y mae'n ymroi i foli Crist ac i ddiwygio'i fuchedd *dros bechawd—prydydd* (ll. 39). Diau ei fod yn erfyn maddeuant am ei ganu secwlar yn gyffredinol, ond yn fwyaf arbennig am ddychan a maswedd brith o'r math a gofnodir yn Llyfr Coch Hergest. Bardd arall o'r cyfnod a fu'n ymhel â'r canu dychan yw Gruffudd ap Maredudd, ac er nad yw'n cyfeirio'n benodol yn ei awdl gyffes yntau at ei waith fel bardd, ymhlith ei restr faith o bechodau y mae *amryw faswedd a Goganu, tybio, llesgu, damuno, / Llidio a digio, dogn wythlonedd*.² Tebycach i gerdd Madog Dwygraig yw awdl gyffes adnabyddus Llywelyn Goch ap Meurig Hen, lle y mae'r bardd yn cyffesu pechod cableddus ei ganu serch i Leucu Llwyd:

Gwneuthum ar draethawd geuwawd gywydd
 Lleucu yn eilFair, lliw caen elfydd.
 Gwneuthum odineb, nac ednebydd;
 Gwneuthost Lyn Ebron a'i afonydd.³

Tebygrwydd arall rhwng y ddwy gerdd, fel y gwelir yn y dyfyniad hwn, yw'r modd y caiff pechodau'r bardd eu cyfosod â gweithredoedd ac aberth yr Hollalluog.

Canwyd yr awdl ar fesur gwawdodyn, gyda chryn ddefnydd o gymeriad llythrennol a chynganeddol o fewn pob pennill. Cynhelir y cymeriad geiriol *cyn* wrth adeiladu tuag at uchafbwynt yn llau. 29–35. Ceir cyfran uchel o gynghanedd sain (sain deirodl yn ll. 22) a'r rhan fwyaf yn bengoll. Ni cheir yr un gynghanedd lusk.

- 2 **gorwacter llawer** Am enghreifftiau eraill o osod *llawer* ar ôl e., gw. GPC 2109. Disgwylid treigladd meddal i *llawer* yma, ond am galediad *-r l-* > *-r ll-*, gw. Treigladau 27–8. Ceir cyffes debyg gan Gasnodyn yn ei awdl i'r Drindod, GC 7.196–9 *Gorugum ryred (pured Peryf!), / Gormodd o bechawd â'r llwfrgnawd llyf; / Gorau oedd faddau, ornau oernyf, / Gorwacter y glêr ofer a yf.*
- 4 **o dduruthr** Llsg. B *oduruthyr*, a ddehonglir yn Bl B XIV 154 (73.4) fel *o ddur uthr*. Cymerir yn hytrach mai gair cyfansawdd sydd yma, *du + rhuthr*, gyda'r gyfatebiaeth ddiffygiol rhwng *dduruthr* a *feddrawd* yn enghraifft o'r bai 'crych a llyfn' (J. Morris-Jones: CD 145), bai cynganeddol nad yw'n annhebyg i'r enghreifftiau o gamosodiad a geir yng nghanu'r bardd, gw. 1.33n.
- 6 **Rhof ac Eurgrair Mair ...** Fe'i deallir yn llw, ar batrwm *rhof a Duw, &c.* Cf. GGMD i, 5.45 *Rhyhael Eurgrair Mair*; GGMD ii, 4.9–12 *Duw Sul, Eurgrair Mair, mawredd—y doethion, / Y daethost, Lyw Nasaredd, / ... / ... o'r bedd.*

² GGMD ii, 15.16, 17–8.

³ GLIG 7.23–6.

- 8 **marw bechawd** Pechod ‘marwol’ yn hytrach na ‘marw’. Cf. GGMD ii, 5.6 *Dros ein meirw bechodau*.
- 10 **trosedd enwiredd** Llsg. B *trosset enwired*. Diwygir er mwyn odl y gynghanedd sain (cf. *trosedd* yn llsgrau. A, C, D ac F). Posibilrwydd llai deniadol yw ei ddiwygio i *trosed enwired*, gydag ystyr grefyddol i’r f. *trosi* (cf. ll. 39 a *troes* yn ll. 18) a’r a. *enwir* yn y radd gfrt. ac iddo rym e.
- anwarawd** Unig enghraifft. Rhydd GPC² 381 yr ystyr ‘diymward’, gan ddilyn G, ond ‘llid, cynddaredd, creulonder’ yw cynnig GPC 163. O dderbyn yr ystyr honno gellid deall *ein*, yn hytrach nag *yn*, i ragflaenu’r gair.
- 11 **Tri** Cf. ll. 17, a 6.12 *Ei fod Ehun yn Dri ac Un* (am Grist); GDC 4.11 *Wyd Un a Thri, ein Arglwydd ni, nef Gynhaliawdr* (awdl Dafydd y Coed i’r Drindod; at Grist y cyfeirir eto); cf. hefyd awdl Casnodyn i’r Drindod, GC cerdd 7.
- gellyngdawd** ‘Gwardigaeth; maddeuant’, cf. ll. 19 a gw. 6.6n, 7.18n.
- 12 **bylchu ... balchedd** Trawiad cyffredin. Cf. GGMD i, 6.64 *A bylchu fy mryd o farw balchedd*; GDC 1.11 *ni fylcher ei falchedd!*, ib. 12.40 *Llyw ni fylchir, Leon falchedd*.
- Erawd** Herod, brenin Jwdea, mae’n debyg, yn hytrach na Herod Antipas a ganiataodd i’r Iesu fynd ar brawf gerbron Pontius Peilat cyn cael ei gondemnio i’w groeshoelio, gw. GDB 36.18n. Am gyfeiriadau pellach yn y farddoniaeth, gw. G 482.
- 17 **fu** Gwallus yw *vn*, R 1269.17.
- 18 **pumoes** Gw. 6.4n. Cf. GDG³ 8 (3.9–10) *Da fu Duw Iôr, dioer oroen, / A’i groes ddwyn pymoes o’u poen*.
- bedysiawd** Y byd Cristnogol, gwledydd Cred, o’r Llad.Diw. *ba(p)-tiz(i)Atio* ‘bedyddiad’, gw. GPC 362. Cf. LIDC 19 (11.14) *Or croc crevled y death gwared ir vedissyaud*.
- 20 **tri diwarnawd** Sef rhwng Gwener y Groglith a Sul y Pasg. Cf., e.e., GLIG 7.43–4 *Er Dy lwywir farw ar D’elorwydd, / A’r tradoeth gyfod y pryd trydydd ...* (awdl gyffes Llywelyn Goch ap Meurig Hen).
- 21 **ffrwythlawn** ‘Toreithiog (o adar)’, mae’n debyg, yn hytrach na ‘llesol, defnyddiol’. Cf. RB ii, 116 (llau. 18–19) *afonyd ffrbythlawn o bysgabf*.
- 22 **sêr, sygnau** Cyfuniad cyffredin, gw. Barry James Lewis, ‘Adeiladu cerdd: cyfuniadau geiriol yng nghanu crefyddol y Gogynfeirdd’, LICy xxiv (2001), 42n50.
- 27 **dwnf** Llsg. B *dyfun*. Tebyg mai gwall sydd yma am *dwf(y)n* ‘dyfnderoedd (y môr)’, sy’n cyferbynnu â *bastawd—môr traeth*; cf. G 400 d.g. *dwf(y)n²*.
- 31–2 Ceir cyferbyniad tebyg rhwng y ddiod feddwol a diod chwerw

dioddefaint mewn awdl i Grist o waith Bleddyn Ddu, GBDD 2.17–26 *Gwae ddyn, cyn dyfyn dwfn waelawd—cuddygl, / O syrth ym mherygl swrth amharawd / A rhed diwared wirawd—anamser / (Arfer gormodder a gâr medd-dawd), / Na feddylia bla blas diawd—Iesu, / Pan fu yn ei brynu ar bren trallawd, / A roed cyn addoed (cain addawd—iddaw!) / Er gorddinaw llaw Llyw bedysyawd. / Gweini berw bustl chwerw, chweiris rhawd—ddifwyn, / Gwinegr a gwenwyn, frawgwyn fragawd ...*

- 33 **anhyflym** Ag ystyr debyg i ‘swrth, pŵl’ yma, gwrthwyneb *cyflym* yn yr ystyron ‘bywiog o ran meddwl ...; llym, miniog’, GPC 702. Cf. disgrifiad y bardd ohono’i hun yn yr oerfedd yn 7.25: *Yn araf yn aros f’amser*.
- 35 **cyn perigl fyned** Cf., e.e., GCBM ii, 16.9 *Y’m Peryf kynn perigyl bbyf car* (‘Boed imi fod yn gyfaill i’m Harglwydd cyn perygl [diwedd oes]’); ar y ffurf, gw. *ib.n.*
- 36 **castello** Dyma’r unig enghraifft a restrir yn G 116 a GPC 438, lle y rhoddir yr ystyron ‘gwarchaeol, caethiwus, caead’.
- 38 **o chaf** Llgr. B *ochaf*, a ddeallir, fe ymddengys, yn Bl B XIV 155 (73.38) yn ffurf l un.pres.myn. y f. *ochain*, yn yr ystyr ‘cwynfan’.
- 40 **cerennydd** ‘Cymod dwyfol’ yw’r ystyr yma. Cf. diwedd glo awdl gyffes Llywelyn Goch ap Meurig Hen, GLIG 7.45–6 *Erbyn fy marwol ddiweddol ddydd, / Eurdad digroniad, Dy gerennydd*.
- brwydrddydd Brawd** Cf. GGMD ii, 4.44 *Duwsul y bydd brwydrddydd Brawd*.

9

Dyma un o gerddi mwyaf gwreiddiol Madog Dwygraig,¹ a’r gerdd sy’n dangos orau ei hoffter o barodi ac eironi. Yr hyn sydd yma, yn syml, yw hanes rhyw Faald ferch Ddafydd yn dwyn afalau o ardd y bardd, ond caiff y cyfan ei chwyddo’n un melodrama dychanol mawr sy’n ymestyn dros saith caniad. Sonia Madog sut y bu iddo feithrin yn dyner ei afallen bêr. Fe’i himpiodd a chododd bolion drain o’i chwmpas, ond neithiwr, meddai, a’i galon ar hollti, aeth y cwbl yn ofer. Cyn gŵyl Ieuan, dyna Maald yn sleifio dros gae drysi, â’i chrysbeisiau a’i ffyn a’i bachyn coed o bren helyg, ac yn dwyn digon o afalau i dylwyth cyfan. Y mae manylder chwerw’r disgrifio yn ogleisiol ynddo’i hun, ac y mae’r modd y mae Madog yn cyfarch yr afallen a’i phersonoli fel dioddefydd clwyfus yn ychwanegu at naws drasicomig yr awdl.

Hynodrwydd mwyaf yr awdl hon yw fod y fformwla *Afallen beren ...*, a geir ar ddechrau chwech o’r saith caniad, yn adlais beiddgar o’r gerdd

¹ Ceir testun yn MA² 324–5.

'Afallennau Myrddin' o Lyfr Du Caerfyrddin.² Cymysgedd yw'r 'Afallennau' o chwedl Myrddin Wyllt o'r Hen Ogledd a'r amryfal ddaroganau a gysylltwyd â'i enw. Ar wahân i'r fformwla agoriadol hon sy'n cychwyn caniadau'r ddwy gerdd, nid oes tebygrwydd amlwg rhwng y cerddi, er bod yma ambell adlais posibl arall o chwedl a daroganau Myrddin, fel y sylwir yn y nodiadau isod. Diau y buasai parodi dysgedig o'r fath yn ddigri o anghydnaws i gynulleidfa o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, wrth i Fadog gynysgaeddu ei fygythion i'r lleidr afalau ag awdurdod tywyll yr hen ganu darogan. Y mae hyd yn oed yn mentro bathu triawd newydd sbon, gan adleisio un o hoff ddyfeisiau'r canu mawl: *Tair afallen pêr, pored—o anfodd* (ll. 21)—pren gwybodaeth gardd Eden, afallen Myrddin yng Nghoed Celyddon lle y bu'n cuddio rhag Rhydderch Hael yn sgil lladd ei frenin, Gwenddolau, ac afallen druenus y bardd ei hun.

Y mae'r dychan yn eithafol wrthfenywaidd. Darlunnir Maald fel putain gyffredin sy'n denu gwŷr meddw i'w gwâl, ac y mae anlladrwydd rhywiol y dychan, yn enwedig yn y trydydd caniad, yn wrthbwynt amharchus i ganu serch y cyfnod, i'w gymharu â cherdd arall o'r Llyfr Coch, sef awdl ddychan Prydydd Breuan i Siwan Morgan o Aberteifi.³ Honnir iddi hithau hefyd dwyllo'r bardd, a chaiff ei mellithio'n ddirugaredd yn un o gerddi mwyaf maswedus y cyfnod. Caiff rhywioldeb Maald ei ddychanu hefyd drwy gyfrwng y cysylltiad ymhlyg rhwng yr afalau a'r afal drwg yn Eden. Ysbeiliwyd cnwd yr afallen *o flas, o flys merched* (ll. 18), trawiad cynganeddol a gysylltir (fel y sylwir isod) â phechod Efa ym mharadwys. Uniaethir Maald ag Efa, felly. Pechadures ydyw, neu, fel y dywed Madog â'r amwysedd eironig sy'n britho'r gerdd, *Dyn ni wŷr ffrwythau sallwyrâu saint* (ll. 46).

Ceir fframwaith mydryddol mawreddog i'r hanes, gyda mesur gwahanol i bob un o'r saith caniad: gwawdodyn, toddaid, cyhydedd nawban, cyhydedd hir, rhupunt, byr a thoddaid ac englyn proest estynedig. Nid oes cyrchgymeriad rhwng y caniadau; yn hytrach, fel y gwelwyd, cychwyn pob caniad ond yr olaf â ffurf ar y fformwla agoriadol *Afallen beren ...* Ar y cyfan, nid yw'r cymeriad llythrennol a chynganeddol lawn mor gywrain â'r hyn a geir yn rhai o awdlau eraill y bardd. Fel y disgwyliid mewn awdl o'r cyfnod hwn, ceir cynghanedd sain mewn rhagor na hanner y llinellau, ac y mae tua thraean o'r rheini'n bengoll. Ceir sain ddwbl yn llinellau 53 a 55 (er nad yw cynghanedd yn angenrheidiol yn y llinellau hynny), a sain drosogl yn llinellau 46 a 50. Cynghanedd sain (gyflawn) yn unig a geir ar fesur rhupunt (llau. 59–75), a chynganeddion traws a chroes yn unig yn yr englyn proest (llau. 94–9). Ceir ambell gynghanedd braidd gyffwrdd (e.e. llau. 2 a 9), ac

² LIDC cerdd 16. Gw. ymdriniaeth A.O.H. Jarman, *ib.* xxxv–xl; *id.*, 'The Welsh Myrddin Poems', yn *Arthurian Literature in the Middle Ages*, ed. R.S. Loomis (Oxford, 1959), 20–30; 'Early Stages in the Development of the Myrddin Legend', yn AH 326–49.

³ GPB cerdd 3. Sylwir ar y tebygrwydd rhwng y ddwy gerdd yn *ib.* 31–4. Cf. hefyd ddychan Gruffudd ap Maredudd i butain ddienn, GGMD iii, cerdd 8.

nid oes ond dwy gynghanedd lusg (llau. 35 a 43).

- 1 **afallen beren** Ceir y geiriau *Afallen peren* ar ddechrau pob caniad o'r gerdd 'Afallennau Myrddin', LIDC cerdd 16, sy'n cychwyn â'r ll. *Afallen peren per y chageu*. Yn yr eirfa, *ib.* 160, rhoddir yr ystyr 'pêr, melys' i *peren*. Yn GPC 2766–7 rhestrir yr enghreifftiau hyn d.g. *pêr*² fel eb. 'gellyg, rhwning; ffrwythau melys; coed gellyg, *Pyrus communis*; coed sy'n dwyn ffrwythau melys' (cf. Llyd.C. *perenn*), ond ychwanegir y gall mai a. yw rhai o'r enghreifftiau a ddyfynnir. Rhydd GPC² 95, d.g. *afallen*, yr ystyr '(sweet) apple tree' i *afallen bêr* ac *afallen beren*, gan ddyfynnu'r enghreifftiau hyn ymhlith eraill, e.e. WML 104 (llau. 12–13) *Avallen per trugeint atal. Auallen sur dec arhugaint atal*. Cf. hefyd *afalau perion / pêr* 'sweetings, sweet apples', GPC² 94 d.g. *afal*¹. Anodd gwybod ai a. ynteu e. ydoedd *peren* i fardd yr 'Afallennau', ond ymddengys mai a. ydyw yn awdl Madog Dwygraig.
- 3 **rhwydd waelawd** Cyfeiriad, mae'n debyg, at ei haelioni rhywiol. Cf. disgrifiad Gruffudd ap Maredudd o butain fel un a chanddi *rwyd waelawd*, GGMD iii, 8.7, ac, efallai, yr ymadrodd tywyll *Gwaelod bonrosiwr* mewn awdl ddychan arall o'r Llyfr Coch, GPB 8.17. (Golygwyd yr awdl honno fel cerdd ddienw, ond fel y sylwodd Daniel Huws yn ddiweddar, y mae modd darllen yr e. *Kennwrig* (Cynwrig) uwchben y gerdd yn y Llyfr Coch, gw. 'Llyfr Coch Hergest', yn CyT 28.)
- 3–4 **rhyweles ... / Gael ...** Â'r gystrawen, cf. yr ymadrodd *Clywais ddweud ...*, a GDG³ 93 (33.27–8) *Gwelais lawer, fab Gwilym, / Gael gŵr a wnelai gelg ym*.
- 4 **gŵyl Ieuan** Gŵyl Ieuan y Moch neu Ieuan y Coed (sef Ioan Fedydd-iwr) sy'n gweddu, a ddehllid ar 29 Awst, yn hytrach na gŵyl Ieuan (Ifan) hanner haf, sef 24 Mehefin. Yr esboniad ar yr enwau yw mai dyna pryd yr oedd hi'n gyfreithlon mynd â moch i'r coed i'w pesgi ar fes, gw. GPC 1759.
- 5 **Maald** Llsg. C *Malt*, ac felly hefyd yn y llsg. yn llau. 28, 37 a 40, ond *maalt* yn llau. 52, 63 (a'r ail *a* wedi ei hychwanegu) a 95. Y ffurf ddeusill ar yr e. sy'n gywir ym mhob achos, cf. y ffurf fachigol *Meheldyn* yn llau. 81 ac 86. Ceir *Meheldyn* yn enw gwrach yng nghywydd dychan Iolo Goch i Herstin Hogl, GIG 161 (XXXVI.15), a honnir yn gellweirus gan Ddafydd ap Gwilym fod rhyw *Mald y Cwd* yn fam i Ruffudd Gryg, GDG³ 412 (154.44). Ynghylch y ffurfiau *Mald*, *Ma(h)ald*, *Mahallt*, sy'n cyfateb i'r e. S. *Matilda*, gw. nodyn Thomas Parry, *ib.* 554.
- 6 **mawr a ddug** Llsg. C *maôr aduc*. Fe'i rhestrir yn GPC² 77 d.g. *addug*¹ 'amcan, ysgogiad, bwriad, ewyllys, awydd, dyhead, chwant, awch, archwaeth (gwancus); grym, trais, cyrch, camp', ond nodir mai

tywyl yw nifer o'r enghreifftiau llenyddol a ddyfynnir. Cymerir, yn hytrach, mai ffurf 3 un.grff.myn. y f. *dwyn* sydd yma, yn dilyn y rh.pth. *a*; â'r gystrawen, cf. ll. 67 *Mawr a ddysgais*.

- 8 **nid â'n ances** Gellid aralleirio: 'nad â'n lleian'.
- 10 **pwynt darogan** Petrus yw'r aralleiriad 'uchafbwynt darogan', cf. yr ystyr 'ennyd, moment; adeg argyfyngus neu dyngedfenol' a roddir yn GPC 2950–1 d.g. *pwynt*¹ gydag enghreifftiau o'r un cyfnod. Tybed ai'r ergyd yw bod eraill wedi rhag-weld y byddai Maald yn beichiogi petai'r bardd yn ymhél â hi, ac mai gwireddu'r darogan yw achos ei siom? Gan fod yr awdl yn adleisio'r 'Afallennau', y mae'r sôn am ddarogan yn dwyn i gof ddaroganau Myrddin, cf., e.e., GLIL 25.41–2 *Darogan Mertin dyuod breyenhin / O Gymry werin o gamhûri*.
- 11 **tincen** Cynigir yn GPC 3499 yr ystyr 'lleuen', gan awgrymu'n betrus ei darddu o S. *tick* + *-en*: 'Ar lafar, 'tincen' 'a mite which infests the hair, etc., louse', *SC* vi. 134 (sir Benf.). Dichon mai enghraifft gynnar o'r gair hwnnw sydd yma.
- 15 **berwaf** Llsg. C *ver6 aual*, sy'n gwneud y ll. yn rhy hir o sillaf. Awgryma J. Lloyd-Jones ddarlenn *au(y)l*, sef *gafl*—gw. G 14 d.g. *au*l, *aval*, ac *ib*. 518 d.g. *gav(y)l*—ond gan nodi bod hyn yn ansicr yn wyneb *ferwad* yn ll. 31, lle y ceir amrywiad ar y ll. hon: *Rhai a hawdd ferwawdd, ferwad ystled—bân* (d.g. *berw*, *ib*. 56, awgryma'n bendant ei ddiwygio yn *ferwad*). Fodd bynnag, yng ngoleuni'r cyfeiriadau eraill at rywioldeb Maald, y mae'n ddiwygiad cwbl resymol; byddai'n anodd esbonio *ver6 aual* fel arall. Cf. yn arbennig l. 88 *Gafffeddal gwnwal ugeinwais*, 15.20 *Gwrach aflsur*.
- 17–18 **a bored ... / Ei chnwd ...** Ar y defnydd hwn o'r rh.pth. *a* mewn cymal pth. afrywiog, gw. GMW 65.
- 18 **o flas, o flys merched** Trawiad cynganeddol cyffredin yn y cyswllt hwn. Cf. GPB 7.1–2 *Da y gorug Duw dial—ein difa / Ar bla blys Efa rhag blas afal*; GCBM ii, 16.98–9 *O gatwent pressent y bryssya—dial / Blas aual, blys Eua*.
- 20 **blotai** Cf. isod 15.22 *Gwrach flotai*.
- gawlai galed** Nid yw darlenniad llsg. C, *gallei galet*, yn ystyrllon, a disgwyliad i'r ddau air gynganeddu â'i gilydd er mwyn cwblhau'r gynghanedd sain. Ni rydd *galai galed* (o'r S. *galley*) na *gallai galled* ystyr foddhaol, a buasai *gallai golled* yn ormod o ddiwygiad. Ymddengys *cawlai* 'cardotwraig gawl', ar batrwm *blotai*, yn ddiwygiad mwy rhesymol, er mai eg. yw *cawlai* fel rheol; cf. GDG³ 61 (21.43) *Gwasg dasg desgldraul caul cawlai* (dychan i Rys Meigen). Posiblirwydd llai deniadol yw *calai* (*cal* + *-ai* ar yr un patrwm eto), ond cf. llau. 41–4 isod a'r ffurf *caliwr* 'cnuchiwr', GDG³ 217 (79.49).

- 21 **tair afallen pêr** Ar ffurf gysefin a. ar ôl eb. sy'n dilyn rhifol uwch na *dwy*, gw. Treigladau 64–5 a GIG 184 (I.68n).
- 23 **un ym mharadwys** Pren gwybodaeth da a drwg a dyfai yng nghanol gardd Eden, gw. Gen ii. 16–17, iii. 1–6. Fel y noda M. Paul Bryant-Quinn, GIBH 8.2n: ‘Yn llyfr Genesis, nid enwir ffrwyth y pren gwybodau da a drwg. Mwysair, a ddaeth o chwarae ar ystyron y ddau e. Llad. neodr *malum -i* (‘anffawd, helbul; cosbedigaeth’) a *malum -i* (‘afal’), a barodd y traddodiad canoloesol mai afal a gymerodd Efa o’r pren i’w roi i Adda.’
- 24 **rhwng hen a newydd** Ai rhwng yr hen baradwys ddibechod a’r byd halogedig yn sgil bwyta o ffrwyth y pren?
- 25 **ail ... rhodded i Fyrddin** Yr afallen yng Nghoed Celyddon lle y bu Myrddin, yn ôl y chwedl, yn cuddio rhag Rhydderch Hael yn dilyn brwydr Arfderydd, gw. LIDC cerddi 16–17 ac *ib.* xxxv–xl.
- 26 **cyffredin** Yn yr ystyr ‘teg, cyfiawn’. Cf. LIDC 2 (1.37–8) *Can ys mi myrtin guydi. taliessin. / bithaud. kyffredin. vy darogan* (‘Ymddiddan Myrddin a Thaliesin’).
- 30 **gwŷd a godded** Deallir *codded* yn e. yma; gthg. G 156 lle y rhestrir yr enghraifft hon yn ffurf amhrs.grff. y f. *coddi* ‘digio, poeni’. Deallir *gwŷd*, felly, yn a. ‘drwg, creulon, anfad’, fel y gwneir yn GPC 1750. Â’r gystrawen, cf., e.e., ll. 66 *dynn a doli*, ll. 70 *Mawr a soniau*, a 6.8 *gwŷl a oddau*.
- 31 **ferwad ystled—bân** Petrus yw’r aralleiriad. Tebyg mai ffurf dreigledig *pân* ‘ffwr, manflew, croen (anifail)’ a gynrychiolir gan *ban* y llsgr., yn hytrach na *pan* ‘cwpan, dysgl yfed, cawg, ?crochan’—er y byddai ‘crochan’ yn gweddu yn y cyd-destun—neu *ban* ‘uchel’. Nid yw arwyddocâd *ystled* yn gwbl eglur ychwaith. Cofnodir dwy enghraifft arall yn slipiau GPC (o’r 18–19g.), lle y mae’r ffurf yn amrywiad ar *ysled* ‘sled, car llusg’, o’r S.C. *sled*, gw. GPC 3863 d.g. *ystled*, *ib.* 3302–3 d.g. *sled*, *ysled*¹ (‘ystlêd’ neu ‘yslêd’ yw’r ynganiad). Cf. GIG 148 (XXXIII.47) *Llydan yslêd graean greg* (i’r llong); gw. *ib.*n: ‘*sled*, ‘*A drag used for the transport of heavy goods etc.*’ (OED, enghr. 1388)’. Ai cerbyd i gludo crwyn, felly, cf. y modd y defnyddir enwau cerbydau yn ddifriol am bobl yn y canu dychan, gw. 11.29n isod ar *masw gerbyd—diflas*. Cf. hefyd, efallai, *ysled*² ‘slebog’, a gymherir â’r ffurf S.taf. *sled* ‘a big slatternly woman’, GPC 3857 (enghreifftiau o’r 18g), a gw. *ib.* 3304 d.g. *sleten*². Os dyna sydd yma, tybed na ellid deall *pân* yn drosiad am gedor Maald? Cf. ll. 15 *Rhai a hawdd ferwawdd, ferwafll trigwres—tân*.
- 34 **a’th ddiwynodd** Llsgr. *C athdivwyna6d*. Hepgorwyd y llythyren *f* o’r *f*. gan fod y ll. yn rhy hir o sillaf. Er mai tair sillaf sydd i’r amrywiad *diwyno*, *diwynaw* yn GDG³ 8 (3.8), 286 (107.6), y mae’n debyg y gellid ei ynganu’n ddeusill, fel y ffurf lafar *dwyno*; gw. GPC 987 d.g.

difwynaf: difwyno.

gwâl Gall mai gwâl anifail a olygir yn hytrach na gwely, yn ddychan ar drigfan Maald. Y mae delweddaeth ‘anifeilaidd’ o’r fath yn gyffredin yn y canu dychan, cf. ll. 1 *beth a’th borodd*.

- 36 **crwydr** Cf. melltith Dafydd ap Gwilym, *Deugrwydr arnad ...*, GDG³ 147 (54.53), a gw. nodyn Thomas Parry, *ib.* 489.

clafri ‘Crach, clefyd clafrihyd neu gramennog (yn enw. ar ddefaid, gwartheg, cŵn, cathod a cheffylau); gwahanglwyf; tostrwydd, cur’, GPC 488. Digwydd yn drosiad am *lepram* yn LIA 32 (ll. 18). Cf. isod 13.40 *Mawr fydd cosi clafri clau*.

- 37 **Hirfynydd** Long Mountain neu Gefn Digoll, mae’n debyg, sef mynydd yn sir Drefaldwyn yr ochr draw i Hafren o’r Trallwng, gw. G.A. Williams, ‘Dau gyfeiriad yn *Hirlas Owain*’, B xxvi (1974–6), 34–5. Cyfeiria Beirdd y Tywysogion ato fel *Hirfryn*, gw. GLIF 14.114, GCBM i, 17.23. Ond cofier hefyd am Hirfynydd ger Castell-nedd ym Morgannwg, heb fod ymhell o gartref un o noddwyr Madog Dwygraig yn y De, Hopgyn ap Tomas.

- 38 **dryswrach** Dilynir G 393 d.g. *drys* a’i ddeall yn gyfuniad o *drys* ‘drysi, mieri’ a *gwrach*; cf. ll. 7 *Poeth fursen finwen o fynwes—cae drain*. Nid amhosibl, fodd bynnag, mai ffurf ar *dyrys* ‘gwyllt, anfad’ yw’r elf. gyntaf, neu *drws*, cf. *drysor* (ond rhestrir y b. *drysores* yn GPC 1096 d.g. *drysor*, enghraifft o’r 16g.).

godroswraig Llsgr. C o *dros wreic*. Cymerir mai bôn y f. *godrosi* ‘troi, treiglo, symud’ yw’r elf. gyntaf, ond gellid *godraws* yn yr ystyr ‘gormesol’.

- 40 **celffaint** ‘Pren crin, boncyff gwywedig ... yn *ffig*. am hen ddyn musgrell neu rywun araf disymud’, GPC 457. Cf. GDG³ 383 (145.39–40) *Cyfodes y delff celffaint / O’i wâl ei hun, awel haint*.

- 41 Tybed nad yw hyn yn barodi amharchus ar y darogan a geir yn ‘Afallennau Myrddin’? Cf. LIDC 26 (16.23–4) *Seithlog. y deuant dros lydan lin. / A seith cant. dros mor y oreskin*, ac *ib.* 27 (16.58–9) *Dec mlinet a dev ugein in ygein anetwon. / it vif in ymteith gan willeith a gwillon*. Cf. yn ogystal fersiwn Pen 3, B iv (1927–9), 121–2 *seith long y deuant a seith gant dros donneu. / disgynant | ar draeth adan saetheu. / ac or sawl y deuant nyt ant yn ev hatneu. / namyn seith eilweith yn ev hatnev*. Cf. ymellach LIDC 2 (1.35–8) *Seith ugein haelon. a aethan ygwllon. / yg coed keliton. y. daruuan. / Can ys mi myrtin guydi. taliessin. / bithaud. kyffredin. vy darogan* (‘Ymddiddan Myrddin a Thaliesin’). Diddorol yw sylwi y ceir yn Llyfr Du Caerfyrddin hefyd (ac yn y Llyfr Coch, R 1158.39–40) y llau. *Seith seint a seithugeint. a seithcant. / a want in un orsset*, ‘Cyntefin Ceinaf Amser’, LIDC 15 (8.14–15).

- 44 **plygai eu caliau** Gallai'r f. fod yn fwys: naill ai 'byddai eu caliau'n plygu' neu, yn llai tebygol, 'byddai'n plygu eu caliau'.
- 46 **Dyn ni wŷr ffrwythau sallwyrâu saint** Naill ai 'merch na wŷr' neu, yn fwy cyffredinol, 'ni wŷr dyn'; cf. *Safn ni ganodd sallwyr* mewn englynion dychan o waith Iolo Goch, GIG 171 (XXXIX.14). Y mae blas eironig i *ffrwythau* 'buddion, gwobrau', yn enwedig yng nghesail ffrwythau llythrennol y ll. nesaf. Gall *saint* fod yn e.ll. neu'n a. 'sanctaidd'.
- 47 **mae ffrwyth dy gangen?** Y mae darlenniad llsg. *C mae ffrwyth kangen sillaf yn brin*. Cf. ll. 60 isod *Mae ffrwyth dy frig*, enghraifft o'r math o ailadrodd gydag amrywiadau sy'n gyffredin drwy'r gerdd.
- 48 **gwae ni d'ogymen** Llsg. *C gŵae nyt o gymen*. Deellir *ogymen* yn ffurf ar *gogymaint*, cf. ll. 39; ceir *cymain*, *cymyn(t)*, *cymin(t)*, *cimin(t)* a *cimyn* yn amrywiadau ar *cymaint*, gydag enghraifft o'r 14g., gw. GPC 753. Y mae'r ystyr 'mor uchel' neu 'mor fawr' yn gweddu'n dda gyda *Cyn gostwng dy frig* yn y ll. nesaf. Ond cf. hefyd y ffurf *gogymhen* (*go-* + *cym-* + *pen*) y rhoddir iddi'r ystyr 'cyfartal, cydradd, gogyfuwch: *coequal, equal in rank or status*' yn GPC 1440 d.g. *gogyben, gogymhen, gogybened, gogymhened*.
- cwymaw** Fe'i rhestrir yn G 192 yn amrywiad ar y f. *cwympaw*, gan nodi'r enghraifft hon yn unig. Ni restrir y ffurf o gwbl yn GPC, ond fe'i profir gan y gynghanedd. Cf. ll. 56 *wedy ei chwympiaw*.
- 49 **cyn** Llsg. *C Kyt*. Rhestrir *?k gostwng* yn G 118 d.g. *ke, ky (... kyt ...)* 'er', ond ymddengys hynny'n ddiystyr. Er bod *cyd* yn cyflythrennu â *coedfach*, nid yw hynny'n angenrheidiol o gwbl yng ngoleuni rhai o lau. eraill y caniad hwn. Mentrir diwygio, felly, gan ailadrodd yr ardd. *cyn* a geir yn y ll. flaenorol.
- 53 **holl dafngoll dyfngont** O ddeall *holl* yn a. 'holltog' yn hytrach nag e. 'hollt', gellid *holl ddafngoll ddyfngont*. Dyma'r ail gynghanedd sain yn y ll. orchestol hon.
- 54 **hydaith** Llsg. *C hydeich*. Diwygir er mwyn yr ystyr a'r gynghanedd (*hydaith / hy y doeth*).
- trostan** Eb.g.: 'Picell, polyn (hir), ffon, trawst, croesfar, hefyd yn *ffig*.' (*trawst* + *-an*), GPC 3620. Cf. y defnydd dychanol o'r gair mewn awdlau dychan o waith Llywelyn Ddu ab y Pastard, GLIBH 19.127 *Trostan farw culgarw*, a aralleirir 'Polyn marw yw[r] carw tenau', ac Ieuan ap Rhydderch, GIRh 10.77–9 *Trwyn oer bladur, triniwr blodau, / Tryfer hwyr gar trwy fawr hirurg, / Trostan fesur, trwst anfoesau*, '[Dyn o] hyd polyn'.
- hy y doeth drostaw** Cywasger *hy* y er mwyn hyd y ll. Y mae *drostaw* yn cyfeirio'n ôl at *pryd* neu *pren* yn y ll. flaenorol.
- 55 Ll. orchestol, anodd ei dehongli eto, ac ynddi ddwy gynghanedd sain.

rhyd Yr unig ystyr sy'n gweddu yw 'cyfle', gw. GPC 3126 d.g. *rhyd*¹ (b) a cf. enghraifft o'r 14g., Bren Saes 62 (llau. 16–17) *A chael ryt ohonaw* [amrywiad: *ef a gavas gyfle*] *boregweith y dyuot y'r ystauell lle yr oed Gotwin yn neffro* ... Gw. hefyd 4.9n.

rhid 'Ymgwydiad â'r fenyw (am anifeiliaid), pariad, hefyd yn ddirf.', GPC 3067. Cf. GPB 3.15 *Rhid anwar daengar, dingau,—ddiserchson* (dychan Prydydd Breuan i Siwan Morgan o Aberteifi); GGMD iii, 8.7 *Llid rid, rwyd waelawd lawd lam* (dychan i butain anh.)—ceir yr un math o ymorchestu geiriol a chynganeddol yn y ddwy gerdd hyn hefyd.

cefn weinlefn, wanlas Anodd deall beth yn union yw ystyr hyn, oni bai fod *cefn weinlefn* yn wall am *cafn weinlafn*, cf. G 97 'cafn, llestr; yn ffig. tin'. Cf. *cafn defni* a aralleirir yn betrus '[un â] thin [sy'n] diferu', a'r ffurfiau *cafnrhwth* a *cafn gau* a aralleirir 'agored ei din' (cf. *ib*) yn GC 11.34, 132, 145 (dychan Casnodyn i Drahaearn Brydydd Mawr). Cf. hefyd ddisgrifiad Gruffudd ap Maredudd o butain fel un a chanddi *croth loth roth* ('croth wancus agored'), GGMD iii, 8.11.

56 **cwmpas** Y tir yng nghysgod y goeden. Cf. GLIG 10.5 *yng nghwmpas glasgoed; Y Seint Greal*, ed. Robert Williams (London, 1876), 261 (llau. 15–16) *prenn mawr deilyawc. ac yn vawr y gwmpas ar y daear* ...

58 **eu** Cymerir bod y6 llsgr. C—efallai dan ddylanwad yr y6 ('i'w') sy'n ei ragflaenu yn yr un ll.—yn wall am *y*, yn cynrychioli naill ai 'eu' (yn cyfeirio at y canghennau) neu 'ei' (am yr afallen ei hun).

61 **Adda bynnau** Cyfeiriad at hanes Adda a'r afal drwg yn ngardd Eden, cf. llau. 23–4. Ond sylwer bod *afal Adda* / *Adam* yn enwau ar fathau penodol o afalau, gw. GPC² 94 d.g *afal*¹.

62 **gefel** Ymddengys mai gwallus yw *gevnel* llsgr. C. Cf. ll. 89 *Gefel gël gulton ei hirais*, a'r un ddelwedd mewn cyswllt dychanol mewn awdl o waith Llywelyn Ddu ab y Pastard, GLIBH 19.65–6 *Cyfarthfws fadws, Fadog—fab Hywel, / Cyfryfel gefel isel oesog, ib.* ll. 141 *Cysgadur efel melin*.

trawsgoed Ceir *Trawsgoed* yn e. fferm yn Llanuwchllyn heb fod ymhell o gartref tebygol Madog Dwygraig yn Llanygerw. Cf. Thomas Jones o'r Trawsgoed a gopiodd ymryson Prys a Chynwal yn ail hanner y 18g., gw. YEPWC xxii. Fe all mai'r e. lle sydd yma, neu fod Madog yn chwarae ar amwysedd y gair.

64 **bolli** 'Agor, lledu, rhythu', GPC 298. Cf. GPB 3.4 *Rhyhawdd y bollawdd balleg ffeiriau* (awdl Prydydd Breuan i Siwan Morgan o Aberteifi) a ll. 72 isod *aeth yn falleg o'i thinfolli*.

66 **tynnu ysgawlwyth** Llsgr. C *tynnv ysga6 l6yth*, ond nid yw'r ystyr 'ysgawen' fel petai'n gweddu yma, a haws cywasgu'r geiriau'n bedair sillaf o ddarllen y ffurf gyfansawdd *ysgawlwyth*. Cymerir mai *ysgawl*

‘arwr, pencampwr, rhyfelwr’ yw’r elf. gyntaf, llwyth digon trwm i arwr, felly. Mwy tebygol hynny nag ysgol ddringo.

- 67 **cân ogenaïs** Llsg. *kann ogeneis*, ond ni ddisgwyliid treigladd meddal yn dilyn y cys. *can*, gw. Treigladau 381. Diau fod arlliw o’r ystyr ‘darogan’ ar y f. *goganu* yma, gw. GPC 1435 a cf. *Run y enb ryuel ovri. aoganafy dyderbi. gwendyn g6lat yn anghat veli* yn nhestun y Llyfr Coch o ‘Cyfoesi Myrddin a Gwenddydd’, R 578.2–3. Digwydd y ffurf gysylltiedig *disgogan / dysgogan* droeon yn yr ‘Afallennau’ a’r ‘Oianau’, gw. LIDC, cerddi 16–17 *passim*.

cyn no geni Er bod hyn yn ramadegol gywir, tybed na ddylid diwygio i *cyn no’i geni?* Cf. ll. 71 *cyn no’i hengi*, a GLIF 26.178–9 *A g6yrtheu a oruc g6yrthua6r Dewi, / Bu obeith canhweith kyn no’e eni*.

- 68 **Myrddin y’ m gwnair ...** Nid yw’r ystyr yn gwbl eglur, oni bai mai’r hyn sydd yma yw cymhariaeth syml â Myrddin gan i’w afallen yntau hefyd gael ei phori ‘o anfodd’, gw. llau. 21–6. Dichon fod yma adlais digri o ddigofaint a gwallgofrwydd Myrddin (ac, o bosibl, ei barablu di-baid) yn sgil lladd ei frenin, Gwenddolau, ym mwrwydr Arfderydd. Cf. disgrifiad Dafydd ap Gwilym o’r Garreg Ateb, GDG³ 347 (130.5–8) *Mwy y dywaid heb beidiaw / Ar ael y glyn ar ôl glaw / No Myrddin sonfawr mawrddig, / Fab saith Gudyn, y dyn dig*, a sylwer yn arbennig ar y tebygrwydd rhwng yr a. *sonfawr* a *Mawr a soniau* yn ll. 70 isod. Ynghylch cyfeiriadau’r cywyddwyr at chwedl Myrddin Wylt, gw. nodyn Eurys I. Rowlands yn LICy iv (1956–7), 117–19.

- 75 **gwyddfid** Yn ogystal â ‘coed, coedwig, llwyn’, gall olygu ‘gwrych amddiffynnol, cadlys drain’, gw GPC 1755 d.g. *gwyddfid*¹ ac EWSP 574–5. Yn llau. 51–2 dywed Madog iddo gywain polion a drain er mwyn gwarchod y goeden.

y gweli Gellid *ei gweli* (llsg. C y *g6eli*).

- 82 **gystal â gwlatrais** Y mae’r ll. sillaf yn fyr yn llsg. C *gystal g6lattrais*. Yn GPC 1682 cynigir yr ystyr ‘?ysbeiliwr neu anrheithiwr bro’ i *gwlatrais* (*gwlad + trais*), gan restru hon yn unig enghraifft (dyfynnir llau. 82–3 fel y maent yn llsg. C). Rhydd G 689 d.g. *gwlat*: ‘? *gwlatrais* (: *treis* : *treissaw*) “ysbeilio neu anrheithio bro”, e.e. *a gostwng gystal gw.* R 1276.30 (y mae’r ll. yn fer o sillaf, ac os na ellir *gwlatraeis*, gellir cynnig *gwlat a.*’. Fodd bynnag, enghreifftiau geiriadurol o’r 18g. a restrir yn GPC 232 d.g. *atrais* ‘tâl pwyth, dial’, ac fel y nodir yn G 46 y mae *atreis* R 1255.16 i’w ddiwygio i *atleis* (cf. GGD 5.42). Buasai *gwl adlais* yn ddiwygiad posibl ond annhebygol o ran ystyr a rhythm y ll. Yn betrus, felly, ychwanegwyd yr ardd. *â*, ond cofier hefyd am y ffurf (*g*)*ogystal*, cf. 1.40 *Ogystal anaw o’i gystlynedd*.

- 85 **Marlais** Afon Marlais sy’n llifo drwy ardal Abermarlais a Llansadwrn yn sir Gaerfyrddin.

- 86 **cylyn** O'r S. *kiln*. Dyma'r unig enghraifft cyn y 18g., gw. GPC 751.
- 87 **d'annhegais** Llsgr. C *dan ekeis*. Dilynir G yn GPC 1158 d.g. *ecais*: '[? i'w gysylltu â *cais*] eg. neu *ba*. ? Ceisiwr, ymofynnydd; ceisio, ymofyn'. Gellir awgrymu'n betrus, fodd bynnag, fod *dan ekeis* yn cynrychioli *d'annhegais* (*dy* + *annheg* + *ais* 'asennau'), a bod Madog, fel y gwna mewn manau drwy gydol y gerdd, yn cyfarch yr afallen yn uniongyrchol. Ceir *annheg* yn ll. 72 a *hirais* yn ll. 89 (llsgr. C *hiryeis*), a chydwedda'r ystyr yn dda ag *abo* 'sgerbwd' (ll. 16) a *balleg* 'cawell' (ll. 72). Diddorol sylwi bod J. Lloyd-Jones, G 45, yn nodi '?*ekeis*' ymhlith y ffurfiau cyfansawdd d.g. *assen*².
- 88 **cwnwal** Rhestrir yr enghraifft hon yn G 613 d.g. *gwân* fel *gw[a]nwal*, gan ddeall yr elfen gyntaf yn fôn y f. *gwanu* yn yr ystyr 'taro, hyrddio, gwthio; trywanu'. Fodd bynnag, rhydd *cwân* + *gwâl* ystyr ddigon addas yn y cyd-destun, cf. *mochwal*, *ib.* 607 d.g. *gwâl*². Llai tebygol yw mai benthyciad sydd yma o'r S. *gunwale* 'ymyl uchaf ystlys cwch', gw. OED², vi, 961 d.g. *gunwale*, *gunnel* (enghraifft gynharaf 1466).
- 92 **Gafr hyfram, fawtgam, fwytgais** Cf. GPB 9.69–70 *Min tarandin toryndwll*, / *Myn fwch llwyd ceisfwyd, coesfoll*.
- bonllomach** O graffu ar lsg. C, ymddengys mai gwallus yw *vonllômach* R 1276.38; *vonllômach* a geir, e.e., yn llsgrau. E ac F.
- 93 **lluman** Yr ystyron sy'n gweddu yw 'creadur o ddyn tal, tenau, ac afrosgo, llipryn trwsgl neu ddi-lun; person diffaith, da i ddim; person tlawd; person noeth', GPC 2222–3 d.g. *lluman*², *llyman*³. Cf. *noeth luman* / *lymun*; B xvii (1956–8), 85 *fecis hen llvman cyleirch yn [n]oeddlvmvn* (Dafydd y Nant, 15g.). Tybed na allai *lluman* olygu 'bwgan brain', neu—a deall y gair yn ei ystyr arall—faner i ddychryn brain? Cf. GDG³ 65 (22.31) *Lluman brain gerllaw min bryn*.
- Llanferrais** Llanferres ger Rhuthun yn sir Ddinbych, gw. WATU 119. Cf. BI B XIV 151 (70.55–6) *Yfory'dd af Lanferrais*, / *O Fair, pwy a bair ym bais?* (Iocyn Ddu ab Ithel Grach).
- 94 **gwrŷf** Gwasgwr grawnwin neu feis. Fe'i deallir yn ddisgrifiad trosiadol o wain Maald—cf. efallai ergyd y trosiad *gefel* yn llau. 62, 89. Â [g]wrŷf *main eiddil*, cf., efallai, ddisgrifiad Gruffudd ap Maredudd o wain putain sydd wedi ei gordefnyddio fel *Cafn traed waed wain grain, nid grym*, GGMD iii, 8.10. Ond cf., o'r 17g., *megis mewn gwryf mawr y gwescir afalau ynddo* yn Charles Edwards, *Y Ffydd Ddi-ffuant*, gol. G.J. Williams (Caerdydd, 1936), 167 (llau. 3–4).
- 95 **terchwain** Awgrymir yn betrus yn G 313 d.g. *derchwein* mai *torch* + *gwain* sydd yma. Ceir enghreifftiau o *terch*, fodd bynnag, o'r 16g. ymlaen yn golygu 'twll casgen', gw. GPC 3481, ac y mae'r ystyr yn addas yma.

Maald oerchwyl Llsgr. *C maalt dyfyrchw oerchwyl*, a llinell goch wedi ei thynnu drwy *dyfyrchw* (hep gorwyd y gair ym mhob un o'r llsgrau eraill). O dderbyn *dyfrchw* (ag *w* sillafog) byddai'n rhaid troi llau. 94–5 yn doddaid byr: *Mae'n eiddi wrÿf main eiddil,—moel derchwain, / Maald Dyfrchw oerchwyl*; gellid aralleirio: 'Maald ac iddi anffawd Dyfrchw'. Ond buasai'r gynganedd fymryn yn afreolaidd gan y disgwylid i'r ddwy *d* yn *Maald Dyfrchw* galedu'n *t*, ac yn bwysicach, ni ddisgwylid odl broest ar fesur toddaid, tra bo englyn proest chwe ll. yn ddigon cyffredin yn y cyfnod hwn, cf. 3.25–30 a gw. J. Morris-Jones: CD 326. Awgrymodd Twm Morys, *Barddas*, 244 (Rhagfyr /Ionawr/ Chwefror 1997–8), 57, mai ffurf ar y gair Gwydd. *dobhrchú* 'dyfrgi' sydd yma. Er bod cyfeiriadau difriol at ddyfrgwn yn gyffredin yng nghanu dychan y Llyfr Coch, cf. R 1292.7, 1360.2, 1364.20, 1365.29, 39, ni ddigwydd y ffurf hon yn unman arall. Os yw'n ffurf ddilys fe all fod yn e. prs.: ceir *Cuirithir fab Doborchú* yn chwedloniaeth Iwerddon, a digwydd *Dob[h]archú* o leiaf ddwywaith, mewn rhestr o arwyr Iwerddon ac fel enw ar dad i sant (*ex inf.* W.J. Mahon).

10

Y mae'r awdl hon¹ yn debyg i'r gerdd flaenorol o ran gwreiddioldeb ei chynnwys, ei harddull storïol a'i thuedd at barodi. Testun y dychan yw llo a anfonwyd yn rhodd i'r bardd uwchlaw Rhiwedog ym Mhenllyn, heb fod ymhell o'i gartref. Unwaith eto, gwelir ei hoffter o naratif wrth iddo'i osod ei hun yng nghanol y ffars. Wedi iddo ymgynghori â gwÿr doethion fe addawyd iddo ych cydnerth, ond yr hyn a gafodd oedd llo afiach a chwbl ddiwerth. Yn hytrach na moli'r rhodd, felly, fel y gwneir yn gyffredin yn y canu gofyn a diolch,² â Madog ati i fychanu'r llo â gormodiaith gwbl anghymesur. Try'r dyfalu moliannus arferol yn ddyfalu chwerthinllyd o ddiurddas. Try'r llo yn asyn, yn elain, yn gymar dyfriar, yn hen wÿdd, yn ffured, yn ffwlbart, yn wahadden, yn gimwch, ac nid yw fymryn mwy na morgrugyn, neu chwannen ar erchwyn gwely. Try'r diolch i'r rhoddwr yn felltith—*Emelltith Fab Duw ... / I'i dÿ a'i feudy o dai Fadog* (llau. 25–6). Poera Madog ei rwystredigaeth mewn litani hynod o glefydau gwartheg (llau. 61–6). Ofer, meddai, yw pob ymgais i werthu'r anifail.

Bu cyfaill Madog, Iolo Goch, yn chwarae â'r un *genre* wrth ganu dau gywydd yn gofyn ac yn diolch am farch gan Ithel ap Robert pan oedd hwnnw'n archddiacon Llanelwy,³ ac er nad dychan fel y cyfryw sydd gan

¹ Ceir testun yn MA² 323–4.

² Diffinnir nodweddion y *genre* gan Bleddyn Owen Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c. 1350–c. 1630* (Caerdydd, 1998).

³ GIG 55–63 (cerddi XII–XIII). Am enghreifftiau diweddarach o gerddi cellweirus yn gofyn meirch a gwartheg, gw. DGIA 65n.

Iolo, y mae ysbryd cellweirus ei gerddi yn ddigon tebyg i'r awdl hon. Ceir enghraifft ddiddorol o ganu'n groes i *genre* y canu gofyn a diolch mewn awdl arall o'r Llyfr Coch, awdl yr Ustus Llwyd yn difenwi offeiriad cybyddlyd na chadwodd ei addewid i roi swrcod yn rhodd i'r bardd.⁴ Y mae'r gerdd honno'n orlawn o gyfeiriadaeth hanesyddol a chwedlonol ddysgedig sy'n gwawdio hynafiaeth y dilledyn. Fel y mae Madog yn adleisio 'Afalennau Myrddin' yng ngherdd 9, y mae'r Ustus Llwyd yn ailadrodd un o fformwlâu'r corff o ganu sydd ynghlwm wrth chwedl Taliesin: *Hi a fu am Eraint ac am Arwy ... / Hi a fu am Frutus yn hen fretyn ...*, ac felly ymlaen am ryw ddeg ar hugain o linellau. Tebyg yw honiad Madog i'r llo druan gael ei eni yn yr un oes â'r saint Cynog a Deiniol, o hil hen fuwch foel Coel Godebog (llau. 21–2), cyndad Urien Rheged a sylfaenydd rhai o linachau brenhinol yr Hen Ogledd.⁵ Gellir dehongli hyn eto fel parodi ar yr arfer o olrhain achau noddwyr yn y canu gofyn a diolch, ac yn y traddodiad mawl yn gyffredinol.⁶

Ymranna'r awdl yn bedwar caniad ar fesur toddaid, gwawdodyn, byr a thoddaid a thri englyn unodl union. Ceir y fformwla agoriadol *Tprue! Lõe lo ...* ar ddechrau'r tri chaniad cyntaf, heb gyrc-h-gymeriad rhwng y caniadau. Y mae'r cymeriad llythrennol a chynganeddol yn arbennig o gryf yn y trydydd caniad sydd ar fesur byr a thoddaid. Ceir cyfran uchel o gynganeddion sain, nifer ohonynt yn bengoll, gyda sain ddwbl yn llinell 28. Ceir ambell gynghanedd braidd gyffwrdd, yn enwedig yn y trydydd caniad, a chynghanedd lusk yn esgyll dau o'r englynion (llau. 79 a 83).

- 1 **Tprue** Rhestrir yr enghraifft hon, ynghyd â *tprwo* GPB 10.19, yn GPC 3538 d.g. *tprwy*: '[cf. S. C. *tprw* 'imitation of the sound of a horn', S. Diw. Cyn. *tphrowh* 'exclamation to call attention'; ansicr yw'r union ynganiad] *ebd*. Gair a ddefnyddir i yrru gwartheg neu i'w stopio'. Gw. hefyd yr enghreifftiau diweddarach a restrir yn GPC o dan y ffurfiau tebyg *prwy*¹, *p(t)rw*; *prwdi*; *trwdi*; a *trw*¹, *trwa*, *trwe*, *trwi*, *drw*¹ a David Thomas, *Animal Call-words* (Carmarthen, 1939), 62. Â'r ffurf sydd dan sylw yma, cf., e.e., D.J. Evans, *Hanes Capel Seion* (Aberystwyth, 1935), 130, 'Siaredir â'r da yn Gymraeg—Trwe, trwe bach'; cofnodir 'ptrw bach' yn WVBD 447. Ceir enghraifft debyg mewn englynion dychan dienw o'r Llyfr Coch, GPB 10.19–20 *Efa hwmrws*: '*Tprwo, hio hao!*' / *Ac a blygwys ei llost yn ceisio gwneuthur llo*. Tybed nad *Prue* fyddai'r ynganiad? Cf. y cymeriad llythrennol *p-* yn llau. 27–30, a *pr-* yn llau. 47–52, ac felly hefyd yn ail doddaid yr awdl, ll. 3.

⁴ Gw. Dafydd H. Evans, 'Yr Ustus Llwyd a'r Swrcod', YB xvii (1990), 63–92.

⁵ Cf. hefyd Iolo Goch am Herstin Hogle: *Haeru a wneid ei bod hirynt / Yn oes hen Geridfen gynt*, GIG 162 (XXXVI.45–6), sef y wrach Ceridwen yn chwedl Taliesin.

⁶ Cf. sylwadau Dylan Foster Evans, '*Goganwr am Gig Ynyd*': *The Poet as Satirist in Medieval Wales* (Aberystwyth, 1996), 19–20.

- llöe lo** ‘Llo y lloi’, yn ddisgrifiad dychanol, o bosibl ar lun *rex regum* ‘brenin y brenhinoedd’, &c. Ceir enghreifftiau o’r ffurf *lloe* (un. a ll.) yn GPC 2196 d.g. *llo*, ond prawf hyd y ll. a’r gynganedd sain—*Tprue!* *Löe lo*—yma ac yn llau. 27 a 47 mai deusill ydyw yn yr awdl hon. Cf. Llyd.C. *lue*, Llyd.Diw. *leue*.
- 2 **asen** Fe’ rhestrir yn G 45 d.g. *assen*², S. ‘*rib*’, ond rhydd ffurf f. *asyn* well ystyr, yn enwedig yng ngoleuni’r trosiadau *llwynog* ac *elain* yn llau. 3–4. Llo yw hwn sy’n denu gwybed fel *asyn*.
- 3 **mirain** Petrus yw’r aralleiriad ‘disglair’. Ystyron cadarnhaol yn unig a restrir yn GPC 2465. Ai gwall am *milain* ydyw?
- 5 **dwyen** Llsg. C *dywen*. Go brin mai *dy-* + *gwên* sydd yma, gw. GPC 1153 d.g. *dywen* (enghreifftiau o’r 18g.). Dilynyr awgrym G 318 d.g. *deu*: *dwy* + *gên*, cf. 11.14, 34 isod.
- 7 **Newylog** Yn archif Geiriadur Prifysgol Cymru ceir cofnod gan J. Lloyd-Jones sy’n awgrymu’n betrus mai *nyðlawc* sydd yma, ond os ‘niwlog’ a olygir, ymddengys yr ystyr yn anaddas. Awgryma hefyd y gellid cysylltu’r ffurf â Gwydd. *neimélach* ‘*plaintive, piteous; sorry, abject*’; *neiméle* ‘*plaint, sorrowful pleading*’, a nodir yn ogystal Gwydd. *núall* ‘*noise, clamour*’; *nuallach* ‘*loud, clamorous*’. Ond onid ystyr gadarnhaol a ddisgwyliid yn y cyd-destun? Yn niffyg esboniad boddhaol, ystyrir *Newylog* yn e.prs. anh. Cf. *Gellog*, ll. 24 isod. Â *Newylog*—*galon*, cf., e.e., GIG 170 (XXXVIII.9) *calon Mahumed*; GDC 2.67 *dragon calon Caw*.
- 8 **Rhewedog** Y mae Rhiwedog Uwch Afon a Rhiwedog Is Afon ym mhlwyf Llanfor, ychydig i’r dwyrain o Ddwygraig yn Llangywer, gw. WATU 187; HM ii, 725. Ceir dwy enghraifft o’r ffurf yn Archif Melville Richards <www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr>: *Rewedoke* (1551/3) a *Rewedauk* (1232/3).
- 9 **crafangmyr** Yr oedd yr ail elfen yn dywyll i J. Lloyd-Jones, gw. G 169 d.g. *crauwanc*. Er y disgwyliid treigladd meddal, fe all mai *mÿr* / *myrr* ‘morgrugyn’ sydd yma; gw. GPC 2542 lle y gwelir mai geiriadurol yw’r enghreifftiau cyn y 18g., ond cf. y cytrasau Celtaidd. Y mae’r ddelwedd yn gyson â’r dychan ar faint y llo ac â’r cyfeiriadau at greaduriaid eraill yn y rhan hon o’r gerdd, yn arbennig ll. 6 *Nid mwy no’r chwannen ar erchwynnog*.
- 10 **troedog** ‘Llyffethair, hual’ yw’r ystyr yma, gw. GPC 3611 d.g. *troediog*, *troedog* lle y dyfynnir Mos 204, 145 *Rhaid aerwy a throedog ar yr ych diviog*; D.J. Williams, ‘Rhai o Eiriau Amaethwyr Penllyn’, B iii (1926–7), 208, ‘*troedog*, y ddolen haearn sydd am y polyn preseb a’r gadwyn y rhwymir y fuwch â hi’.
- 13 **teithiog** Rhestrir yr enghraifft hon yn GPC 3471 d.g. *teithiog* ‘a. a

hefyd gyda grym enwol. A chanddo hawliau (yn ôl y gyfraith), iawn, dilys, cyfreithlon, priodol; ac iddo (briod) deithi neu nodweddion'. Fodd bynnag, profir y ffurf ddeusill *teithiog* gan y gynghanedd a chan hyd y ll., er mai i'r 17g. y perthyn yr enghraifft gynharaf yn *ib.* d.g.

16 **codowrach** Ffurf ar *cedowrach*, sef y planhigyn cedor y wrach, cacimwci. Cf. GIG 157 (XXXV.13) *Cedowrach hagr foelgrach fawr* ('Dychan i'r Brawd Llwyd'); Bl B XIV 153 (71.64) *Ysgornach, cotowrach ci* (dychan yr Ustus Llwyd i Arglwydd Mawddwy).

18 **Gwell ym ... cynnig ceiniog** Cf. ll. 83 *Dimai ni chaid er f'eidion*. Cymharer hynny â gwir werth lloi yn ôl Cyfraith Hywel, e.e. LIB 89 (llau. 1–5) *Gwerth llo gwryw hyt galan Racuyr: wech cheinhawc a tal. O hynny allan hyt y tryded vlwydyn, dwy geinhawc a drycheif arnaw o pob tymor. Kalan Racuyr gwedy hynny, dwy ar hugeint a tal...*, ac felly ymlaen hyd nes iddo droi'n *ych cwbyl*.

Padrig Nawddsant Iwerddon, gw. LBS iv, 54–71.

19 **Mwrchath** Murchad mac Finn, brenin Leinster. Fe'i henwir yn ach Gruffudd ap Cynan, gw. HGK 4 (ll. 27) ac *ib.* 54. Am gyfeiriadau pellach, gw. TYP³ 455. Tybed a oes cysylltiad rhwng *gwrcath Mwrchath* a'r *murchata*, y cathod môr arswydus a geir yn chwedloniaeth Iwerddon, gw. *ib.* 474–5? Awgryma Twm Morys yn *Barddas*, 244 (Rhagfyr/Ionawr/Chwefror 1997–8), 57 y gall fod perthynas rhwng y ffurf *mwrchath* a Gwydd. *murchat*.

tromwedd Llsg. C *tramwed*. Cf. *gadeba6c* am *godeba6c* yn ll. 22.

21 **Cynog** Cynog Sant, mab hynaf Brychan Brycheiniog, gw. LBS ii, 264–71; GDEp tt. 88–9.

Deinioel Nawddsant eglwys gadeiriol Bangor, gw. LBS ii, 325–31. Ar y ffurf, gw. EL 7.

22 **Coel Godebog** Ystyrir Coel Godebog neu Goel Hen, a oedd yn byw yn nechrau'r 5g., yn gyndad nifer o linachau brenhinol yr Hen Ogledd, gw. EWGT 9–12 a *passim*.

23 **em** O'r S. *hem*, gw. GPC 1847 d.g. *hem*¹, *em*². Posibilrwydd arall yw ffurf dreigledig *gem* 'cen, croen'.

llawes Ceir yr un trosiad yn ll. 73.

24 **Gellog** Fe'i rhestrir yn G 526 d.g. *gellawc* 'cethin, rhuddgoch' (nis rhestrir yn GPC), ond nodir nad amhosibl e.prs. ohono. Am *Gell* a *Gellan* yn enwau prs., gw. *ib.* d.g. *gell*. Ceir *Gellan* ap Collwyn yn llinach un o hen lwythau Gwynedd a'r Mars, EWGT 117, a byddai hwnnw'n gweddu yng ngoleuni'r cyfeiriadau uchod at Gynog a Deiniol a Choel Godebog.

26 **o dai Fadog** Am dreiglo e.prs. yn dilyn *tŷ, tai*, gw. Treigladau 109–10.

- 28 Ceir dwy gynghanedd sain yma, y naill yn gyflawn—*Penbryd hyd hydr*—a'r llall yn bengoll—*pil o hil henfon*.
- 33 **gogsymon** Ymddengys fod *ysgymon* llsgr. C—oni bai ei bod yn ffurf amrywiol ddilys—yn wall am (*g*)*osgymon* ‘cynnud, tanwydd ...; tewyn, marworyn; yn *ffig*. anogaeth, cymhelliad, achos’, GPC 1511. Gellid ystyr debyg i ‘enynnwr, cynhyrfwr’.
- 35 **unfodd** Gw. 1.12n ar *Cynnif unfodd Ffranc*. Mwy naturiol yw ystyried *unfodd anfon* yn sangiad na deall ‘Addawodd anfon yn yr un modd â rhodd / Ych cochddu ...’.
- 36 **ni fyriwn** Llsgr. C y *vyrybn*. Cymerir mai ffurf ar y f. *bwrw* sydd yma (ceir y yn gyffredin yn ffurfiau rhedegog y f.), gyda'r *n* yn *ny* yng nghesail yr un gytsain yn *dwn*. Cf. efallai LIC 11 (llau. 9–10) *Ny dyly amaeth taflu echen nac eu brywav, canys os llaf ef a'y tal*. Ond gthg. G 87 d.g. *byrywn*: ‘Nid tebyg y gellir a *vyrywn* (: *bwrw*) o y *vyrywn* yma, er darllen o M [= MA²] 324a a *yrwn*. Ymddengys yn orau gymryd y fel ‘ei’, a’i ddilyn gan enw treigledig, sef *byrywn* neu *myrywn*. Ceir yn Saes. Can. *borioun* (*burion*, *-jon*), ffurf hŷn *burgeon* ‘a swelling bud, a young shoot or plant’, a dichon defnydd ffigurol ohono yma. Nac anghofier ychwaith *morion* ‘a kind of helmet without beaver or visor’ gyda’i ffurfiau hŷn *murreowne*, *murryon*, *morioune*, *morryoune*, na *murgeon* ‘dirt, refuse, dregs’ a’i amrywiadau *margon*, *murgion*’.
- eforion** Petrus yw cynnig GPC 1170 (sy’n dilyn G): ‘*efawr* [? *e-* + *mawr*, cf. *efras*] *a*. a hefyd fel *eg*. ll. *eforion*. ?Mawr, helaeth; helaethrwydd’. Cf. GCBM ii, 17.16 *Dynyaton Berchen, Benn bob euaöb*, a aralleirir ‘Rheolwr dros ddynion, Pennaeth pob helaethrwydd’. Os dyma sydd yma, y mae’n anodd gwybod beth yn union a olygir. Ai iau tybed, a Madog wedi disgwyl cael ych a allai aredig gyda’r gorau? Posibilrwydd arall yw fod y ffurf yn gysylltiedig ag *efwr*, planhigyn sy’n tyfu ar gloddiau a thir wast ac mewn coedlannau agored, gw. GPC 1173. Nid annichon ychwaith mai gwall ydyw am *oferion*, ffurf luosog dreigledig *gofer* ‘gorlif ffynnon’ neu ‘ffrwd’. Ond ni restrir y ffurf l. honno yn GPC; cf. isod 13.37 *Cais draw gyfeiriaw goferau—Peras*. Sylwer hefyd ar ystyr *goferydd* yn Nyfed, ‘[t]ir isel corsiog, cynefin hwyaid gwylltion, &c.’, GPC 1430 d.g. *gofer*.
- 37 **mal ceirnion pry’r berth** Cf. GGrG 7.5 *cornwyd ceirnion* ‘yn bla o blorod’ (dychan Mab Clochyddyn i’r ffalsiwr); WM 154 (llau. 13–15) *ac yn y cruc y mae carn ac yny garn y mae pryf*.
- 38 **nid cywerth un o’r cywion** Cf. GGDT 13.5 *Nid unwerth cywerth cyw iâr—ag eryr*. Cf. hefyd Gyfraith Hywel, e.e. LII 88 (llau. 8–10) *Guerth guyd or, kemeynt a guerth y nyth; sef a dele bot en y nyth, petwar kyu ar ugeynt; sef yu guerth pob kyu, dymey neu escup heyd ..., ib.* (llau. 13–16) *Am yar, i.k’ a tal; keyllyauc, duy yar a tal. Am pob kyu, escup*

geyrch neu fyrdlyg eny eskynno, a guedy eskynno, dymey eny dotwo neu eny kanho a talant; a guedy e dotwo neu y canho, k' a tal.

- 40 **gas arwyddion** Y mae sillaf yn ormod yn narlleniad llsgr. C *gan gas arwydyon*.
- 43 **Sain Simon** Un o ddeuddeg disgybl Crist, cf. GDG³ 9 (4.28) *A Sain Simon, rhoddion rhwydd* ('Lluniau Crist a'i Apostolion'). Arno, gw. ODCC³ 1513.
- 58 **ar guert gaeaf** H.y. yn cysgu'r gaeaf. Ceir yr un ymadrodd yn GDG³ 303 (115.6–8) *Ffo ydd wyf, myn fy ffydd i, / Ar hynt o'r lle y bûm yr haf / Ar guert rhag eiry gaeaf* ('Y Cyfflylog').
- 61 **rhuad** Am enghreifftiau diweddar o ddefnyddio *rhuo* am darw'n bugunad, gw. GPC 3099 d.g. *rhuaf: rhuo*.
- 62 **brantor** Ni restrir y ffurf yn GPC, ond tebyg mai'r un gair ydyw â *brantar* 'clefyd ar wartheg yn peri iddynt fwyta dillad ar y lein, cerrig, pridd, &c.', gw. *ib.* 306 d.g. *braenar, brantar, brynar* lle y dyfynnir enghraifft o WVBD 52: '“Mae'r franar wyllt arno fo” yn sir Ddinb. am berson a gwanc neu raib angau arno ac yn cnoi botymau a chanhwyllau, &c.'. Cf. efallai *braenaru* 'dyhiro, nychu, curio (am ddefaid, &c.)', *ib.*, a geid ar lafar yn y Gogledd.
- i gyd â hôr haf** Y mae darlleniad llsgr. C *gyt ahor haf* sillaf yn fyr. Cf. awgrym J. Lloyd Jones, G 72 d.g. *brantor*, a GPC 1898 d.g. *hôr*.
- 63 **cliffit** Ffurf dywyll. Nis rhestrir yn G na GPC, ac y mae'n aneglur ai *cliffit* ynteu *cliffid* a gynrychiolir gan *cliffit* llsgr. C. Ai o'r S. *cleave, cleft + feet?* Ni welwyd ffurf debyg yn S.
- 64 **pendro** 'Un o amryw fathau o glefydau'r ymennydd mewn ceffylau, gwartheg, moch, a defaid sy'n peri iddynt honcian o gwmpas, y ddera, y gysb', GPC 2740. Y mae'r bendro neu'r ddera yn un o dri chlefyd buchod ac ychen yn ôl Cyfraith Hywel, cf. LIB 90 (llau. 1–15) *Y neb a wertho buch neu ych, ef a dyly vot dros tri chlefyd; rac y dery, tri dieu a their nos; rac yr escefeint, tri mis; rac y pelleneu, vhwodyn ... Y neb a talho neu a wertho llo neu dinawet, meichet dros dilysrwyd, a bit dros deu glefyd: rac y dery, tri dieu a their nos, ac rac y clafri, o Wyl yr Hollseint hyt Wyl Patric. Y neb y del idaw, ny dyly eu dwyn ymplith aniueileit clafwr, nac y ty y bei aniueileit clafwr yndaw seith mlyned kyn no hynny*.
- 65 **tafodwst** 'Llyffandafod, lliid ar y tafod, poen tafod', GPC 3419. Cf. yn arbennig ddiffiniad P (1803): '*The tongue disease, incident to cattle, which swells the tongue so as to cause suffocation. It is called y bothell, in South Wales*'.
- 68 **gorfynydd** 'Mynydd-dir, ucheldir, rhos'; dywedir yn ll. 8 i'r llo gael ei anfon uwchlaw Rhiwedog. Gall fod yn e. lle. Ceir Gorfynydd yng nghwmwd Ardudwy, heb fod ymhell i'r gorllewin o fro Madog

- Dwygraig, gw. HM ii, 305. Llai tebygol yw fod yma gyfeiriad at gantref Gorfynydd ym Morgannwg, WATU 79.
- gair fanon** Gellid y ffurf gyfansawdd *geirfanon*. Petrus yw'r aralleiriad.
- 69 **cogeilwas** Llsg. C *gegeilwas*, ond annhebygol yw cyfansoddair o *ceg* + *ail* + *gwas*. Gofyn J. Lloyd-Jones, G 524 d.g. *gegeilwas*, a ellir cydio'r elf. gyntaf wrth *cagal*, ond ymddengys hynny yr un mor annhebygol. Cymerir, yn hytrach, mai gwall am ffurf dreigledig *cogail* yw'r elf. gyntaf, sef ffon nyddu neu bastwn—cf., o bosibl, y term dilornus *bastynwas*. Efallai fod ystyr ffig. y gair, 'gwaith cydnabyddedig gwragedd mewn tŷ; y rhyw fenywaidd, awdurdod gwragedd' (a cf. yr ail ystyr, 'llinach fenywaidd'), GPC 540 d.g. *cogail*, *cogel*, i'w chysylltu â *gair fanon* yn y ll. flaenorol. Sylwer yn ogystal ar yr ymadrodd 'hen gogal gwirion' ('*silly old fool*') a geid ar lafar yn Arfon yn ôl WVBD 279. Deellir, felly, *Gorfynydd ... / Gogeilwas* 'gwas cogail y mynydd-dir', sydd yn fwy naturiol na darllen *foes fawaf / Gorfynydd* yn llau. 67–8. Diau y byddai *gogelwas* 'gwas llechwraidd, ofnus' neu *gogilwas* 'gwas encilgar' yn ormod o ddiwygiad, er mor addas yr ystyr.
- 70 **cyfnesaf** O gofio mor agos yw Rhiwedog at gartref tebygol Madog Dwygraig yn Llanywer, y mae'r ystyr 'cymydog' yn gweddu'n dda, er nad amhosibl yr ystyron eraill, 'perthynas agos, câr' neu 'cyfaill'.
- 74 **corn sebon** Corn a ddefnyddid i ddal sebon, mae'n debyg, gw. GPC 562 d.g. *corn* a cf. GGrG 7.1–2 *Cyfrwch cern sybwch corn sebon—Sudas / Y pseudo annhirion* (dychan Mab Clochyddyn i'r ffalsiwr). Sylwer, fodd bynnag, fod GPC 3198 yn rhestru'r enghreifftiau hyn dan yr ystyr 'had (gwryw)'; i'r 16g. y perthyn yr enghreifftiau cynharaf a restrir yno o *sebon* yn ei ystyr gyfarwydd.
- 75–6 **Nid âi ... / Adwedd adref ...** Yr ystyron 'cartref, bro gynefin', 'gorffwys(fa)' a 'lloches' sy'n gweddu orau i *adwedd*, gw. GPC² 65 d.g. *adwedd*¹. Cymerir mai'r ymadrodd *myned / dyfod i adwedd* sydd yma—ond â'r ardd. *i wedi ei hepgor*, cf. ll. 84 a 2.22n—gyda chymeriad synhwyrol yn yr esgyll, yn wahanol i'r cymeriad llythrennol a geir yn y ddau englyn nesaf. Y mae'n drawiadol mor aml y cysylltir yr ymadrodd ag eidion, e.e. GDID 37 (15.63–4) *Dy eidion, nid â i adwedd, / A i loi'n ei ôl i Lyn-nedd*; GDL1 66 (23.55–6) *Eidion, pan ddêl i adwedd, / A fref, cyn hydref cawn hedd*; GGI² 262 (C.31–2) *Mi af i'w lŷs, mwyfwy wledd, / Mal eidion moel, i adwedd*. Tybed nad *gwedd* 'iau' yw'r ail elf., felly?
- 76 **dinref dôn** Dichon mai 'ymddangosiad, diwyg' yw ystyr *tôn* yma. Cf. GSRh 2.53 *Arawd teg o orau tôn* (Sefnyn), a aralleirir 'Gyfarchiad teg o'r diwyg gorau'; GDC 3.42 *Eneidlyw teg, difreg don* (Dafydd y Coed; darlener *dôn*, fel y dengys y brifodl yn llau. 31–46).
- 81 Y mae'r ll. yn anghyflawn yn y llsg. Ymddengys mai cynghanedd sain sydd yma: buasai, e.e., *Digio amdano'r dynion* yn ateb y gofyn.

Diddorol sylwi mai *Digiaw amdanaw dynion* a geir gan John Davies, Mallwyd yn llsgr. D.

- 82 **chwalcs** Llsgr. C *chwalkys*. Ceir y ffurfiau *chwalcs*, *chwalcys* (a *chwelces*), o'r S.C. *welkes*, gw. GPC 839, a cf. *cocos*, *cocas*, *cocys*, *cocs*, *ib.* 524. Y ffurf unsill sy'n gweddu i hyd y ll.
- 84 **gŵyl Fair** Y mae sawl dyddiad yn bosibl. Gan i Fadog dderbyn y llo yn anrheg *ar ddydd hinon* (ll. 46) a cheisio'i werthu wedyn *ym myrddydd cynhaeaf* (ll. 54), efallai mai'r dewis mwyaf tebygol yw gŵyl Fair yn y gaeaf a ddethlid ar 8 Rhagfyr.

11

Y mae'r awdl hon¹ yn un o nifer o gerddi dychan i grefftwyr. Cymharer, er enghraifft, awdl Hywel Ystorm i Addaf Eurych,² neu englynion Madog Dwygraig ei hunan i fab y gof (cerdd 13 isod), er nad oes sôn am grefft y gof fel y cyfryw yn y gerdd honno. Fel y ddau hynny, ymddengys fod y gwëydd (Cernywad os cywir y dehongliad o l. 17) hefyd yn rhyw lun ar fardd—un sy'n clera'r wlad yn goganu am gig Ynyd (ll. 18)—i'w uniaethu, efallai, â'r glêr isradd a gollfernir yng Ngramadeg Einion Offeriad. *Tri pheth a berthynant ar glerwr*, medd y gramadegydd, *ymbil, a goganu, a gwarthrudaw*,³ a thrachefn, *ar glerwr y perthyn goganu, ac agloduori, a gwneuthur kewilid a gwaradwyd*.⁴ Ond dichon, wrth reswm, fod y portread ohono fel un o'r glêr ofer yn rhan o ormodiaith y dychan. Yn debyg i'r ddwy gerdd arall, awgrymir bod rhyw anghydfod rhyngddo a Madog—*Cas bryf i wrthyf a wrthyd—cynghrair* (ll. 19)—a gellir dychmygu'r beirdd hyn yn dychanu ei gilydd ar gân, boed y drwgdeimlad rhyngddynt yn wirioneddol ai peidio.

Fel sy'n ddigon cyffredin yn y canu mawl ers cyfnod Beirdd y Tywysogion, cyflwyniad crefyddol sydd i'r awdl, ond caiff swyddogaeth ddifrifol y confensiwn hwnnw ei gwyrddroi i ofyn melltith Crist ar wrthrych y gerdd. Gwneir peth tebyg gan Hywel Ystorm yntau yn ei awdl i Addaf Eurych.⁵ Y mae Madog, fel ei gyfoeswyr, yn hoff o frolio'r gwisgoedd a gafodd yn rhodd gan ei noddwyr. *O'i ddillad bùm clyd hyd hydr ddiwedd*,⁶ meddai yn un o'i awdlau marwnad, ond datod y mae gwisg y crach grefftwr hwn. Fel cerdd 10, gallasai *genre* y canu gofyn a diolch fod yn wrthbwynt eironig i ddychan o'r math yma i gynulleidfa gyfoes. I ddarllenwyd heddiw,

¹ Ceir testun o'r gerdd yn MA² 326–7, a cherdd 16 isod ar ei diwedd fel petai'n rhan o'r un awdl.

² GPB cerdd 6. Ag *Addaf dincr* (ll. 105), cf. y disgrifiad dirmygus o'r gwëydd fel *Tincr grefftyr brethyn* (ll. 13).

³ GP 17 (llau. 7–8).

⁴ *Ib.* 35 (llau. 10–11).

⁵ GPB 6.1–7. Gw. *ib.n.*, a sylwadau Dylan Foster Evans, 'Goganwr am Gig Ynyd': *The Poet as Artist in Medieval Wales* (Aberystwyth, 1996), 21–2.

⁶ 1.42.

perthyn hiwmor eithaf swreal i rai o'r trosiadau dychmygus, amryw ohonynt yn ddelweddu anifeilaidd bychanol.

Canwyd yr awdl ar fesur toddaid, gydag englyn proest i gloi. Ceir yma gymeriad llythrennol trawiadol, yn enwedig wrth ddyfalu'r gwëydd yn llinellau 17–34, a chyrch-gymeriad llythrennol rhwng y mesur toddaid a'r englyn. Y gynghanedd sain sydd flaenaf yn y toddeidiau (sain deirodl yn llinell 9, sain bengoll yn llinellau 15 a 29), gyda chynghanedd gref yn aml rhwng ail a thrydydd cymal y llinell, ond cynghanedd gytseiniol a geir yn yr englyn proest. Nid oes yr un gynghanedd lusz.

2 **a galander** Llsgr. C *aglander*. Er bod y cywasgiad *clander* yn ffurf ddilys, rhydd *calander* y naw sillaf angenrheidiol.

4 Y mae'r ll. hon sillaf yn fyr. Gan fod ail l. pob toddaid yn ymrannu'n 5:4, dichon fod sillaf ar goll rhwng *ciwdawd* a *iawnfrawd*, e.e. *gyfiawnfrawd*. *Ciwdawd oedd iawnfrawd* a geir gan John Davies, Mallwyd yn llsgr. D.

7 **difa** 2 un.grch. Cyferbynner y felltith hon ag agoriad awdl Iorwerth ab y Cyriog i Dduw, GGrG 3.1–4 *Brenin gorllewin, Gŵr a'n llywia, / Broydd a gorthir brig tir terra, / Breiniol Nen dwywol, na'n difa—erom / Yni benytom iawnboen etwa*.

ystilwm Llsgr. C *os dil6m*, sy'n ystyrllon ynddo'i hun, ond anodd yw dirnad ei berthnasedd i weddill y ll. Dichon mai'r un ffurf sydd yma ag a geir yn ll. 26 isod, a all fod yn gyfansoddair o *ystil* a *llwm*—gw. GPC 3333 d.g. *stil*¹, *ystil*¹ 'arddull, steil, ffasiwn, modd, dull ...', o'r S.C. *stile*, enghreifftiau o'r 15g. – 'un llwm ei ddull', felly. Nid amhosibl *stil*², *ystil*², *ib.*, 'dur, darn o ddur, duryn (hogi)'. Go brin ei fod yn fenthyciad o'r S. *stillion* 'a stand for a cask; a gantry', gan mai i 1803 y perthyn yr enghraifft gyntaf a gofnodir yn OED² xvi, 699, amrywiad ar *stilling*, mae'n debyg, enghreifftiau o 1604 ymlaen, *ib.* 698.

dufyd Gwrthwyneb *gwynfyd*, fe ymddengys.

8 **anniwyd** 'Segur, diog, esgeulus', mae'n debyg, yn y cyswllt hwn, ond gellid yr ystyr 'anffyddlon', gw. GPC² 340.

11 **cwlm** Gan fod y ll. yn rhy hir o sillaf, cymerir mai gwall yw *G6ilym* llsgr. C am *G6l(y)m*. Y mae'n cydweddu'n dda â *gwyden* 'magl, rhaff grogi', a cf. ll. 34 isod; ond gthg. awgrym G 692 d.g. *gwl(y)f* 'gylfin, bwch, agen, hollt'.

heb ereidr Cf. ll. 14 *deurych Duw nyw deiryd*. Gall fod yma gyfeiriad at yr hyn a elwir yn y cyfreithiau yn 'oresgyn aredig' neu 'ddadannudd aredig'. Yn ôl yr arfer hwn, honnai gŵr fod ei dad wedi arfer aredig darn o dir, a roddai'r hawl iddo yntau wneud yr un modd a thrigo yno hyd oni fyddai'r cynhaeaf wedi ei gywain, ac yna dylai amddiffyn ei

hawl, gw. LIB 204. Cf. *ib.* 71 (llau. 24–9) *Pwy bynhac a ofynho datanhud o'r tir a gynhalyassei y tat hyt y varw trwy werescyn eredic, datanhud o gwbyl a dyly y gaffel, ony byd o gorff y tat etiued a uo teilygach noc ef, neu vn vreint ac ef, yn kynhal y tir yn y erbyn, neu yn kyt ofyn datanhud ac ef yn y llys.*

14 **dywen** Fel y mae *dywen* llsgr. C yn debyg o fod yn wall am *dywen* yn 10.5, tybed nad gwall sydd yma am *dywen* 'dedwyddwch'?

17 **cinglau** Amrywiad ar ffurf l. *cengl* sef, fel arfer, rhwymyn neu wregys am gorff march. Ond gan mai cerdd i wëydd yw hon, ymddengys ystyr arall i'r gair yn fwy addas yma, sef 'ysgaing o edafedd wedi ei ddirwyn ar genglidur', GPC 450 d.g. *cengl*, *cyngl*, *cingl*, er mai i'r 16g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a restrir. Cf. R 1354.30–1 *kyngladur traetur messur myssabc* mewn awdl ddychan o waith Llywelyn Ddu ab y Pastard (GLIBH 19.94). Gofyn J. Lloyd-Jones, G 529, ai treiglad o'r ffurf anh. *kin-gleu* a gynrychiolir gan *gi[n]gleu* llsgr. C, ac awgryma ei gydio wrth *gin*: *ginio* 'plicio blew neu wân'.

Cornefwr Fe'i rhennir gan Lloyd-Jones yn ddau air, *corn* ac *efwr* 'cow parsnip', gw. G 166, 446. Gellid ei ddiwygio i *gornifwr*: *gornif* 'llafur caled, gorlafur' + *gwr*. Dichon, fodd bynnag, mai amrywiad sydd yma ar *Corneuwr* 'gwr o Gernyw', gw. GPC 563. Y mae modd aralleirio'n wahanol: 'Cernywiad chwydlyd ei chwedlau'.

18 **cig Ynyd** Sef y cig a fwyteid cyn wynebu ympryd y Grawys, cf. GDG³ 315 (119.10) *Nid fal ynyd ciglyd caeth*; GPB 7.12 *Merllyd er Ynyd ei eirinial*.

20 **coprs** Sylffad fferrus gwyrdd crisialaidd a ddefnyddir i lifo, cyfeiriad at grefft y gwëydd, felly; gw. GPC 554 d.g. *copras*, *copros*, *coprys*, *coprs*, *cooperas*. Llsgr. C *koprys* ag y ymwithiol: profir y ffurf unsill gan hyd y ll.; cf. GDG³ 54 (19.32) *A choprs cerdd a chiprys cad*.

21 **cribin danheddgrin** Delwedd nodweddiadol o'r canu dychan, cf. GPB 6.103 *Addaf grin gribin* (dychan Hywel Ystorm i Addaf Eurych). Defnyddid *cribin* yn ffigurol weithiau am 'berson cribddeilgar neu grafanglyd', GPC 596.

anhuddgryd—gyntedd Disgrifiad, fe ymddengys, o'r *grwydrffair* neu'r stonidin sigledig a oedd yn lloches i'r gwëydd.

23 **crybwyll** Er bod darlleniad llsgr. C *Kyrbwyll* yn ffurf ddilys—yn wir, dyma'r ffurf fwyaf cyffredin ar y gair—diwygir er mwyn y cymeriad llythrennol *cr*. Ceir yr un diwygiad yn nychan Prydydd Breuan i Siwan Morgan o Aberteifi, lle y profir y ffurf gan y gynghanedd: GPB 3.3 *Rhyfyctwyll crybwyll cribau—blonectawdd* 'Twyll rhyfygus [fyddai] moli crwybrau-toddion-bloneg'. Crybwyll ar gân a olygir, neu foli (yn eironig yma); defnyddir y f. *cymwyll* yn yr un modd, gw. *ib.* 2.17n. Am

- enghreiffiau dychanol pellach, cf. GLIBH 19.62 *Cyrbwyll murn orffwyll, rhwyll rhyleuog* (Llywelyn Ddu ab y Pastard); GDC 8.5 *Cau gosystig ddig, ddygn gyrbwyll—asgen* (Dafydd y Coed).
- 24 **trigfer** Bôn y f. *trigo* + *bêr* ‘gwayw, picell’?
- 25 **dyfalaf** Am yr ystyr ‘difriô, dychanu’, gw. DGIA 13–15, 138–40.
- 27 **â’r olbrain** Math o blanhigyn yw *olbrain* (*ôl* + *brain*), ‘crafanc y frân, blodyn ymenyn; berwr y moch’, GPC 2641 d.g. *olbran, olbrain* (enghreiffiau o’r 16g. ymlaen). Câl ei ddefnyddio gan gardotwyr i wneud eu cnawd yn gignoeth, gw. OED² xvi, 148 d.g. *spearwort*, a dichon mai dyma’r ergyd yma. Yr hyn a geir yn llsgr. C yw *arol brein*, ac awgryma J. Lloyd-Jones y gellid darllen *â’r olbrain* i gynganeddu â *cythreulbryd*, neu *ar ôl brain* i gynganeddu â *cythraul bryd*, gw. G 270 d.g. *kythreul*. Ymddengys yr ail ddewis yn annhebygol; sylwer nad oes yr un gair unsill yn ffurfio’r brifodl yn ll. gyntaf y toddeidiau eraill. Mentrus fuasai diwygio *arol brein* yn *a rolbrenn*, ond cf. CMOG 28 (1.9) *Casaf rholbrenn wyd gennyf* (‘Cywydd y Gal’ Dafydd ap Gwilym).
- 28 **caly garan** Am enghreiffiau o ddelweddau tebyg mewn cyswllt dychanol, cf. GDG³ 176 (65.61) *Coes garan ddygn dan sygn sêr, ib. 373* (141.33) *Garan yn bwrw ei gwryd*; GPB 8.45 *Gochrymedd garan* (anh.).
- 29 **cerbyd** Fel *ceubal* ac *ysgraff*, fe’i defnyddir yn ddirmygus am ddyn, ‘creadur trwsgl, dyn lletchwith blêr, bwnglerwr’, GPC 464. Cf., e.e., GDG³ 60 (21.1) *Cerbyd lled ynfyd llydanfai* (am Rys Meigen); GC 11.155 *Cerbyd nâg, carw gwag, gwae di* (am Drahaearn Brydydd Mawr).
- 32 **gwÿr a’i cyfyd** H.y. i’w grogi? Cf. llau. 33–4.
- 33 **gwryd** ‘Gwyrth’ yw’r ystyr sy’n gweddu orau yma, gw. GPC 1740 d.g. *gwryd*². Digwydd *gwryd* deirgwaith yn safle’r brifodl (llau. 9, 28, 33), ond ymddengys fod yr ystyr yn wahanol bob tro.
- amen** Yn llythrennol, ‘felly y byddo’.
- 34 **crog fagl** ‘Magl crocbren’ neu ‘magl grogi’. Go brin y dylid deall *crog* yn ffurf 2 un.grch. y f. *crogi*. Cf. MM 10 (ll. 15)–12 (ll. 1) *Dodi magyl dan y dŷy en a llosc yn y wegil ...*

Y mae gwrthrych yr awdl fer hon yn anhysbys a rhai o’r cyfeiriadau’n dywyll. Ymddengys mai clerwr a ddychenir unwaith eto, ac y mae’r oslef felltithiol a’r dyfalu didrugaredd yn nodweddiadol o ddychan y cyfnod. Yn debyg i’r gerdd flaenorol hefyd ceir yma ddelweddau gwreiddiol ac annisgwyl, megis *Llygoden felen ar foly cipyll—cŵn* (ll. 3) sy’n gwawdio bychander ei gorff. Agwedd ddiddorol ar y gerdd yw’r modd y mae Madog yn tynnu ar ei ddysg farddol, gan barodio’r prif draddodiad ag adleisiau

ironig o iaith a delweddaeth y canu mawl.¹ Gwelir elfen o orchest ym mydryddiaeth yr awdl, y gellir ei deall fel gwrthgyferbyniad â diffyg crefft y sawl a ddychenir. Fe'i canwyd ar fesur toddaid ar yr odl gyfyngus *-yll/-ill*, a chynhelir y cymeriad llythrennol *ll-* hyd y diwedd. Cynghanedd sain a geir ym mhob llinell ond pedair (sain bengoll yn llau. 1 a 3), gyda chyfatebiaeth gytseinol gref. Ni cheir yr un gynghanedd lusg.

- 1 **tân rwyfan** Cf. GCBM i, 24.72 *Rwyuan tan taerwres* a aralleirir '[Un ac iddo] dywysogaeth [o natur] tân tanbaid'. Cymerir mai grym e. sydd i'r be. *rhwyfan* 'arglwyddiaethu, llywodraethu' yma hefyd, cf. *ib.n* ac *ib.* 16.57n, ac yng ngoleuni ll. 13 isod, tybed nad oes yma adlais bwriadol o'r canu mawl? Yn ôl Cyfraith Hywel, llosgi, lladd (cf. ll. 2) a lladrata oedd y tair trosedd fawr, y 'tair colofn cyfraith', gw. LIB 29–30.
- 2 **fau** Llsg. B *vu*. Diwygir er mwyn yr ystyr ac, er nad yw'n angenrheidiol, er mwyn yr odl ag *osodau* a rydd gynghanedd sain.
- 3 **cŵn** Gwallus yw *k6d* R 1359.28.
- 4 **sesiwn** Llys barn; hon yw'r enghraifft gynharaf a restrir yn GPC. Cf., e.e., GTP 19 (12.1–2) *Ŵyr Einion â'i ffon ffinied—y Saeson*, / *I'w sesiwn na chyrched*; GLGC 236 (104.39–40) *Ni welir Sais diddirwy*, / *na Saeson mewn sesiwn mwy*. Ym Meirionnydd yn ail hanner y 14g., cynhaliai'r ustusiaid sesiynau ddwywaith y flwyddyn fel rheol, gan amlaf yn Harlech, ac yn y Bala o bryd i'w gilydd, gw. HM ii, 102–3.
Seisyll Un o swyddogion y gyfraith, efallai. Y mae'n werth nodi cysylltiad llinach 'Seisyll' â Meirionnydd, gw. GGrG 70–2; cf. uchod 1.17n ar Drefgoed Seisyllt.
- 7 **ergyll** Unig enghraifft (llsg. B *ergill*). Y ffurf debycaf yw *ergyllaeth*, gw. GPC 1252 d.g. *etgyllaeth*, *edgyllaeth*, a cf. *argyllaeth*, *ib.* 201. Gellid ystyr debyg i 'awydd, chwant'; gyda *heb ergyll*, cf. *abar* 'llesg, pŵl' yn ll. 16.
- 8 **annawn** Cf. ll. 12. Llsg. B *am ia6n*. Rhydd *annawn* gynghanedd sain drwy odli â *iawn* a chyflythrennu ag *ennill*; cf. awgrym J. Lloyd-Jones, G 30 d.g. *annawn*.
- 9 **Sirill** Sant Cyril, mae'n debyg, sef nawddsant Alecsandria a drigai yn y 5g. Arno, gw. ODCC³ 446–7; nodir dau sant arall o'r un enw, *ib.*
- 11 **Idill** Ai e.prs., fel *Seisyll* a *Sirill* uchod?
- 13 **lletawd** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *lledu*, gydag ystyr ddyf. efallai, gw. GCBM ii, 320n. Dichon fod yma barodi ar y canu mawl, cf., e.e., GLIBH 8.11 *Moliant llew lletawd o'm baniar* (anh.); cf. hefyd GGDT

¹ Gw. llau. In a 13n. Sylwer ar goegni'r gair *llywydd* yn ll. 5, un o epithetau parchusaf y canu mawl. Nodir yr agwedd hon ar y canu dychan gan Dylan Foster Evans, 'Goganwr am Gig Ynyd': *The Poet as Satirist in Medieval Wales* (Aberystwyth, 1996), 18.

11.9 *Lletawd greddf* ... (Trahaearn Brydydd Mawr).

clo Yn yr ystyr 'rhagoriaeth' neu 'awdurdod'. Ceir yma chwarae eto, fe ymddengys, ar iaith y traddodiad mawl, cf., e.e., LIDC 4 (3.13) *Clo kelv[it]id* (gw. n), DGG² 56 (XXXV.5) *Clo mydr*, a'r enghreifftiau o *clo clod* a restrir yn G 147.

gweddill Anodd dewis rhwng yr ystyron 'baw' a 'celain'.

- 14 **picill** Os *bicill* yw'r ffurf gysefin, y mae'r ystyr yn dywyll. Os oes treigladd, a ellid ffurf luosog ar *picell*, a all olygu 'draenen' yn ogystal â 'gwayw', cf. *cyllell* > *cyllyll*? Posibilrwydd arall yw benthyciad o'r S. *pickle*, naill ai yn yr ystyr 'cae bychan', neu 'gronyn o wenith, barlys neu geirch', neu, yn llai tebygol, 'hylif piclo, saws', gw. OED² xi, 775. Am yr ystyr 'cae bychan', gw. *ib.* 813–14 d.g. *pightle* (ceir *pichel*, *pychel*, *pickhill*, &c., ymhlith yr amrywiadau). Os dyna sydd yma—ceir enghreifftiau o'r ystyr honno yn S. o'r 13g. ymlaen—cf. 14.2 *Ni medd acr o dirda*, ac 11.14 *Dwyen a deurych Duw nyw deiryd* (cf. tarddiad *mwndill* 'uwttfon', ll. 15, o'r S. *mundle*). Sylwer hefyd ar yr e. lle *Pickhill* yn sir Ddinbych, WATU 179, a'r e. *Hywel Pickill* o'r 14g. yn P.C. Bartrum: WG1 823.

- 15 Petrus yw'r aralleiriad o'r ll. hon. Cf. GDG³ 61 (21.29–30) *Carp trwsgl, cen cwrwgl can carrai,—o'i lawdr, / Hen ledryn gofawai* (dychan i Rys Meigen).

mwndag Fe'i deellir yn gyfuniad o *mŵn* 'gwddw' a bôn y f. *tagu*.

mwndill Gw. ll. 14n.

coriar Diddorol sylwi ar yr e. *Madog ap Talcorryar* yng nghofnodion llys Caernarfon am 1397, *Caernarvon Court Rolls 1361–1402*, gol. G.P. Jones a Hugh Owen (Caernarfon, 1951), 155.

- 16 **llëyg** Yn ddeusill yma er mwyn hyd y ll. (nodir yn GPC 2172–3 d.g. *lleyg*, *llyg*¹ fod y ffurfiau hynny'n tarddu o *llëyg*, cf. *Llÿn* < *Llëyn*). Tebyg mai rhywun taegoidd, di-ddysg a olygir, yn hytrach nag un sydd heb fod mewn urddau eglwysig, cf., e.e., GPB 7.48 *lleyg anwadal*. Nid annichon, fodd bynnag, i Fadog Dwygraig, fel ei gyfaill Iolo Goch yn ôl pob tebyg, dderbyn addysg fel clerigwr secwlar a'i fod yn ei wrthyferbynnu ei hun â gwrthrych ei ddychan yn hynny o beth.

abar Gwallus yw *avar* R 1359.38.

Fel gwahanglaf y darlunnir gwrthrych yr englynion hyn,¹ ac yn niffyg cyddestun y mae'r modd y gwawdir ei afiechyd a'i hagrwach corfforol yn bur

¹ Ceir testun yn MA² 326.

anghynnes.² Yn yr englyn cyntaf honna Madog i fab y gof ei amharchu'r dydd Iau blaenorol, ac er na ddisgrifir mohono'n benodol fel bardd, un posibilrwydd yw mai ar ffurf dychan y gwnaeth hynny. Dyna, efallai, yw arwyddocâd y *celwydd* y cyfeirir ato yn llinell 20, boed yn gelwydd maleisus neu'n gelwydd golau o'r math a gysylltir â defod y cyff clêr.³ Os felly, gellid dehongli'r englynion hyn fel ymateb dychanol i fardd arall, ac fel math arbennig o adloniant a ddaeth yn ffasiynol o'r cyfnod hwn ymlaen.

Canwyd yr englynion unodl union hyn ar y brifodl *-au*, gyda chymeriad llythrennol, cynganeddol a synhwyrol yn cydio'r llinellau ynghyd. Rhoddir min ar y grawd gan gymeriad geiriol y ffurf orchmynnol *arch* yn llinellau 29–33. Ceir 21 cynghanedd sain (sain gadwynog yn llau. 4 a 24, sain bengoll yn llau. 9 a 17), 9 cynghanedd draws, 7 cynghanedd groes (pob un rhwng y gair cyrch a'r ail linell), a 7 cynghanedd lusg (pob un yn nhyreddd linell yr englyn).

- 1 **ni'm parchud** Llsgr. *C myn parchut*. Diwygir er mwyn yr ystyr, cf. GPC 1428 d.g. *gof*.
- 2 **clap** Claper i rybuddio rhag y gwahanglwyf, cf. ll. 9. Cf. hefyd GPB 9.36n, ac yn arbennig KAA² 13 (llau. 487–8) *ffustaw eu clappeu a wnaethant, ual y gwnaei gleivyon or clevyt gwahan*.
- 4 **twyll glefyd** Ai cymryd arno fod yn glaf y mae mab y gof, er mwyn ennill cardod, ac ai dyna arwyddocâd *celwydd* yn ll. 20?
- 9 **clipiwr** 'Un sy'n tocio neu'n ysgythru, yn enw. ymylon darnau o arian bath er mwyn twyllo', GPC 500. Cf. GPB 6.114 *Lleidr arian clipiedig*.
- 11 **addail** 'Llystyfiant, brigau ieuainc, dail, deiliach' yw'r ystyron sy'n gweddu i'r enghreifftiau cynnar a restrir yn GPC² 70–1, cf. GPB 6.7 *Addaf, addail gwywedig*. Tebyg mai dail pwdr, drewllyd a olygir yma; cf. diffiniadau'r geiriadurwyr, GPC² 71, e.e. y mae'n gyfystyr â *sothach* ac *ysbwrial* yn ôl D.
- 12 **ffrôr** Unig enghraifft. Rhydd GPC 1317 yr ystyr 'crawn, gôr', gan ddilyn awgrym petrus G.
- 32 **rhau** Golud neu eiddo, mae'n debyg, gw. GPC 3040 d.g. *rhau*¹ a cf., efallai, *rheuedd, rheufedd* 'cyfoeth, trysor, helaethrwydd', gw. *ib.* 3063. Digwydd mewn cyd-destunau dychanol yn GPB 3.8 *Rhau bwdrfon cynrhon, canrheg biau* (gw. *ib.*n) ac *ib.* 9.93 *A'i chodau a'i rhau a'i rhech*.

² Tebyg yw'r modd y mae Gruffudd ap Maredudd yn canolbwyntio ar afiechyd Ieuan fab Meilyr mewn cerdd ddychan arall o'r Llyfr Coch, GGMD iii, cerdd 7; cf. hefyd y ddychangerdd anh. i Ieuan, GPB cerdd 9.

³ Am enghraifft glir o englynion celwydd golau o Lyfr Coch Hergest, gw. GPB cerdd 10, a cf. yr englynion i Lywelyn (Goch ap Meurig Hen?), *ib.* cerdd 11. Ynglŷn â'r cyff clêr, gw. *ib.* 135–9; DGIA 47–9; Jerry Hunter, 'Cyd-destunoli Ymrysonau'r Cywyddwyr: Cipolwg ar yr "Ysbaddiad Barddol"', *Dwned*, iii (1997), 33–52.

- 37 **goferau Peras** ‘Ffrydiau, ‘gorlif ffynhonnau’, neu, efallai, ‘dir isel corsiog’ yw ystyr *goferau*, gw. 10.36n. Ni welwyd enghraifft arall o’r ffurf *peras*, a chymerir mai e.prs. sydd yma. Tybed nad gwall ydyw am *Perwas*? Ceir Betws Perwas, neu Lanberwas, yn Llanrhwydrys ym Môn, ond ni wyddys dim am yr e., M. Richards: ETG 210; cf. WATU 12. Gallai hefyd fod yn wall am *Peris*, a Madog yn cymell y claf i gyrchu ffynnon iachusol Sant Peris yn Eryri er mwyn gwella’i glwyfau. Yn ôl LBS iv, 92, ‘The waters of the well were supposed to cure rickety children and scrofulous and rheumatic persons, who were to bathe in it’; cf. Francis Jones, *The Holy Wells of Wales* (Cardiff, 1954), 147–8. Ar gysylltiad gwahanol ffynhonnau â’r gwahanglwyf, gw. *ib.* 75.
- 39 **rhwnc** Sŵn anadlu afrwydd a chras rhywun ar farw, cf. llau. 29–30 *arch weddiau—’r byd / Herwydd bod yt angau*, ac eto o’r 14g., *namyn dynyon ymron agheu. y clywit eu rwgc*, J.E. Caerwyn Williams, ‘Welsh Versions of *Purgatorium S. Patricii*’, SC viii/ix (1973–4), 189.
- 41 **daly guchau** Cf. yr ymadroddion *dal gwg* a *dal cilwg*, gw. GPC 882 d.g. *daliaf*, *dalaf*.
- 43 **llechwedd lluchau** Ai llechwedd sy’n gynefin â lluwchfeydd eira, neu lechwedd sy’n denu melltt? Gall fod yn e. lle. Ceir Llechwedd Ystrad ym mhlwyf Llanygerw, gw. 1.19n, a Llechwedd Llyfn ym mhlwyf Llanfor i’r dwyrain, gw. *Rhestr o Enwau Lleoedd*, gol. Elwyn Davies (Caerdydd, 1957), 71.

14

Fel yr awgryma teitl ffug-urddasol y bardd ei hun, math o foeswers ddychanol yw’r gerdd hon.¹ Ceir tinc baledol wrth i Fadog gyfarch ei wrandawyr ar ddechrau’r gerdd, ac y mae rhwyddineb storïol yr ymadroddi yn nodwedd bur anghyffredin yn y cyfnod hwn, yn enwedig ar fesurau’r englyn a’r awdl. Dyma enghraifft brin yn y farddoniaeth o naratif trydydd person heb fawr o’r ymorchestu geiriol a’r dyfalu negyddol sy’n nodweddu’r rhan fwyaf o’r canu dychan.

Er nad oedd *o ddwyach dda* (ll. 4), llwyddodd Deicyn i gael gafael ar gyfoeth bydol ac ar lys hardd rywle yng nghyffiniau Llanelwy. Bu’n byw am gyfnod fel gwrda a’i barch yn fawr ymhlith y beirdd, ond oherwydd ei falchder a’i draha fe gollodd y cwbl. Ceir disgrifiad ffraeth ohono’n lladrata a chardota’r wlad, yn chwilio’r perthi am fwyd ac yn cael ei orfodi i werthu’r gwisgoedd sy’n atgof creulon o’r dyddiau bras. Yn yr englyn clo, try Madog i gyfarch ei gynulleidfa drachefn: boed tynged Deicyn yn rhybudd i bawb. Un gynulleidfa bosibl i’r foeswers ddifyr hon fuasai clerigwyr Llanelwy, yn debyg i gywyddau dychan Iolo Goch i’r Brawd Llwyd

¹ Cyhoeddwyd testun yn MA² 325–6.

sy'n eu hamddiffyn rhag cyhuddiadau'r Ffransisgiaid.² Canodd Iolo yn helaeth i eglwyswyr Llanelwy; yn wir, awgrymwyd mai un o glerigwyr yr esgobaeth honno oedd y Madog ap Hywel a ddychenir ganddo fel *nid ail Asaff* mewn awdl a gofnodwyd yn y Llyfr Coch.³

Canwyd yr englynion unodl union hyn ar y brifodl *-a*. Gwneir y defnydd arferol o gymeriad, er nad yw lawn mor gywrain â'r hyn a welir mewn rhai o gerddi eraill y bardd. Y gynghanedd draws sydd amlycaf (20 llinell o gymharu â 17 o gynganeddion sain), a cheir cynghanedd lusg yn nhrydedd llinell chwech o'r englynion.

- 1 Agoriad confensiynol, fe ymddengys. Ceir amryw enghreifftiau o'r trawiad *ystyried* neu *ystyriwn / (y)stori(a)* yn y mynegai i farddoniaeth y llsgrau., MCF (Ebrill 2006).
Deicyn Ffurf fachigol ar *Dafydd*; cf. G 323.
- 2 **tirda** Ffurf ar batrwm *gwrda, geirda, hindda, &c.*
- 3 **trwsa** Cf. *hen drwsa blew* yn ddisgrifiad o Eiddig yn GIG 108 (XXVI.48); *Drwsa brag* am Frawd Llwyd, *ib.* 155 (XXXIV.86); a GGMD iii, 7.5 *Yn dwrra, trwsa treisach* (dychanu Ieuan fab Meilyr).
- 5 **cyfa** Llsg. C *geva*. Cf. *yman > yma?* Gw. GPC 676 d.g. *cyfan, cyfa*.
- 6 **lle ydd oedd** Cywasger er mwyn hyd y ll., fel ll. 10.
- 9 **bro Asa—Sant** Cf. GDB 35.74 (*Dafydd Benfras*) a ll. 30 isod *O'r esgobawd yma*. Yr ardal o amgylch Llanelwy, mae'n debyg, er bod esgobaeth Llanelwy yn ymestyn ymhell i'r de: 'Llanelwy had a limited *parochia*, for St. Asaph was a purely local saint whose dedications are confined to the northern parts of Flintshire ... though the boundaries of the Norman diocese of St. Asaph coincided roughly with those of twelfth-century Powys', R.W.D. Fenn, 'The Age of the Saints', yn *A History of the Church in Wales*, gol. David Walker (Penarth, 1976), 14. I'r rhan hon o'r wlad y perthyn y dystiolaeth am fab Madog Dwygraig, gw. y Rhagymadrodd, td. 2.
- 12 **foloch ddwyn** Ymddengys fod darlleniad llsg. C *voly dwyn* yn llwgr gan ei fod sillaf yn brin a chan nad atebir y gytsain *ch* yn ail hanner y ll., *yn falch o'i dda*. Derbynnir yn betrus awgrym J. Lloyd-Jones i ddiwygio *foly* i *foloch*, gw. G 70 d.g. *boloch*. Y mae'r ystyr 'blinder, gofal' neu 'dinistr', gw. GPC 297, yn gweddu'n dda. Posibilrwydd arall, gan gadw'r llafariad y yn *voly*, fuasai *folchwydd wŷn*, sef *boly* + *chwydd*—cf. GGrG 5.31–2 *Balchaf wyf gilio'r bolchwydd / O'r cylla rhwth, cawell rhwydd*; gall hefyd olygu 'balchder, ymchwydd', neu fel a., 'chwyddedig, rhodresgar', cf. TA 206 (L.36) *Ag yn folchwydd gan*

² GIG cerddi XXXIV–V; gw. *ib.* 356.

³ *ib.* 170 (XXXVIII.4); gw. *ib.* 373.

feilchion—a *gwŷn* ‘poen’ neu ‘ddicter’.

- 13 **Lusiffer** A’r acen ar y goben; cf. GPB 6.71; GBDd 4.28.
faw ddiwst R 1272.18 *ba6 dik6st*, ond gellir darllen *v* yn hytrach na *b* yn y llsgr. Cymerir bod *diwst* yn gyfuniad o *dig* + *gwst* ‘poen’, cf. G 345 d.g. *dic*.
- 15 **grach cwlla** Llsgr. C *grath c6lla*. Cf. G 168 d.g. *crach*. Gellid diwygio i *gath* neu *groth*, ond anodd fyddai canfod ystyr foddhaol. Dyma’r unig enghraifft o *cwlla*, ac efallai y dylid diwygio’r ffurf hon hefyd, i *cylla* (sef *cwll* + *-a*).
- 16 **heb ra** Math o ffwr yw *gra* a ddefnyddid i addurno gwisgoedd moethus, o’r S.C. *gra* ‘llwyd’, fel e. ‘ffwr llwyd’, gw. GPC 1518; cf. GPB 7.9–10 *Ni weddai iddo, newyddal—fwriwrch, / Groenen eisindwrch, gra na syndal*.
- 20 **pipgnau** Dyma’r unig enghraifft gynnar a restrir yn GPC 2808; seiliwyd y diffiniad ‘cnau castanwydd’ ar P. Tybed nad cnau sy’n achosi’r bib a olygir, cf. *piblyd* yn ll. 50?
- 23 **clera** Yn yr ystyr ‘crwydro, cardota fel clerwr’.
- 25 **clêr** Yr ystyr ddirfiol ‘beirdd neu ddidanwyr isradd’ sy’n gweddu yma, ac efallai yn ll. 13. Trafodir tarddiad a datblygiad yr ystyr erbyn y 14g. yn DGIA 1–37.
- 25–6 **ireidlyd, / Ar dyle** Llsgr. C *ardyle*. Enghraifft o’r bai ‘crych a llyfn’, cf. 8.4n uchod. Rhoddai *ar ydle* (*ŷd* + *lle*) gynghanedd reolaidd, neu *ar rydle* (*rhyd* + *lle*)—ceir *rhydle* yn yr ystyr ‘achlysur’ neu ‘anffawd’ o’r 17g. ymlaen, gw. GPC 3126—ond ni roddai’r un o’r rhain ystyr foddhaol.
